



Adroddiad ar Gyflawniad Corfforaethol y Cyngor 2020-21

Bydd yr holl ddata sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad yma'n destun gwiriadau terfynol

Mae'r ddogfen yma'n cynnwys blaenoriaethau'r Cyngor sef yr Amcanion Gwella sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac, hefyd, amcanion llesiant y Cyngor yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. I bob pwrpas, mae modd trin amcanion Llesiant ac Amcanion Gwella yr un fath â'i gilydd. Felly, drwy integreiddio'r prosesau ar gyfer pennu'r amcanion allweddol yma, ac adrodd arnyn nhw, mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â'r ddau faes deddfwriaeth.

Mae'r ddogfen yma ar gael mewn sawl iaith a diwyg arall ar gais.

Rhif	Adrannau	Tudalen
	Cynnwys	
1	Cyflwyniad a Chysylltiadau	3
2	Neges gan Arweinydd y Cyngor	4
3	Ein gwaith parhaus i gyflawni ein blaenoriaethau yn 2019-20	7
4	<ul style="list-style-type: none"> Economi — Adeiladu economi gref 	11
5	<ul style="list-style-type: none"> Pobl — Hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb yn Rhondda Cynon Taf 	21
6	<ul style="list-style-type: none"> Lleoedd — Creu cymdogaethau mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw 	29
7	Yr hyn a gyflawnon ni yn ein Cynllun Corfforaethol rhwng 2016 a 2020	38
8	Ein cyflawniad ni o'i gymharu â gweddill Cymru	43
9	Gwneud Gwahaniaeth — Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor	47
10	<ul style="list-style-type: none"> Pobl 	50
11	<ul style="list-style-type: none"> Lleoedd 	52
12	<ul style="list-style-type: none"> Ffyniant 	54
13	Darparu ar gyfer y dyfodol	57
14	Gwneud y gorau o'n Cyllideb	59
15	Gweithio nawr er Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	61
16	Cydraddoldeb — Bwrdeistref Sirol deg a chyfartal	68
17	Y Gymraeg — Darparu gwasanaethau yn eich dewis iaith	75
18	Bioamrywiaeth	81
19	Cynnwys pobl a chymunedau yn Rhondda Cynon Taf	85
20	Rhoi'n ôl	89
Atodiad 1	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol — Matrics Nodau — Atodiad	90

Cyflwyniad a Chysylltiadau

Dyma Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol blynyddol y Cyngor. Mae'n nodi ein cyflawniadau yn ystod 2019–20 a'n blaenoriaethau newydd ar gyfer 2020–21.

Rydyn ni'n croesawu eich sylwadau ar yr adroddiad yma, ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol a'n cyflawniad y llynedd. Hoffen ni wybod hefyd sut mae ein gwaith i wella gwasanaethau wedi effeithio arnoch chi, ar eich teulu ac ar eich cymuned.

Mae modd cysylltu â ni:

Drwy'r wefan	www.rctcbc.gov.uk/DweudEichDweud www.rctcbc.gov.uk/RhoiGwybod
Drwy Twitter	@CyngorRhCT neu @cwmtafconsult
Drwy Facebook	www.facebook.com/RCTCouncil
Drwy Flog yr Arweinydd	www.rctcbc.gov.uk/BlogyrArweinydd
Helpwch ni i wella drwy roi'ch sylwadau, eich canmoliaeth a'ch cwynion	www.rctcbc.gov.uk/adborth
Drwy ddod yn rhan o Banel y Dinasyddion	www.rctcbc.gov.uk/jointhepanel (Bydd modd dewis Cymraeg ar ôl mynd i'r dudalen)
Drwy gymryd rhan yn ein hymgyngoriadau	www.rctcbc.gov.uk/CymrydRhan
Drwy'r Garfan Ymgynghori	E-bost: ymgyngori@rhondda-cynon-taf.gov.uk
Drwy Hwb Ymgysylltu Cwm Taf	www.EinCwmTaf.Cymru
Drwy'ch Cynghorydd	Manylion cyswllt eich Cynghorydd lleol www.rctcbc.gov.uk/cynghorwyr
Ydych chi'n awyddus i gymryd yr awenau gan y Cyngor am gynnal adeilad neu wasanaeth?	www.rctcbc.gov.uk/RhCTGydanGilydd

Neges gan Arweinydd y Cyngor — y Cynghorydd Andrew Morgan

Croeso i Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2020. Mae'r adroddiad yma'n dwyn gwybodaeth ynghyd o bob rhan o'r Cyngor ynglŷn â'n llwyddiant wrth gyflawni blaenoriaethau yn 2019/20 a'n cynlluniau ar gyfer 2020/21. Mae'r adroddiad yma'n ein helpu i fodloni llawer o ofynion adrodd cyfreithiol y Cyngor, ond yn bwysicach fyth, mae'n rhoi modd i chi, drigolion a phartneriaid y Cyngor a sefydliadau perthnasol eraill, i weld ein cynnydd o ran ein hymrwymiaadau blaenorol. Rydyn ni eisiau dangos yr hyn sy'n mynd yn dda, lle gallwn ni wella, a bod yn onest ynglŷn â'r heriau o'n blaenau ni.

Serch hynny, mae'r adroddiad yma'n cael ei baratoi ar adeg pan mae'r Cyngor yn parhau i fynd i'r afael â heriau lleol, cenedlaethol a byd-eang digynsail. Yn dilyn stormydd Ciara a Dennis ym mis Chwefror 2020 bu ein ffocws ar weithio gyda chymunedau ac ailgyfeirio staff i sicrhau ein bod ni'n cefnogi'r trigolion a'r busnesau hynny yr effeithiwyd mor wael arnyn nhw. Ar yr un pryd, roedd feirws yn cael ei ledaenu ar draws y byd ac ym mis Mawrth 2020, roedd RhCT yn wynebu'r her newydd o helpu i gadw pob un preswlydd ac aelod o staff yn ddiogel ac yn iach. Gweithio gyda grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr i roi help a chyflenwadau hanfodol yn uniongyrchol i'r rhai oedd eu hangen, sicrhau bod y gwasanaethau hanfodol yn parhau, gweithio gyda phartneriaid ym maes iechyd i helpu i atal y feirws rhag lledaenu, ac ar yr un pryd, sicrhau ein bod yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru i gadw pobl yn ddiogel. Mae'r ychydig fisoedd diwethaf wedi bod yn gyfnod heb ei debyg. Mae'r feirws gyda ni o hyd a chydag effeithiau gweladwy newid yn yr hinsawdd, does dim amheuaeth y byddwn ni'n wynebu tywydd mwy difrifol hyd y gellir rhagweld. Serch hynny, mae'r Cyngor yn parhau i fod yn gadarnhaol ac yn uchelgeisiol, ac wrth i'n gwasanaethau ailgychwyn yn ddiogel, rydyn ni'n parhau i ganolbwyntio ar sicrhau mai RhCT yw'r lle gorau yng Nghymru i fyw, gweithio a chwarae ynddo, lle mae pobl a busnesau yn annibynnol, yn iach ac yn ffyniannus.

Mae'r Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol yn cynnwys llawer o enghreifftiau o sut mae'r Cyngor yn gweithio i wella lles Economaidd, Cymdeithasol, Amgylcheddol a Diwylliannol trigolion a chymunedau Rhondda Cynon Taf. Mae e hefyd yn dangos yr hyn y mae Archwilwyr Annibynnol y Cyngor wedi'i ddweud am ein gwaith a'n cynnydd.

I'r darllenwyr hynny a hoffai weld gwybodaeth fanylach, mae'r adroddiad yn cynnwys llawer o ddolenni cyswllt i adroddiadau a data manwl. Sut bynnag rydych chi'n dewis darllen yr adroddiad yma, rydw i'n gobeithio y bydd yn eich helpu chi i ddeall a herio'r hyn rydyn ni'n ei wneud ac yn eich annog chi i gymryd rhan drwy roi adborth fel bydd modd i'r Cyngor ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl ar eich cyfer.

Mae'r data a'r wybodaeth rydyn ni'n eu casglu, gwirio a chymharu, yn dangos ein bod ni'n parhau i wella ar y cyfan a bod ein trigolion yn manteisio ar nifer o wasanaethau sydd ymhlith y gorau yng Nghymru yn ôl ein data mwyaf diweddar. Mae'r rhain yn cynnwys

- helpu i atal digartrefedd
- gwella cyflwr ein ffyrdd statws C
- a chynnal lefelau uchel o lendid ar ein priffyrdd

- gwneud penderfyniadau amserol ar geisiadau cynllunio a sicrhau bod y penderfyniadau yma'n gywir fel na chân nhw eu gwrthdroi mewn apêl

Er ein bod ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud cynnydd da mewn rhai meysydd ac yn cymharu'n dda ag eraill, rydyn ni'n gwybod bod angen i ni wneud yn well mewn meysydd eraill. Mae hyn yn cynnwys

- parhau i wella cyflwr ein ffyrdd — rydyn ni felly yn parhau i fuddsoddi yn ein ffyrdd ac atgyweirio pontydd.
- gwella presenoldeb yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd — rydyn ni felly yn parhau i weithio gydag ysgolion er mwyn mynd i'r afael â'r problemau a all arwain at absenoldeb plant a phobl ifainc.
- parhau i fuddsoddi yn ein canolfannau hamdden ac annog pobl i ofalu am eu hiechyd a'u ffitrwydd.

Mae'r hinsawdd ariannol y mae'r Cyngor a'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gweithredu ynddi yn ddigynsail. I'r Cyngor, mae ein dull gweithredu cadarn tuag at reoli a chynllunio'n cyllid yn ei gwneud hi'n bosibl darparu cymorth ar gyfer trigolion a busnesau drwy weithio ar y cyd a chyda cymorth Llywodraeth Cymru.

Byddwn ni'n parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'n partneriaid i wneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau sydd ar gael ac i sicrhau'r cyllid ychwanegol parhaus sydd ei angen i adfer yn sgil y digwyddiadau digynsail. Rydyn ni hefyd yn newid sut mae rhai gwasanaethau'n cael eu darparu i sicrhau eu bod nhw'n parhau i ddiwallu anghenion ein cymunedau lleol a darparu gwerth am arian, ac ar yr un pryd, yn sicrhau bod iechyd a sefydlogrwydd ariannol y Cyngor yn cael eu cynnal.

Ar y cyfan, rydyn ni o'r farn bod y Cyngor yn gwneud cynnydd da ond dydy ein gwaith byth yn aros yn ei unfan, yn enwedig nawr wrth i'r gwasanaethau geisio ymateb i ddigwyddiadau sy'n symud yn gyflym (a chynllunio ar eu cyfer nhw) sydd allan o'u rheolaeth. Yn ogystal â thrafod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r adroddiad yma hefyd yn rhoi gwybod i chi am ein huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol a'r hyn y byddwn yn ei wneud dros y flwyddyn nesaf i wella'r blaenoriaethau hynny rydych chi wedi dweud sydd bwysicaf i chi a'ch cymunedau. Rydyn ni wedi nodi'r rhain yn ein Cynllun Corfforaethol newydd. Wrth edrych ymlaen at 2020/21, byddwn ni'n gweithio'n galed i wneud y canlynol

- **sicrhau bod 'Pobl' yn annibynnol, iach a llwyddiannus**
- **creu 'Lleoedd' y mae pobl yn falch o gael byw, gweithio a chwarae ynddyn nhw**
- **gwneud 'Ffyniant' yn bosibl trwy greu cyfleoedd i bobl a busnesau**

Mae'r adroddiad yma'n rhoi rhagor o wybodaeth i chi ynglŷn â sut y byddwn ni'n gwneud hyn. Rhaid cofio bydd rhagor o gynnydd wedi'i wneud yn y gwaith sy'n cael ei grybwyll erbyn i chi ddarllen yr adroddiad, yn enwedig lle'r effeithiwyd ar ein cynnydd oherwydd llifogydd a chyfyngu ar symudiadau. Ein bwriad o hyd yw sicrhau bod ein trigolion yn cael y newyddion diweddaraf ynghylch yr hyn sy'n digwydd yn y Cyngor, ein cynnydd, a'r hyn rydyn ni'n ei wneud i wella pethau. Bydd y newyddion yma'n eich cyrraedd chi drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol ac ar ein gwefan. Byddwn i'n eich annog chi i weld y newidiadau rydyn ni'n eu gwneud drosoch chi'ch hun.

Byddwn ni hefyd yn parhau i ddarparu cyfleoedd ystyrllon i drigolion gymryd rhan yn ein prosesau democrataidd. Mae modd gweld rhai o'r gwelliannau nawr ond bydd eraill yn dod i'r amlwg gyda thraul amser, ond rydyn ni'n parhau i osod seiliau cadarn fydd yn cynorthwyo gwelliant y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn elwa ohono ac yn adeiladu arno hefyd.

Yn olaf, fyddai dim o'r gwaith yma'n digwydd heb ymrwymiad parhaus staff, Cynghorwyr a phartneriaid. Mae'r ychydig fisoedd diwethaf yn benodol wedi dangos ymrwymiad anhygoel a gwaith caled staff y Cyngor i wneud popeth posibl i gefnogi trigolion, cymunedau a busnesau, trwy gydol yr amseroedd anoddaf, yn broffesiynol ac yn bersonol. Hoffwn i gofnodi, unwaith eto, fy niolchiadau personol i bawb sy'n gweithio'n galed i wneud Rhondda Cynon Taf yn un o'r Cynghorau mwyaf llwyddiannus yng Nghymru fel bod ein trigolion yn manteisio ar y gwasanaethau gorau posibl er gwaetha'r heriau rydyn ni'n parhau i'w hwynebu. Un o'n hasedau mwyaf gwerthfawr o hyd yw staff ein hawdurdod lleol sy'n troi ein huchelgeisiau yn realiti.

Rydw i'n gobeithio bydd yr Adroddiad Cyflawniad yma yn eich helpu chi i ddeall sut mae'r Cyngor yn mynd ati i ddelio â'r heriau a'r cyfleoedd mae'n eu hwynebu ar hyn o bryd a sut mae'n paratoi ar gyfer y dyfodol. Rhowch wybod i ni beth yw'ch barn chi am ein cynnydd, yn enwedig wrth i ni barhau i weithio trwy'r pandemig, a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Rhowch wybod i ni beth sy'n bwysig i chi a'ch syniadau ynglŷn â'r hyn y gallwn ni'i wneud i wella effaith gadarnhaol gwaith y Cyngor i chi, eich teulu a'ch cymuned.

Hoffwn i hefyd gofnodi fy niolchiadau i'r holl Aelodau etholedig, yn enwedig trwy ein prosesau craffu, sydd i gyd yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau bod y Cyngor yma yn cyflawni'r ymrwymadau a'r blaenoriaethau rydyn ni wedi'u gosod.

Diolch i chi am eich diddordeb parhaus yn y Cyngor.



Y Cynghorydd Andrew Morgan

Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Ein gwaith parhaus i gyflawni ein blaenoriaethau yn 2019-20

Roedd [Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2016-20, 'Y Ffordd Ymlaen'](#), yn rhoi'r prif sylw i'n trigolion. Cafodd y cynllun ei ddatblygu a'i lunio yn wreiddiol gan drigolion, staff a phartneriaid a ddywedodd wrthon ni beth oedd fwyaf pwysig iddyn nhw. Y cynllun yma sydd wedi gosod y cyfeiriad ar gyfer popeth rydyn ni wedi'i wneud ers 2016 yn ogystal â'r seiliau cadarn i'n [Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2020-24, sef 'Gwneud Gwahaniaeth'](#), a roddwyd ar waith yn Ebrill 2020. Yn yr adroddiad blynyddol yma, byddwn ni'n dangos i chi'r cynnydd rydyn ni wedi'i wneud ers 2016, gyda ffocws ar 2019/20. Yn ogystal â hynny, byddwn ni'n nodi sut rydyn ni'n bwriadu datblygu ein blaenoriaethau newydd y tu hwnt i 2020.

Roedd Cynllun Corfforaethol 2016 sef 'Y Ffordd Ymlaen' yn nodi gweledigaeth ar gyfer y dyfodol — *Bwrdeistref Sirol â dyheadau uchel, sy'n hyderus ac sy'n hyrwyddo cyfleoedd i bawb*. Roedd yn canolbwyntio ar dair blaenoriaeth:

- **Economi** – Adeiladu economi gref.
- **Pobl** – Hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb.
- **Lleoedd** – Creu cymdogaethau mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw.

Roedd y Cynllun hefyd yn nodi'r egwyddorion allweddol bydden ni'n eu dilyn i gyflawni'r blaenoriaethau yma, sef:

- darparu gwasanaethau hanfodol yn dda;
- helpu pobl a chymunedau i helpu eu hunain;
- creu Bwrdeistref Sirol gynaliadwy; a
- byw ar yr hyn sydd gyda ni.

Ers hynny, rydyn ni wedi rhoi cynlluniau ac adroddiadau blynyddol ar waith i ddangos ein cynnydd. Nodwyd y cynlluniau manwl ar gyfer 2019/20 i gyflawni ein tair blaenoriaeth yn ein [Hadroddiad Cyflawniad Corfforaethol ar gyfer 2019](#).

Mae'r Cynghorwyr wedi bod yn adolygu a gwirio ein gwaith bob tri mis. Ar yr un pryd, mae [Adroddiadau Cyflawniad chwarterol](#) wedi cael eu rhoi ar wefan y Cyngor fel bod modd i drigolion a sefydliadau perthnasol eraill weld y cynnydd drostyn nhw eu hunain. Rydyn ni bellach ar ddiwedd blwyddyn adrodd 2019/20, felly mae'r adroddiad yma'n cynnwys yr asesiad diwedd blwyddyn o'n cynnydd ac yn darparu enghreifftiau o ble mae ein gwaith wedi gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Rhondda Cynon Taf ac yn ymweld ag e, a hefyd, lle mae angen i ni wneud yn well.

Mae defnyddio'r dull yma gyda'n Cynllun Corfforaethol cyntaf wedi bod o ddefnydd da i'r Cyngor, ac fel y gwelwch chi trwy'r adroddiad yma, rydyn ni wedi gwneud cynnydd cadarnhaol ers 2016.

Mae edrych ar ein cynnydd ers 2016, ar yr hyn y mae angen i ni ei wneud nawr ac yn y dyfodol a hefyd gwrandao ar yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthon ni sy'n bwysig i chi, wedi ein helpu i baratoi'r camau a'r cynlluniau manwl a gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol. Bydd ein

cynnydd hyd yn hyn yn ein helpu i baratoi i ymateb i'r heriau sy'n ein hwynebu yn 2020 a thu hwnt. Rydyn ni'n hyderus y bydd y cynnydd yma'n parhau yn y dyfodol wrth i ni gynllunio ar gyfer ein blaenoriaethau newydd yn ein cynllun newydd 'Gwneud Gwahaniaeth ' a'u cyflawni. Mae hyn yn cael ei ddisgrifio'n fanylach yn adran 9.

Wrth i ni ddatblygu'n cynlluniau, byddwn ni'n parhau i gynnwys pobl a chymunedau, ystyried effaith yr hyn a wnawn ni nawr ar bobl a chymunedau yn y dyfodol, cynllunio'r hyn a wnawn ni'n ofalus fel bydd modd i ni weithio gydag eraill lle'r peth gorau yw gwneud hynny, a rhoi gwasanaethau ar waith a fydd yn atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

Does dim modd i adroddiad neu gynllun unigol ddweud wrthoch chi am yr holl wasanaethau rydyn ni'n eu darparu'n uniongyrchol (neu'n eu trefnu) ar gyfer trigolion, cymunedau a busnesau. Roedd llawer o'r gwasanaethau yma ar flaen y gad wrth ymateb i lifogydd a ddeilliodd o stormydd Ciara a Dennis yn gynharach eleni, yn ogystal ag effaith Covid-19, a bydd llawer o gynlluniau ar gyfer 2020/21 yn ansicr. Serch hynny, mae modd i chi gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu, y cynnydd rydyn ni'n ei wneud a sut rydyn ni'n cefnogi trigolion a chymunedau ar [wefan](#), cyfrif [Twitter](#) a chyfrif [Instagram](#) y Cyngor neu'i dudalennau [Facebook](#).

Er mwyn ein helpu i gyflawni ein huchelgeisiau ac ymateb i effaith pwysau ariannol cynyddol, rydyn ni'n edrych yn barhaus ar sut y gallwn ni fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd gyda ni, drwy fynd i'r afael â'r canlynol:

Digideiddio fel y gall cwsmeriaid gyrchu rhagor o'n gwasanaethau ar-lein a hefyd helpu i gynyddu mynediad i dechnoleg i bobl a chymunedau.

Yn ystod 2019/20, enillon ni dir yn sgil cyflwyno'n rhaglen Digideiddio yn raddol, er enghraifft, drwy gynyddu argaeledd gwasanaethau ar-lein, darparu gwybodaeth am y cymorth oedd ar gael yn ystod y llifogydd yn gynnar yn 2020 a chysylltiad di-wifr rhad ac am ddim yng nghanol trefi Aberdâr, Aberpennar, Glynrhedynog, Porth a Threorci, gyda'r seilwaith yn cael ei adeiladu ar gyfer cysylltiad di-wifr yng nghanol 2 dref arall. Ym mis Mawrth 2020, cafodd y gwaith yma ei gyflymu oherwydd yr angen diymdroi i'w gwneud hi'n bosibl i dros 3,000 o staff swyddfa a Chynghorwyr weithio'n effeithiol o'u cartrefi gyda'r offer a'r adnoddau priodol. Caniataodd hyn

- i drigolion a grwpiau cymuned gael y newyddion diweddaraf ynglŷn â newidiadau mewn gwasanaethau a'r cymorth oedd ar gael
- i brosesau democrataidd barhau'n rhithwir
- i gyfarfodydd rhithwir gael eu cynnal ar-lein gyda phobl agored i niwed

Ar yr adeg yma hefyd, buon ni'n gweithio gyda phartneriaid, rhoi ateb dros dro ar waith ar gyfer olrhain cysylltiadau Covid-19 ar draws ardaloedd Cwm Taf

Morgannwg, a chefnogi datblygu ateb cenedlaethol i gefnogi'r ymgyrch genedlaethol i gadw pobl yn ddiogel.

Mae digideiddio yn helpu pobl a chymunedau mewn ffyrdd eraill hefyd. Mae modd cael rhagor o wybodaeth am hyn yn ein gwerthusiadau manwl o Economi, Pobl a Lleoedd.

Masnacheiddio fel bod y Cyngor yn manteisio ar ragor o gyfleoedd i weithredu fel busnes i ennill incwm yn hytrach na thorri cyllidebau.

Rhoi ein hasedau ar brydles i greu incwm a swyddi newydd

Atal ac ymyrryd yn fuan fel ein bod yn gwario rhagor ar rwystro problemau a llai ar geisio eu hunioni ar ôl iddyn nhw ddigwydd.

Rydyn ni wedi newid y ffordd rydyn ni'n darparu cefnogaeth Blynyddoedd Cynnar yn RhCT sydd erbyn hyn yn cynnwys plant 0-7 oed. Bellach mae Gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar yn cael eu darparu yn rhan o'r [Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth](#) i sicrhau bod teuluoedd yn RhCT yn cael y cymorth cywir ar yr amser iawn. Mae hyn yn golygu bod y cymorth rhianta ac iaith gynnar arbenigol a oedd ar gael o'r blaen i deuluoedd mewn ardaloedd 'Dechrau'n Deg' yn unig, bellach ar gael i bob teulu sydd ei angen yn RhCT yn rhan o becyn cynhwysfawr o gymorth i deuluoedd. Yn fwy diweddar, rydyn ni wedi cael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru i wneud newidiadau i wasanaeth yr ymwelwyr iechyd, trwy ddatblygu 'Rhaglen Ymweliadau Iechyd i'r Teulu' fel bod rhagor o gefnogaeth ar gael i bob teulu ni waeth ble yn RhCT maen nhw'n byw. Rydyn ni wedi cael caniatâd hefyd i roi newidiadau i'n cynnig gofal plant ar brawf fel bydd y cymorth yma ar gael i bob teulu yn yr un modd.

Annibyniaeth fel bod ein trigolion agored i niwed yn aros mor iach ag sy'n bosibl am gyhyd ag y bo modd.

Mae hyn yn cynnwys defnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn Haf 2019, i ddatblygu a gweithredu ffordd newydd o ddefnyddio technoleg i helpu ein trigolion i aros yn eu cartrefi eu hunain, yn ddiogel, am gyfnod hwy. Mae ein gwasanaeth ymateb newydd a ddechreuodd ym mis Ionawr 2020, yn darparu gwasanaeth ymateb cyflym 24 awr, bob dydd o'r flwyddyn, ar gyfer pobl sy'n defnyddio cortyn gwddf Achub Bywyd RhCT. Mae modd gweld rhagor am y gwasanaeth newydd yma yn y gwerthusiad [POBL](#).

Trefniadaeth Effeithlon ac Effeithiol fel ein bod yn herio

Parhaon ni i ganoli gweinyddiaeth swyddfa i fanteisio i'r eithaf ar y sgiliau a'r arbenigedd sydd ar gael y tu ôl i'r llenni. Ar yr un pryd, helpom ni staff sy'n gweithio yn y

popeth a wnawn i weld a allwn ni wneud yn well.

gymuned drwy ddarparu 'desgiau gwag' roedd modd iddyn nhw eu defnyddio mewn lleoliadau amrywiol fel ei bod hi'n bosibl iddyn nhw dreulio rhagor o amser yn gweithio gyda thrigolion, cymunedau a busnesau, a llai o amser yn teithio ar draws y Fwrdeistref Sirol yn ôl i swyddfa. Roedd y dull gweithredu yma'n golygu bod y Cyngor â mantais pan oedd yn ofynnol i staff weithio gartref mewn ymateb i Covid-19. Bydd y gwersi rydyn ni wedi'u dysgu o'r angen i weithio gartref gyda chymorth offer TGCh priodol ac ati, yn helpu i lywio ein meddylfryd ar gyfer llunio'r sefydliad yn y dyfodol.

Yn ystod 2019, fe barhaon ni hefyd i wreiddio [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) i mewn i waith a blaenoriaethau'r Cyngor. Mae'r Ddeddf yma'n berthnasol i 44 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru gan gynnwys yr holl Gyngorau, Byrddau Iechyd, Gwasanaethau Tân ac Achub a sefydliad Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r Ddeddf yn gofyn bod y Cyngor yn cynnal 'Datblygiad Cynaliadwy' yn ogystal â gwella'n barhaus, sy'n golygu'r broses o wella lles Economaidd, Cymdeithasol, Amgylcheddol a Diwylliannol trigolion Rhondda Cynon Taf. Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn i ni gyfrannu cymaint ag sy'n bosibl tuag at Saith Nod Llesiant Cenedlaethol, y byddwch chi'n eu gweld trwy'r adroddiad yma i gyd.

Byddwch chi hefyd yn gweld rhagor am sut rydyn ni'n cymhwyso'r Ddeddf yn adran 15 ac rydyn ni hefyd wedi darparu crynodeb ynghylch sut mae ein gwaith yn cyfrannu at y saith nod Llesiant cenedlaethol yn Atodiad 1. Serch hynny, mae angen i ni barhau i adeiladu ar y plattform cadarnhaol yma a'i wella.

Mae adroddiadau ar ein cynnydd wedi'u paratoi ar gyfer Cyngorwyr er mwyn iddyn nhw ei herio a'i wirio ac ar gyfer trigolion er mwyn iddyn nhw ei weld drostyn nhw eu hunain. Mae modd gweld y cynnydd yma isod. Dangosodd ein cynnydd ein bod ni ar y trywydd iawn i gyflawni'r rhan fwyaf o'r uchelgeisiau a osodon ni yn 2016. Serch hynny, cafodd y llifogydd difrifol a phandemig Covid-19 effaith sylweddol ar y cynnydd tuag at ddiwedd 2019/20.

ECONOMI – Adeiladu economi gref

Rhoeon ni'r flaenoriaeth **ECONOMI** yn ei lle gan ein bod ni o'r farn y byddai twf economaidd yn sbarduno ffyniant ac yn dod â chyfleoedd i'n trigolion a'n busnes yn ogystal ag i'r Cyngor. Bydd economi sy'n tyfu yn parhau i helpu i greu swyddi i'n trigolion a bydd hefyd yn caniatáu i'r Cyngor greu rhagor o incwm i ariannu gwasanaethau, galluogi dull cyfrifol o osod lefelau Treth y Cyngor, cefnogi busnesau a buddsoddi yn anghenion seilwaith y Fwrdeistref Sirol. Bydd helpu i greu'r amodau yma hefyd yn helpu i wella lles Economaidd, Cymdeithasol, Amgylcheddol a Diwylliannol trigolion a chymunedau. Dywedodd trigolion wrthon ni fod hyn yn bwysig iddyn nhw ac mae astudiaethau wedi dangos bod gweithio yn dda i bobl ac y gall fod o fudd i iechyd meddwl unigolion a chyfraniad at gymunedau.

Rydyn ni am gefnogi trigolion, yn enwedig ein pobl ifainc, i wireddu eu potensial trwy gael yr addysg orau, swyddi boddhaus a thai o ansawdd da, waeth beth fo'u cefndiroedd. Rydyn ni hefyd eisiau sicrhau bod RhCT yn y sefyllfa orau i fanteisio'n llawn ar y nifer o wahanol gyfleoedd a fydd yn codi o [Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd](#).

Bydd gwneud canol trefi RhCT yn fwy deniadol nid yn unig o fudd i drigolion, bydd e hefyd yn ychwanegu at apêl yr ardal yn gyrchfan i ymwelwyr, a fydd yn helpu i gynyddu twristiaeth ac a fydd, yn ei dro, yn cefnogi busnesau lleol yn ogystal â darparu rhagor o gyfleoedd i'n trigolion gael swyddi.

Rydyn ni hefyd yn gwybod bod rhaid i ni gynllunio i fodloni disgwyliadau uwch gan ein trigolion gyda llai o arian felly rhaid i ni wneud pethau'n wahanol.

Dyma'r camau rydyn ni wedi'u rhoi yn eu lle i gyflawni'r Flaenoriaeth yma

- **Ymagwedd gyfrifol tuag at adfywio, gyda chartrefi newydd yn cael eu hadeiladu a chyfleoedd gwaith yn cael eu creu – gan gynnwys buddsoddi ym mannau canolog y trefi a'r seilwaith masnachol megis Ystad Ddiwydiannol Trefforest**
- **Sicrhau bod ysgolion Rhondda Cynon Taf ymhlith y gorau yn y wlad, gyda'r plant i gyd yn cyflawni eu gorau glas**
- **Sicrhau bod amrywiaeth eang o raglenni sgiliau a chyflogaeth ar waith ar gyfer pobl o bob oed – drwy ddefnyddio arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop lle bydd modd i ni wneud hynny**

Y data diweddaraf

Economi

- Yn ôl y data diweddaraf, yn 2018, cynhyrchodd y Fwrdeistref Sirol werth £3,580 miliwn o nwyddau a gwasanaethau sy'n ein rhoi yn bumed yng Nghymru gyfan. [Ffynhonnell: StatsCymru](#)
- Ar ddiwedd 2019, pris tŷ ar gyfartaledd yn RhCT oedd £114,000, yr isaf ond 3 yng Nghymru [Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)
- Dros y tair blynedd diwethaf, Treth Cyngor RhCT sydd wedi codi leiaf yng Nghymru dros y 3 blynedd diwethaf [Ffynhonnell: StatsCymru](#)

Cyflogaeth

- Yn ôl y data diweddaraf, ym mis Mawrth 2020, roedd 69.8% o drigolion RhCT 16 oed a hŷn mewn cyflogaeth – y ganran isaf yng Nghymru heblaw am ddau Awdurdod Lleol arall; mae hyn 3.9 pwynt canran yn is na chyfartaledd Cymru (73.7%) [Ffynhonnell: StatsCymru](#)
- Yn ôl y ffigurau diweddaraf (2018), y diwydiannau Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Addysg ac Iechyd sy'n cyflogi'r nifer fwyaf o weithwyr yn RhCT (31%); mae'r diwydiannau Cyfanwerthu, Manwerthu a Lletygarwch yn cyflogi 28%, a'r diwydiant Cynhyrchu, 15% [Ffynhonnell: StatsCymru](#)
- Yn ôl amcangyfrifon 2019, enillion wythnosol cyfartalog y bobl a oedd yn gweithio yn ardal Rhondda Cynon Taf oedd £521.20, sef cynnydd o £16.80 yr wythnos o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond yn dal i fod yn is na chyfartaledd Cymru (£535.00) [Ffynhonnell: StatsCymru](#)

Addysg

- Yn 2019, ymhlith y bobl o oedran gweithio yn RhCT, doedd dim cymwysterau gan 11% ohonyn nhw, sydd 2.5% yn uwch na Chymru gyfan (8.5%). [Ffynhonnell: NOMIS](#).
- Yn ystod 2018-19, roedd 5,280 o bobl yn cael eu cyflogi mewn cynlluniau prentisiaeth a hyfforddi yn ardal RhCT, y nifer fwyaf ond un yng Nghymru. O'r rhain, roedd 1.42% o gefndiroedd BAME, y lleiaf ond 4 o blith y 22 Awdurdod Lleol. [Ffynhonnell: StatsCymru](#)
- Roedd 29,320 o bobl o RCT yn ymgymryd ag addysg bellach yn ystod 2018/19. [Ffynhonnell: StatsCymru](#)

Yn 2019 dywedon ni y bydden ni'n parhau â'n gwaith i Adeiladu Economi Gref, gan ganolbwyntio ar wella ein heconomi trwy gefnogi twf busnes a helpu unigolion i wella eu sgiliau. At ei gilydd, rydyn ni'n parhau i wneud cynnydd cadarnhaol fel Cyngor ac yn y partneriaethau ehangach hefyd sy'n cynnwys [Bargen Dinas Prifddinas-Ranbarth Caerdydd](#) a [Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf](#). Roedd y cynnydd yn rhai o'n mesurau allweddol yn arafach na'r disgwyl am nifer o resymau, ac roedd rhai ohonyn nhw y tu hwnt i'n rheolaeth. Er enghraifft, bu cynnydd yn nifer yr unedau masnachol gwag yn Aberdâr, Porth a Phontypridd o ganlyniad i dueddiadau cenedlaethol parhaus wedi'u gwaethygu gan stormydd a Covid-19, er ei bod hi'n werth nodi bod y ffigurau yma'n well na chyfartaledd cenedlaethol Cymru. Hefyd mae'r bwloch mewn cyflawniad addysgol rhwng ein disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion yn parhau i fod yn rhy uchel ac mae gormod o blant a phobl ifainc yn dal i gael eu gwahardd o'n hysgolion.

Serch hynny, rydyn ni'n parhau i ganolbwyntio ar gefnogi twf busnes a gwella sgiliau unigolion. Cafodd y ffocws yma ei herio i'r eithaf tuag at ddiwedd blwyddyn adrodd 2019, pan oedd angen i ni flaenoriaethu ein gwaith oherwydd effaith sylweddol a digynsail llifogydd yn yr ardal leol yn deillio o Stormydd Ciara a Dennis, ac yn sgil cyflwyno'r cyfyngiadau symud oherwydd Covid-19 hefyd. Aildrefnon ni lawer o'n cynllunio a chanolbwyntio ar weithio gyda phartneriaid i ddarparu cymorth uniongyrchol a brys ar gyfer y busnesau, y bobl a'r cymunedau hynny â'r angen mwyaf. Serch hynny, llwyddon ni i barhau â rhywfaint o'n gwaith adfywio strwythurol pwysig a'n prosiectau gwella yn ystod y cyfnod heriol yma. Fydd effaith y llifogydd a Covid-19 ddim yn cael ei hadlewyrchu'n llawn yn y cynnydd rydyn ni wedi'i nodi ar gyfer 2019, ond bydd eu heffaith yn bwysicach yn ein gwaith yn 2020/21.

O ran ein gwaith i gyflawni ein blaenoriaeth ECONOMI rydyn ni'n adeiladu'n barhaus ar ein profiad o wneud pethau'n wahanol, yn ystyried yr hyn sydd wedi gweithio a'r hyn y mae angen i ni ei wneud yn well. Rydyn ni hefyd yn cynyddu ein dealltwriaeth o effaith y newidiadau rydyn ni'n eu rhoi ar waith ar gyfer pobl a chymunedau Rhondda Cynon Taf a rhanbarth ehangach Cwm Taf.

Mae ein gwaith o fewn blaenoriaeth ECONOMI yn cael ei oruchwylio gan y Cabinet, Pwyllgorau Craffu perthnasol a, lle bo hynny'n briodol, Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf a byrddau eraill.

Mae modd gweld rhagor o fanylion ynglŷn â'n cynnydd o'i gymharu â'r hyn roedden ni'n ceisio'i gyflawni yn 2019/20 yn ein [Gwerthusiad Cyflawniad — ECONOMI](#).

Nodon ni y bydden ni'n rhoi ymagwedd gyfrifol at adfywio yn ei lle, gyda chartrefi newydd yn cael eu hadeiladau a chyfleoedd gwaith yn cael eu creu

Mesurau a nodon ni y llynedd

- Rhoeon ni gymorth ar gyfer 34 o welliannau i eiddo yn rhannau canolog ein trefi (*does dim modd cymharu hyn â'r llynedd oherwydd bod y diffiniad wedi newid*)
- Cafodd 86 o gartrefi newydd eu hadeiladu gan fusnesau lleol bach neu ganolig eu maint.
- Roedd 9,505 o fusnesau gweithredol yn Rhondda Cynon Taf yn 2018, sef cynnydd o 8,585 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol [Ffynhonnell: StatsCymru](#)
- Roedd llai o fusnesau newydd na'r llynedd ond roedd y ffigur yma'n sylweddol uwch na rhanbarth De-ddwyrain Cymru (15.5%), Cymru (13.3%) a'r DU (12.9%)
- Roedd nifer fwy o fusnesau'n dod i ben (18%) o'i chymharu â De-ddwyrain Cymru (11.7%), Cymru (10.4%) a'r DU (11.4%), sy'n adlewyrchu, yn rhannol, effaith sylweddol y tywydd garw yn gynnar yn 2020. Serch hynny, rydyn ni'n hyderus y bydd ein cynlluniau ar gyfer adfywio a'r ailddatblygiadau canol tref yn cynorthwyo busnesau newydd a'r rheiny sy'n bodoli eisoes. O ganlyniad i Covid-19, rydyn ni eisoes yn datblygu dulliau newydd o fynd i'r afael â'r heriau cyfredol a'r gwahanol gyfleoedd
- Cafodd rhagor o gartrefi fforddiadwy eu darparu. *Roedd y nifer yn uwch eleni (135) na 2018/19 (83).*
- Cafodd llai o eiddo gwag eu troi'n gartrefi defnyddiadwy (172) o'u cymharu â 2018/19 (213). *Roedd hyn oherwydd oedi cyn lansio cynllun grant cartrefi gwag Tasglu'r Cymoedd, a oedd yn golygu, i ddechrau, bod y broses o gymeradwyo grantiau yn un hirach. Serch*

hynny, dyma'r nifer fwyaf o eiddo sydd wedi'u troi'n gartrefi defnyddiadwy yng Nghymru yn sgil gweithredu uniongyrchol gan awdurdod lleol yn ystod 2019/20.

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi...

- parhau i foderneiddio mannau canolog ein trefi a'u helpu nhw i addasu i heriau a chyfleoedd newydd. Rydyn ni'n gweithredu'r cynlluniau ar gyfer y Porth ac Aberpennar ac yn gweithio ar gynlluniau newydd ar gyfer Treorci a Thonypandy. Mae hyn yn cynnwys gwaith sy'n cychwyn ar y safle ar brosiectau uchelgeisiol megis Hwb Trafnidiaeth y Porth, llety byw â chymorth a chanolfan feddygol newydd yn Aberpennar. Rydyn ni hefyd wedi darparu gwasanaeth di-wifr diogel ym mannau canolog trefi Aberdâr, Aberpennar a Glynrhedynog. Cafodd gwaith i wneud hyn yn Nhreorci a'r Porth ei ohirio ond mae bellach wedi'i gwblhau. Bydd gwaith ym Mhontypridd a Thonypandy yn cael ei gynnal cyn gynted â phosibl. Cynorthwyon ni 34 o fusnesau i wella'u hadeiladau. Yn fwy diweddar, rydyn ni wedi bod yn rhoi trefniadau yn eu lle i wneud mannau canolog ein trefi yn ddiogel, er enghraifft, helpu i reoli pellter cymdeithasol, a darparu grantiau i helpu busnesau i addasu'n gyflym i amgylchiadau newydd.
- parhau i gyflawni'r datblygiad newydd sydd wrth wraidd adfywiad Pontypridd, [Llys Cadwyn](#), yn dilyn dymchwel hen ganolfan siopa Dyffryn Taf, gan ddod â swyddfeydd, hwb cymunedol gyda llyfrgell fodern a chyfleusterau hamdden yn ogystal â swyddi ychwanegol. Mae'r gwaith pwysig i ailddatblygu hen adeilad YMCA Pontypridd hefyd wedi dechrau. Bydd yr adeilad yn gyfleuster modern at ddefnydd cymunedol a busnesau cymdeithasol.
- parhau i gynorthwyo busnesau bach lleol a busnesau newydd trwy ein [Cronfa Buddsoddi mewn Mentrau](#). Mae'r cynllun yma wedi ehangu cwmpas y rhaglen Cymorth i Fentrau blaenorol er mwyn darparu cymorth ariannol wedi'i dargedu'n well er mwyn eu galluogi i dyfu ac amrywio yn ogystal â chreu swyddi. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n paratoi pecyn cymorth mwy cynhwysfawr i fusnesau lleol er mwyn eu helpu i wynebu heriau a chyfleoedd yr amgylchedd economaidd newydd.
- lansio ein Strategaeth Lleihau Trosedd Canol Tref 2019-2021 a gweithio gyda busnesau a phartneriaid i wneud ein trefi yn fwy diogel trwy fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, dwyn o siopau a throseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus. Rydyn ni hefyd wedi gwella'n system teledu cylch cyfyng ym mannau canolog ein trefi ac yn parhau â'n cynlluniau i roi cysylltiad di-wifr am ddim ar waith, wedi'i achredu gan y Llywodraeth*. Bydd y cysylltiad yn un sy'n atal unrhyw gynnwys amhriodol.
- parhau i ddatblygu'r cynnig twristiaeth yn RhCT, gan dynnu ar gryfderau'r rhanbarth, sy'n cynnwys tirwedd a mannau gwyrdd a threftadaeth ddiwydiannol, gan weithio ochr yn ochr â busnesau lleol i wneud y rhanbarth yn ddeniadol i ymwelwyr. Rhai o'r atyniadau newydd sy'n cael eu datblygu neu'u hystyried ar hyn o bryd yw Twneli Cwm Rhondda ac Abernant a Zip World. Cafodd ein Taith Pyllau Glo Cymru ym Mharc Treftadaeth Cwm Rhondda gydnabyddiaeth bellach trwy dderbyn [Gwobr Sandford](#) am ysbrydoli dysgu a chwilfrydedd ymhlith y cenedlaethau nesaf. Rydyn ni hefyd wedi parhau i ddatblygu ein safleoedd 'Porth Darganfod' ym Mharc Gwledig Cwm Dâr a Pharc Coffa Ynysangharad gyda chymorth grant gan Lywodraeth Cymru. Yn fwy diweddar, dydy hi ddim wedi bod yn bosibl i ni gynnwys rhanddeiliaid i ddatblygu'r cynlluniau manwl ar gyfer twristiaeth yn RhCT o ganlyniad i bandemig Covid-19 ond rydyn ni'n awyddus i ddechrau ar y gwaith yma cyn gynted ag y gallwn ni.

- parhau i ehangu'r ystod o dai sydd ar gael drwy weithio gyda phartneriaid i ailddatblygu adeiladau diffaith, chwalu rhwystrau er mwyn helpu rhagor o bobl i adeiladu'u heiddo o ddewis, gwella eiddo gwag fel bydd modd eu defnyddio unwaith eto trwy gynlluniau fel 'Cynllun Grant Cartrefi Gwag' Tasglu'r Cymoedd a 'Benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi' y Cyngor ac annog perchnogion eiddo i gymryd camau priodol (a'u gorfodi lle bo angen) lle mae cartrefi yn cael eu gadael yn wag am gyfnodau hir. Fe barhaon ni hefyd i weithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddarparu tai fforddiadwy o safon gan ddefnyddio buddsoddiad grant tai cymdeithasol gwerth £15 miliwn, a helpu pobl ag anableddau i wneud addasiadau i'w helpu i aros yn eu cartrefi gan ddefnyddio contractwyr lleol i wneud gwerth £4 miliwn o waith mewn 297 eiddo.
- parhau i helpu trigolion RhCT i gael grantiau i osod dros 3,800 o fesurau effeithlonrwydd ynni yn eu cartrefi, gan wella cynhesrwydd eu cartrefi a lleihau biliau ynni.
- dechrau ystyried sut y gall gwaith i roi ein Cynllun Datblygu Lleol ar waith gael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd nawr ac yn y dyfodol. Mae trafodaethau i ystyried y ffordd orau o gyflawni hyn wedi cael eu gohirio o ganlyniad i bandemig Covid-19 a byddan nhw nawr yn cael eu cynnal yn ddiweddarach eleni. Bydd y trafodaethau yma'n cynnwys sut y gall cynllunio chwarae rhan allweddol i leihau effaith newid yn yr hinsawdd a lleihau allyriadau carbon yn y Fwrdeistref Sirol. Mae rhagor o wybodaeth am waith y Cyngor ynglŷn â newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ac yng ngwaith [Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd y Cyngor](#).

Buddsoddi mewn Busnesau Lleol — [Gofal Iechyd Gwalia](#)

Cafodd Gofal Iechyd Gwalia y mae eu swyddfeydd ar Ystad Ddiwydiannol Trefforest, grant o £10,000 trwy ein Cronfa Buddsoddi mewn Mentrau er mwyn eu helpu i ddatblygu partneriaeth gyda Firstkind Ltd, i wneud eu cynhyrchion 'Geko'. Mae'r ddyfais Geko yn cael ei gwisgo fel oriawr o dan y pen-glin, gan helpu i atal a thrin cyflyrau fel atal chwyddo yn dilyn llawdriniaeth orthopedig, lleihau'r risg ceulo gwaed mewn cleifion strôc a thrin briwiau ar eu coesau. Mae Gwalia yn cynhyrchu nifer o gydrannau'r ddyfais yn lleol. Mae'r cymorth grant wedi eu cynorthwyo i brynu offer technoleg laser i gydosod cynhyrchion Geko. Mae'r bartneriaeth rhwng y ddau gwmni wedi creu 18 o swyddi lleol o safon uchel.

Fe ddywedon ni y bydden ni'n sicrhau bod ysgolion Rhondda Cynon Taf ymhlith y gorau yn y wlad, gyda'r plant i gyd yn cyflawni eu gorau glas

Mesurau a nodon ni y llynedd

- Cynyddodd disgyblion RhCT eu Sgôr 9 wedi'i chapio ar gyfartaledd i 352.0, sef cynnydd bach ers 348.0 y llynedd (sgôr gyfartalog 9 canlyniad gorau pob disgybl ar lefel TGAU neu gyfwerth, gan gynnwys TGAU Cymraeg/Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth)
- Ar gyfartaledd, doedd canlyniadau'r disgyblion hynny sy'n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim ddim mor uchel â'u cyd-ddisgyblion. Dydy'r data yma ddim yn cael eu cyhoeddi ar lefel Cyngor gan fod Llywodraeth Cymru wedi argymhell bod cyflawniad pob ysgol yn cael ei ystyried ar wahân gan edrych ar yr heriau sy'n ei hwynebu. *Rydyn ni'n gweithio gydag ysgolion unigol i edrych ar sut y gallwn ni wella cymorth i ddisgyblion fel y bydd modd iddyn nhw gyflawni hyd eithaf eu gallu*
- rhagor o waharddiadau tymor penodol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd
 - Ysgolion cynradd 20.14 (fesul 1,000 o ddisgyblion)
 - Ysgolion uwchradd 126.6 (fesul 1,000 o ddisgyblion)
- cynyddodd gwaharddiadau parhaol hefyd. *Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydyn ni wedi rhoi ystod o opsiynau ar waith y bydd modd eu defnyddio i gefnogi a herio ysgolion. Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos bod y dull yma'n gweithio ond rydyn ni'n parhau i fonitro'r sefyllfa.*
- roedd mwy o'n disgyblion ysgol gynradd yn mynychu'r ysgol yn fwy rheolaidd. Ar 94.3%, mae hwn yn welliant bach o'i gymharu â 94.2% y llynedd ac yn gam i'r cyfeiriad cywir.
- roedd llai o'n disgyblion ysgol uwchradd ac ysgol bob oed yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd — ar 92.9% roedd hyn ychydig yn is na phresenoldeb y llynedd, sef 93%. *Rydyn ni'n parhau i herio a chefnogi ysgolion sydd angen y cymorth mwyaf yn ogystal â chefnogi disgyblion a rhieni er mwyn dod o hyd i ddarpariaeth addysg fwy addas lle bo hynny'n briodol, a threialu dull newydd yn yr ysgol.*

Helpu teuluoedd i helpu eu plant yng Nglenboi

Mae nifer fawr o ddisgyblion difreintiedig yn Ysgol Gynradd Glenboi. Er mwyn helpu disgyblion i gyflawni eu potensial llawn ac annog rhagor o gyfranogiad gan rieni a theuluoedd, mae'r ysgol wedi sefydlu Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd sydd wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r rhieni. O ganlyniad i'w gwaith, mae perthynas gadarnhaol wedi datblygu rhwng yr ysgol a'i theuluoedd, sydd yn ei dro wedi bod yn gadarnhaol o ran canlyniadau'r disgyblion, eu hagweddau at ddysgu, lles a phresenoldeb. Pan ofynnwyd iddyn nhw, roedd rhieni ag agwedd gadarnhaol tuag at yr ysgol, gwybodaeth am gynnydd eu plant a chyfathrebu â'r ysgol yn gyffredinol. Yn ystod arolygiad ysgol ym mis Mawrth 2019, roedd yr Arolygwyr Addysg, Estyn, yn canmol effaith y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd ar yr ysgol yn uchel ac mae wedi cyhoeddi'r gwaith fel astudiaeth achos ar eu [gwefan](#).

Mae modd i chi weld rhagor o fanylion am waith y [Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd yng Nglenboi](#).

O ganlyniad i lwyddiant y dull 'Ymgysylltu â Theuluoedd' yng Nglenboi, rydyn ni am sefydlu swyddi 'Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd' mewn chwech o'n hysgolion uwchradd sydd â'r gyfradd presenoldeb isaf fel rhaglen arbrolfol i weld a ydyn nhw'n cael yr un llwyddiant.

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi...

- ailwampio neu wella adeiladau a chyfleusterau yn Ysgol Gynradd y Gelli, Ysgol Gynradd Llanharan, Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant, Ysgol Gynradd y Cymer, Ysgol Gynradd Cwmdâr, Ysgol Gyfun Bryncelynnog, Ysgol Gyfun Treorci, Ysgol Gymuned Glynrhedynog ac Ysgol Gynradd Pengeulan. Rydyn ni hefyd wedi llwyddo i sicrhau cyllid Llywodraeth Cymru er mwyn parhau i wella ein hysgolion a chynyddu argaeledd Addysg Cyfrwng Cymraeg. Yn fwy diweddar, mae'r Cyngor wedi derbyn canlyniadau Adolygiad Barnwrol mewn perthynas ag ad-drefnu ysgolion ym Mhontypridd. Rydyn ni'n adolygu'r dyfarniad ar hyn o bryd cyn penderfynu sut i symud ymlaen.
- cael cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hwb dysgu yn Ysgol Gynradd Ffynnon Taf, a fydd yn darparu neuadd newydd, cyfleusterau gofal plant ac ystafell gymunedol er mwyn i wasanaethau poblogaidd lleol allu ateb y galw cynyddol. Mae rhan gyntaf y cynllun bron wedi'i chwblhau a bydd modd i ddarparu'r gofal plant lleol a'r Gymdeithas Datblygu Cymunedau leol symud i'r cyfleuster newydd yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21.
- adolygu'r cymorth rydyn ni'n ei ddarparu ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol cyn iddyn nhw ddechrau'r ysgol a rhoi cynllun peilot ar waith gydag Ysgol Hen Felin sy'n ceisio helpu plant i baratoi ar gyfer ysgol amser llawn. Yn dilyn adolygiad cychwynnol, roedd disgwyl i'r cynllun peilot gael ei ymestyn tan ddiwedd Tymor yr Haf 2020. Serch hynny, oherwydd pandemig byd-eang Covid-19, bydd y gwaith yma'n cael ei symud ymlaen i 2020/21 pan fydd ysgolion yn ailagor.
- gweithio gyda chydweithwyr yn y maes iechyd, i ddatblygu 'Rhaglen Ymweliadau Iechyd i'r Teulu' RhCT i sicrhau bod pob teulu ar draws RhCT sydd â phlant hyd at 5 oed yn cael cyfle i gael gafael ar gymorth sy'n diwallu eu hanghenion ni waeth ble yn RhCT maen nhw'n byw. Bydd Rhaglen Ymweliadau Iechyd i'r Teulu RhCT yn ffocysu'r cymorth ar bob plentyn a theulu sydd ei angen fwyaf.
- cytuno i dreialu gofal plant newydd wedi'i ariannu ar gyfer teuluoedd â phlant 2-3 oed sydd ei angen fwyaf, yn hytrach na bod hyn yn seiliedig ar ble mae teuluoedd yn byw. Bydd y teuluoedd hynny y mae gofal plant yn cael ei ddarparu ar eu cyfer ar hyn o bryd yn parhau i gael y gofal yma yn ystod y cyfnod newid.

Fe ddywedon ni y bydden ni'n sicrhau bod amrywiaeth eang o raglenni sgiliau a chyflogaeth ar gyfer pob oedran yn eu lle

Mesurau a nodon ni y llynedd.

- Cafodd 1,400 o bobl hyfforddiant a phrofiad gwaith neu ennill cymwysterau. Llwyddodd 635 o bobl i gael gwaith yn sgil ein cefnogaeth a'u gwaith caled.
- Dydy'r nifer ddiweddaraf o bobl ifainc sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ddim ar gael eto o ganlyniad i ohirio cyhoeddi data oherwydd Covid-19. Yn ôl ein data diweddaraf yn 2017/18, doedd 1.9% o bobl ifainc 16 oed (blwyddyn 11) a 2.9% o bobl ifainc 18 oed (blwyddyn 13) oedd yn gadael yr ysgol ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
- Cefnogon ni 147 o bobl â chyflyrau iechyd neu anableddau sy'n effeithio arny'n nhw yn y gweithle, i barhau yn eu swyddi neu ddychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod o absenoldeb. (*mesur newydd, yn rhy gynnar i gymharu*)
- Cefnogon ni hefyd 41 o fusnesau bach i wella eu polisiâu a'u systemau fel bod modd iddyn nhw ddarparu gwell cefnogaeth ar gyfer pobl â chyflyrau iechyd ac anableddau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio (*mesur newydd, yn rhy gynnar i'w gymharu*).

Helpu pobl i gael swyddi

Un o'r bobl a helpon ni yw J, sef mam sengl â phroblemau pryder a hyder i ddau o blant. Doedd dim llawer o brofiad gyda hi o ymgeisio am swyddi na mynd i gyfsweliadau a doedd dim gofal plant yn ei le. Cafodd J gymorth i baratoi, ymgeisio a hyfforddi ar gyfer gwaith roedd ganddi eisoes rywfaint o brofiad personol ohono. Trwy helpu J gyda chlodiant, darparu profiad gwaith a gwybodaeth am ffyrdd y byddai gwaith o fudd iddi, tyfodd hyder J a llwyddodd i gael gwaith a oedd yn cyd-fynd ag oriau ysgol ei phlant.

Darllenwch ragor am hanes J yn ein [hastudiaeth achos Cymunedau am Waith](#).

Porth i Gyflogaeth 'Ymgysylltu i Newid' i bobl ifainc ag anawsterau dysgu neu anableddau

Gan weithio gyda [Choleg y Cymoedd](#), prosiect Ymgysylltu i Newid Anabledd Dysgu Cymru ac asiantaeth gyflogi Elite, darparon ni interniaethau â chymorth i 10 o bobl ifainc yn rhan o'u cyrsiau coleg ar draws gwasanaethau'r Cyngor gan gynnwys llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a gofal cymdeithasol. Yn rhan o'u blwyddyn olaf yn y coleg, treuliodd y bobl ifainc hyd at 4 diwrnod yr wythnos ar leoliad gwaith, yn datblygu sgiliau cysylltiedig â gwaith yn eu meysydd o ddiddordeb. Dywedodd Tomos, un o'r interniaid a gafodd y cymorth yma a weithiai ym Mharc Coffa Ynysangharad ym Mhontypridd, "Rwyf wedi dysgu cymaint gan y garfan rydw i wedi bod yn gweithio gyda hi, gan ddysgu am yr holl wahanol fathau o flodau, planhigion a bywyd gwyllt. Roeddwn i'n teimlo'n rhan o'r garfan hefyd a chefais gyfle i ddefnyddio ystod o offer fel peiriannau chwythu dail er mwyn cadw'r parc yn lân ac yn daclus". Ers hynny mae Tomos wedi dechrau gwaith cyflogedig mewn swydd dros dro gyda'r gwasanaeth parciau. Mae rhagor o fanylion am brofiad rhai o'r interniaid eraill yn y ffilm fer yma. Amharodd Covid-19 ar interniaethau 2020 ond bydd lleoliadau yn ailgychwyn cyn gynted ag y bydd yn ddiogel gwneud hynny.

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi

- gweithredu'r prosiect [Aros yn Iach yn y Gwaith](#), gan gefnogi busnesau bach a chanolig eu maint i helpu pobl i aros yn y gwaith trwy ddarparu cymorth iechyd galwedigaethol. Drwy'r prosiect yma, cafodd 81 o bobl eu helpu gyda'u cyflyrau iechyd neu anableddau fel bod modd iddyn nhw ddychwelyd i'r gwaith ar ôl bod yn absennol, a chafodd 66 o bobl eu helpu trwy wneud addasiadau neu roi triniaeth i atal absenoldeb o'r gwaith. Yn ogystal â hynny, cafodd 41 o fusnesau gymorth drwy'r prosiect i roi polisiau a gweithdrefnau ar waith i helpu'u staff gyda chyflyrau iechyd ac anableddau, nawr ac yn y dyfodol.
- gweithio gyda'n holl ysgolion uwchradd i wella'r ffordd mae gwybodaeth am yrfaeod yn cael ei rhoi i'r disgyblion trwy gynllun peilot 'Gatsby' RhCT. Mae 'Gatsby' yn helpu ysgolion i gynllunio gweithgareddau sy'n cynnwys cyswllt â chyflogwyr lleol, fel y gall disgyblion weld y cysylltiad uniongyrchol rhwng yr hyn maen nhw'n ei ddysgu yn yr ysgol a gyrfaeodd posibl yn y dyfodol. Mae rhagor o fanylion yn y [ffilm fer yma](#). Parhaon ni hefyd i ddarparu manylion dros 700 o fusnesau a oedd wedi bod yn destun asesiad risg a diogelwch, gan gynnwys rhai sy'n hyderus o ran anabledd, fel bod modd i ysgolion helpu pobl ifainc i gael mynediad at ystod eang o leoliadau profiad gwaith yn hawdd ac yn ddiogel yn unol â'u diddordebau.
- gweithio gyda Choleg y Cymoedd, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i roi cyfleoedd i bobl ifainc yn ein 'rhaglen gyfranogol', gan roi cyfleoedd iddyn nhw weithio gydag artistiaid a pherfformwyr proffesiynol a dysgu oddi wrthyn nhw. Dechreuon ni hefyd ddatblygu sesiynau yn ein llyfrgelloedd a'n rhaglenni ieuencid, er enghraifft, gemau cyfrifiadur a chodio. Ar y cyd â phartneriaid creadigol, rydyn ni'n gweithio i ddatblygu strategaeth greadigol ar gyfer Pontypridd, gan gysylltu â nifer o ddatblygiadau newydd cadarnhaol gan gynnwys Canolfan Gelf y Miwni, Llys Cadwyn, Clwb y Bont ac adeilad y YMCA, er nad ydyn ni wedi gwneud cymaint o gynnydd â'r disgwyl oherwydd y llifogydd difrifol ym Mhontypridd. Yn fwy diweddar, mae ein gwaith gyda'r diwydiannau creadigol wedi cael ei effeithio'n sylweddol gan bandemig Covid-19. Ar hyn o bryd rydyn ni'n canolbwyntio ar ddatblygu gwahanol ffyrdd o weithio. Ymhlith y rhain mae sesiynau mentora, coetsio a datblygu sgiliau ynghyd â dosbarthiadau meistr ar-lein ar gyfer darpar berfformwyr, sy'n cynnwys help i ddatblygu perfformiadau rhithwir.
- parhau i gynorthwyo pobl o bob oed i wella eu sgiliau ac i gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth. Mae ein cymorth, sef Lwybr Cyflogaeth RhCT, ar gyfer pobl sydd angen help gyda sgiliau hanfodol yn ogystal â'r rheiny sy'n 'barod i weithio'. Mae'r Lwybr hefyd yn cynnwys

Help i Gadw'n Iach yn y Gwaith Roedd
A yn absennol o'i waith gyda busnes bach yn dilyn anaf yn gysylltiedig â gwaith. Er mwyn ei helpu i wella, gofynnodd ei gyflogwr iddo fynd at ein Gwasanaeth Cadw'n Iach yn y Gwaith.

Cafodd cyflwr A ei asesu gan ffisiotherapydd Cadw'n Iach yn y Gwaith a thrafodwyd sut byddai modd ei helpu i ddychwelyd i'r gwaith. Cafodd cynllun ei roi ar waith i drin y problemau roedd A yn eu hwynebu, a oedd hefyd yn cynnwys camau y gallai A eu cymryd ei hunan a fyddai'n helpu. Yn ystod yr asesiad, daeth yn amlwg bod A hefyd yn delio â phrofedigaeth deuluol agos a oedd yn effeithio ar ei hunanhyder. Er mwyn cefnogi A trwy'r cyfnod yma, cytunodd i fynychu sesiynau cwnsela.

Yn dilyn cwrs cychwynnol o sesiynau ffisiotherapi a chwnsela, nododd A ei fod mewn sefyllfa well yn gorfforol ac yn feddyliol. Llwyddodd A i ddychwelyd i'r gwaith yn raddol wrth barhau i gael triniaeth ffisiotherapi gydag addasiadau yn y gwaith i ystyried y cyflwr.

gweithio'n agos gyda chyflogwyr fel bod modd i ni baru sgiliau a diddordebau pobl â chyfleoedd sydd ar gael yn lleol. Helpon ni dros 680 o bobl i ennill cymwysterau a 635 i ddod o hyd i waith. Darparon ni brofiad gwaith, rhaglenni hyfforddiant a dysgu wrth weithio mewn amryw o wasanaethau'r Cyngor ar gyfer dros 50 o bobl ifainc. Roedd y rhain yn cynnwys prentisiaethau, rhaglenni i raddedigion, cyfleoedd hyfforddiant ar gyfer pobl sydd wedi bod mewn gofal ac interniaethau i bobl ifainc ag anawsterau dysgu neu anabledau.

Mae'r gwaith yn ein blaenoriaeth Economi yn cyfrannu at RCT a Chymru sydd

yn llewyrchus	yn gydnherth	yn iachach	yn fwy cyfartal	â chymunedau cydlynus	â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	yn gyfrifol ar lefel fyd-eang
✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Mae ein Cynllun Corfforaethol newydd, sef, '[Gwneud Gwahaniaeth](#)' a gytunwyd ym mis Mawrth 2020 yn anelu at gefnogi ffyniant RhCT drwy greu'r cyfle i bobl a busnesau i fod yn fentrus, yn entrepreneuriaidd a chyflawni eu potensial a ffynnu. Mae sut wnawn ni hyn yn 2020/21 yn cael ei nodi yn adran 12 ac yn ein [Cynllun FFYNIANT](#) 2020-21.

Pobl — Hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb yn Rhondda Cynon Taf

Yn 2016, rhoeon ni'r flaenoriaeth **POBL** yn ei lle gan ein bod ni o'r farn mai'r ffordd orau o helpu pobl i fyw bywydau hir ac iach yw eu helpu nhw i wneud dewisiadau gwybodus a chadw rheolaeth ar sut maen nhw'n byw eu bywydau a chefnogi'u cymunedau a chyfrannu atyn nhw. Dywedodd trigolion wrthon ni fod hyn yn bwysig iddyn nhw.

Yn ôl y data diweddaraf sydd ar gael, poblogaeth RhCT yw 241,264 (amcangyfrif canol blwyddyn 2019), sydd wedi cynyddu o 231,937 yn 2001. Gan fod pobl yn byw yn hirach, mae cyfran y bobl hŷn yn RhCT hefyd yn tyfu. Rydyn ni am i'n trigolion o bob oed aros cystal ag y gallan nhw cyhyd ag y gallan nhw ond mae'n anochel bydd cyflyrau sy'n gysylltiedig ag oedran ymhlith pobl hŷn yn golygu cynnydd yn yr angen am ofal iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn RhCT, rydyn ni'n gwybod bod gyda ni nifer fawr o drigolion agored i niwed o bob oed, yn ogystal â chymunedau difreintiedig. Rydyn ni am sicrhau bod gan bobl o bob oed y siawns orau o elwa o'r cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw gan gynnwys cymryd rheolaeth o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau y maen nhw'n eu gwerthfawrogi. Rydyn ni hefyd eisiau canolbwyntio ar y bobl hynny sydd â'r angen mwyaf, a sicrhau eu bod nhw'n cael y gefnogaeth gywir ar yr adeg iawn.

Rydyn ni hefyd yn gwybod bod rhaid i ni gynllunio i fodloni disgwyliadau uwch gan ein trigolion gyda llai o arian felly rhaid i ni wneud pethau'n wahanol.

Dyma'r camau rydyn ni wedi'u rhoi yn eu lle i gyflawni'r Flaenoriaeth yma

- **Sicrhau bod gwasanaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael eu personoli a'u hintegreiddio, gyda rhagor o bobl yn cael eu cynorthwyo i fyw'n hirach yn eu cartrefi eu hunain**
- **Rhoi dechrau gwych mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifainc**
- **Ailgynllunio gwasanaethau lleol fel eu bod nhw'n integredig ac yn effeithlon**

Y data diweddaraf

Poblogaeth — Amcangyfrif diweddaraf 241,264, cynnydd o 0.5% ar 2018 [Ffynhonnell: Info Base Cymru](#)

0-15 oed 19%	16-64 oed 62%	o 65 oed a hŷn 19%
--------------	---------------	--------------------

Cymuned a Chydraddoldeb

- Mae 24% o'r plant yn RhCT yn byw mewn tloidi. Serch hynny, pan fydd cost tai yn cael ei didynnu o incwm y cartref, mae'r ffigur yma'n cynyddu i 32%. [Ffynhonnell: Rhwydwaith Dileu Tloidi Plant Cymru](#).
- Fel roedd y sefyllfa ar 31 Mawrth 2020, roedd
 - 717 o blant dan ofal y Cyngor
 - 597 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant sydd mewn perygl sylweddol o niwed.

Iechyd Corfforol

- Y disgwyliad oes ar gyfartaledd adeg geni yn RhCT oedd 77.53 i ddynion ac 81.1 i fenywod (2016-2018).
- Y disgwyliad oes iach ar gyfartaledd adeg geni yn RhCT yw 56.5 i ddynion a 60.2 i fenywod (2016-2018).
- Ar gyfartaledd, mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd llai difreintiedig yn RhCT yn byw yn hirach na'r rhai o ardaloedd mwy difreintiedig. Gall dynion ddisgwyl byw 6.7 mlynedd yn hirach, a menywod 4.3 blynedd. Serch hynny, dydy'r gwahaniaeth yma sy'n cael ei ddisgrifio fel y 'bwlch anghydraddoldeb' ddim mor fawr ag y mae e mewn rhai rhannau eraill o Gymru.
- Nododd 45% o oedolion yn RhCT o leiaf un cyflwr iechyd hirsefydlog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Nifer trigolion RhCT sy'n nodi bod eu hiechyd
 - "yn wael neu'n wael iawn" yw'r nifer fwyaf yng Nghymru ond am un Awdurdod arall
 - "yn dda neu'n dda iawn" yw'r nifer leiaf yng Nghymru ond am ddau Awdurdod arall.
- Cymerodd 26% o drigolion RhCT ran mewn gweithgareddau chwaraeon 3 gwaith neu'n amlach na hynny yr wythnos.¹
- Dangosodd 12% o oedolion yn RhCT lai na 2 ymddygiad ffordd iach o fyw.
- Dynion, oedolion canol oed, a'r rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig oedd fwyaf tebygol o ddangos llai na dau o'r ymddygiadau ffordd iach o fyw.

Iechyd Meddwl a Lles

- Mae 13% o bobl yn RhCT yn unig. Ffynhonnell: [Ffynhonnell: StatsCymru](#)
- 'Sgoriau' RhCT yn [Lleoedd Ffyniannus](#) Mynegai Cymru sy'n mesur agweddau ar les, hynny yw
 - 4.47 ar gyfer Ynysu Cymdeithasol, yr un peth ag yn 2018.
 - 3.58 ar gyfer Iechyd Meddwl ac Iechyd Corfforol, ychydig yn uwch na 3.36 yn 2018. *10 yw'r gorau posibl a 0 yw'r gwaethaf.*¹
- Yng Nghwm Taf mae'r gyfradd uchaf ond un am farwolaethau oherwydd alcohol yn benodol yng Nghymru 2016-2018. [Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru](#).

Yn 2019, nodon ni y bydden ni'n parhau â'n gwaith i hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb — Ar y cyfan, parhaon ni i wneud cynnydd da fel Cyngor ac yn rhan o bartneriaethau ehangach gan gynnwys [Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf](#) a'r [Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus](#). Roedd y cynnydd yn rhai o'n mesurau allweddol yn arafach na'r disgwyl am nifer o resymau, ac roedd rhai ohonyn nhw y tu hwnt i'n rheolaeth. Er enghraifft, mae gyda ni ormod o blant o hyd sy'n agored i niwed sylweddol neu o dan ofal y Cyngor. Mae angen arnon ni wrando ar sylwadau plant ynglŷn â'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu ar eu cyfer. Mae angen arnon ni wneud rhagor i gynorthwyo pobl ifainc sy'n gadael gofal i gael mynediad at addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ac annog rhagor o bobl i ddefnyddio'n canolfannau hamdden a'n llyfrgelloedd er eu hiechyd a'u lles. Serch hynny, rydyn ni'n dal i fynd ati i ganolbwyntio ar helpu'n trigolion o bob oed a chefnidir i aros yn ddiogel ac yn iach. Cafodd y ffocws yma ei herio i'r eithaf tuag at ddiwedd blwyddyn adrodd 2019, pan oedd angen i ni flaenoriaethu ein gwaith oherwydd effaith sylweddol a digynsail llifogydd yn yr ardal leol yn deillio o Stormydd Ciara a Dennis, ac yn sgil cyflwyno'r cyfyngiadau symud oherwydd Covid-19 hefyd. Ar yr adeg yma, aildrefnon ni lawer o'n cynllunio a chanolbwyntio ar weithio gyda phartneriaid i ddarparu cymorth uniongyrchol a brys ar gyfer y bobl a'r cymunedau hynny â'r angen mwyaf. Fydd ein gwaith ddim yn cael ei adlewyrchu'n llawn yn y cynnydd rydyn ni wedi'i nodi ar gyfer 2019, ond bydd ei effaith yn bwysicach yn 2020/21.

Ochr yn ochr â'n gwaith i gyflawni ein blaenoriaeth **POBL** rydyn ni'n adeiladu'n barhaus ar ein profiad o wneud pethau'n wahanol, gan ystyried yr hyn sydd wedi gweithio a'r hyn y mae angen i ni ei wneud yn well. Rydyn ni hefyd yn cynyddu ein dealltwriaeth o effaith y newidiadau rydyn ni'n eu rhoi ar waith ar gyfer pobl a chymunedau Rhondda Cynon Taf. Mae ein gwaith parhaus yn cynnwys ateb gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac rydyn ni'n parhau i ddysgu a deall rhagor am sut rydyn ni'n ymgorffori gofynion y Deddfau yma i barhau i'n helpu i lunio ein cynlluniau ar gyfer 2020/21.

Mae ein gwaith o fewn blaenoriaeth **POBL** yn cael ei oruchwylio gan y [Cabinet](#), [Pwyllgorau Craffu](#) perthnasol a, lle bo hynny'n briodol, y [Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol](#) a'r [Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus](#). Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae tri maes gwaith yn y flaenoriaeth yma wedi bod yn destun adolygiad neu arolygiad allanol [gan Arolygiaeth Gofal Cymru](#):

- 'Arolygu'r Gwasanaethau i Blant, gan ganolbwyntio ar gefnogaeth i Blant Anabl' ym mis Rhagfyr 2019
- 'Gweithredu â ffocws mewn perthynas â chymorth i Gynhalwyr' ym mis Mawrth 2020
- 'Gweithredu â ffocws mewn perthynas â Phobl Ifainc sy'n Gadael Gofal' ym mis Mawrth 2020

Mae canfyddiadau'r gwaith yma wedi bod ar gael i'r cyhoedd yn y llythyr Adolygiad Blynyddol a gyhoeddwyd i'r Cyngor gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis [Awst 2020](#). Mae swyddogion yn ystyried y canfyddiadau, lle mae'r Cyngor yn gwneud yn dda a hefyd lle mae angen i ni wella. Bydd yr ymatebion yn cael eu hystyried gan Gynghorwyr yn ystod y misoedd nesaf.

Dywedon ni y bydden ni'n personoli ac yn integreiddio gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gyda rhagor o bobl yn cael eu cefnogi i fyw'n hirach yn eu cartrefi eu hunain

Mesurau a nodon ni y llynedd

- Roedd llai o bobl yn cael eu derbyn i ofal preswyl neu ofal nyrsio. *Mae hyn yn well na'r llynedd gyda 385 o bobl yn cael eu derbyn i ofal preswyl neu ofal nyrsio o'i gymharu â 420 yn 2018/19.*
- Roedd rhagor o oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi angen llai o gymorth 6 mis yn ddiweddarach. *Mae hyn yn well na'r llynedd (86.67%) o'i gymharu â 85.43% yn 2018/19.*
- Dychwelodd llai o bobl fesul 1,000 o'r boblogaeth adref o'r ysbyty yn gyflymach. *Mae hyn yn waeth na'r llynedd (4.52) o'i gymharu â 3.43 yn 2018/19. Mae hyn oherwydd bod y galw am ofal yn y cartref wedi cynyddu wrth i ni gefnogi rhagor o bobl i fyw gartref yn hytrach na mewn gofal preswyl.*
- Defnyddiodd rhagor o bobl daliadau uniongyrchol i reoli eu trefniadau gofal eu hunain a dewis pwy oedd yn darparu'r gofal a phryd. *Mae hyn yn well na'r llynedd (16.8%) o'i gymharu â 16.1% yn 2018/19.*
- Roedd llai o ymweliadau â'n cyfleusterau chwaraeon a hamdden ar gyfer ymarfer corff. *Mae hyn yn waeth na'r llynedd (7,948 fesul 1,000 o'r boblogaeth) o'i gymharu ag 8,302 yn 2018/19. Mae hyn oherwydd effaith Storm Dennis a'r gostyngiad mewn ymwelwyr, ac yn ddiweddarach, oherwydd cau cyfleusterau hamdden yn sgil pandemig byd-eang Covid-19.*

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi

- adeiladu ar lwyddiant ein gwasanaeth [Aros yn Iach Gartref](#) gyda cham 2, a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2020, yn dod â gofal ychwanegol i'n trigolion bregus. Yn fwy diweddar, effeithiodd Covid-19 ar y galw am y gwasanaeth a'r gallu i'w ddarparu ac oherwydd hynny, ataliwyd y gwasanaeth dros dro. Bydd y gwasanaeth yn ailgychwyn yn 2020/21
- cyflwyno gwasanaeth ymateb cyflym newydd 24 awr i bobl sy'n defnyddio cortyn gwddf RhCT gyda chymorth cyllid Llywodraeth Cymru. Gall Ymatebwyr Symudol helpu mewn sefyllfaoedd lle, er enghraifft, mae pobl yn cwmpo ac yn methu â chodi er nad ydyn nhw wedi cael eu hanafu, neu, efallai bod argyfwng o ran gofal personol neu maen nhw angen gwiriadau lles. Mae modd helpu defnyddwyr y gwasanaeth yn fwy cyflym a diogel heb alwad frys am ambiwlans, ac mae modd osgoi mynd i'r ysbyty heb angen. Mae'r gwasanaeth yn darparu tawelwch meddwl ar gyfer ei ddefnyddwyr a'u teuluoedd a ffrindiau.

Helpu pobl i gael yr help sydd ei angen arny'n nhw er mwyn aros yn annibynnol

Roedd Mrs A, menyw 99 oed, yn dioddef o broblemau'n ymwneud â'r bledren a oedd yn golygu fod angen iddi fynd i'r tŷ bach yn fwy aml nag arfer, gan gynnwys yn ystod y nos. Oherwydd ei chyflwr a'i diffyg cwsg, roedd Mrs A yn teimlo'n flinedig ac yn wan, ac ar un achlysur, cwmpodd yn ystod y nos. Cafodd Mrs A gymorth gan ein gwasanaeth 'Gwifren Achub Bywyd' a'i mab a'i helpodd hi yn ôl i'w gwely. Cafodd hi feddyginiaeth gan ei meddyg a'i hatgyfeirio i'r garfan Un Man Cyswllt am gymorth, oherwydd nes bod Mrs A wedi gwella'n llwyr, byddai hi mewn perygl o gael anaf gwaeth pe bai hi'n cwmpo eto. Trwy ein gwasanaeth Gofal Canolraddol ac Adsefydlu, roedd modd i ni ddarparu gofal ar gyfer Mrs A. yn un o'n cartrefi gofal preswyl am wythnos nes iddi wella o'i phroblemau iechyd. Ar ôl hyn, roedd modd iddi hi ddychwelyd i'w chartref gan dderbyn cymorth i'w hadsefydlu'n llwyr.

- parhau i adeiladu cyfleusterau Gofal Ychwanegol gyda'n partneriaid, Linc Cymru. Cafodd ein hail gyfleuster, sef [Gofal Ychwanegol Maesyffynnon, ei agor yn Aberaman](#), gyda'r preswlydd cyntaf yn [symud i mewn ar 5 Mai](#). Mae'r gwaith adeiladu yng nghyfleuster Gofal Ychwanegol Cwrt yr Orsaf yn yr hen Lys Ynadon ym Mhontypridd, yn mynd rhagddo, er gwaethaf yr heriau diweddar y mae Covid-19 wedi'u creu. Serch hynny, mae'r cynnydd ar y tri chyfleuster ar safleoedd yn Nhreorci, Aberpennar a'r Porth wedi'i arafu gan effaith y pandemig.
- parhau i ddatblygu Cynlluniau Tai â Chymorth i helpu pobl ag anableddau dysgu i fyw'n fwy annibynnol yn eu cymunedau. Cafodd Llys Penllew, Aberdâr, ei agor ym mis Ionawr 2020 ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar gyfer datblygiad newydd yn Nhreorci a ddylai gael ei gwblhau erbyn tymor yr hydref 2020.
- parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws Cwm Taf Morgannwg i ddod o hyd i ffyrdd anfeddygol o helpu i gadw ein trigolion yn hapusach ac yn iachach. Mae hyn yn cael ei alw'n 'Rhagnodi Cymdeithasol' a gall gynnwys gweithgareddau megis gwirfoddoli, gweithgareddau celfyddydol, dysgu mewn grŵp, garddio, cyfeillio, coginio, cyngor ar fwyta'n iach ac ystod o chwaraeon. Er bod y pandemig wedi arafu'r cynnydd, bydd yn ailgychwyn cyn gynted ag y bydd yn ddiogel gwneud hynny. Bydd yr hyn rydyn ni wedi'i ddysgu o helpu i gefnogi pobl fregus a phobl sy'n diogelu eu hunain trwy warchod yn ein cymunedau a'r rhwydweithiau cymuned cadarn sydd ar waith, yn ein helpu ni yn y gwaith yma.
- parhau i fuddsoddi yn ein cyfleusterau Hamdden gan gynnwys y rheiny sydd yn natblygiad newydd Llys Cadwyn ym Mhontypridd, caeau awyr agored a thrac athletau Siôr V yn Nhonypanyd i annog trigolion i gymryd rhan mewn ymarfer corff, a thrwy hynny, cyfrannu at eu hiechyd a'u lles. Rydyn ni hefyd wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau partner i ddarparu gweithgareddau sydd wedi'u hanelu at grwpiau penodol, er enghraifft, prosiect 'Super-Agers' a gweithgareddau ar gyfer menywod beichiog a mamau newydd, sef rhaglen ['Camau i Famau'](#). Yn fwy diweddar, mae rhai cyfleusterau hamdden wedi gallu ailagor ar ôl cau'n llwyr yn sgil Covid-19.

Dywedon ni y bydd plant a phobl ifainc Rhondda Cynon Taf yn cael dechreuad gwych mewn bywyd

Mesurau a nodon ni y llynedd

- roedd rhagor o blant dan ofal y Cyngor. *717 o blant, ond y nifer yn 2018/19 oedd 674. Mae hyn yn waeth na'r disgwyl oherwydd bod angen ein gofal ar ragor o fabanod. Byddwn ni'n ffocysu ein cymorth ar fenywod sy'n fwy agored i niwed yn ystod eu beichiogrwydd.*
- roedd rhagor o blant angen ymyrraeth gan y gwasanaethau statudol. *41.62% o'i chymharu â 30.6% yn 2018/19. Mae hyn yn waeth. Serch hynny, o'r mwyafrif o blant (69%), doedd dim angen gofal a chymorth parhaus arnyn nhw neu cawson nhw (a'u teuluoedd) eu cyfeirio at y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth*

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi

- atgyfnerthu'r gefnogaeth rydyn ni'n ei darparu ar gyfer rhieni maeth, e.e., trwy nodi Rhieni Maeth 'Arloesol' sy'n gallu rhoi cymorth a chyngor i gymheiriaid a/neu hyfforddiant i rieni maeth newydd. Rydyn ni hefyd wedi darparu cyfleoedd i Rieni Maeth ymgymryd â hyfforddiant mwy dwys sy'n golygu eu bod nhw'n gweithio ochr yn ochr ag ysgolion a phobl ifainc i ennill rhagor o brofiad a gwell dealltwriaeth o ofalu a gweithio i wella canlyniadau i'r plant yn eu gofal. Rydyn ni hefyd wedi lansio [Maethu Cwm Taf](#), sef gwasanaeth rhanbarthol sy'n recriwtio rhieni maeth, er mwyn i ni wella'r broses recriwtio a chynyddu nifer y lleoliadau lleol sydd gyda ni yng Nghwm Taf.
- parhau i wella argaeledd gwybodaeth, cyngor a chymorth fel y gall teuluoedd ddod o hyd i'r help sydd ei angen arnyn nhw yn gyflym, er enghraifft, drwy wneud y canlynol
 - gweithio'n agosach gyda grwpiau cymuned fel y gallan nhw ddefnyddio eu gwybodaeth leol i gyrraedd y teuluoedd a all elwa fwyaf o'n help,
 - sefydlu gwasanaethau 'galw heibio' yn y cymunedau a
 - thrwy lwyfannau digidol a chyfryngau cymdeithasol, e.e. ar gyfer ein [Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth](#), ein [Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd](#) a [wicid.tv](#). Yn fwy diweddar mae'r datblygiadau yma wedi cefnogi cynnig cyngor a chymorth gwybodaeth cynhwysfawr ar-lein sydd wedi bod yn allweddol wrth alluogi'r gwasanaeth i barhau i ddarparu cefnogaeth hanfodol ar gyfer plant a phobl ifainc yn ystod pandemig byd-eang Covid-19.
- yn dilyn trafodaethau gyda defnyddwyr gwasanaeth a staff a thrwy weithio gyda phartneriaid tai rydyn ni wedi sefydlu gwasanaeth Llety Dros Dro newydd. Nod y gwasanaeth yw darparu opsiynau tai a chefnogaeth briodol ar gyfer grwpiau agored i niwed, atal digartrefedd a lleihau'r defnydd o lety dros dro. Serch hynny, yn fwy diweddar, bu cynnydd mewn digartrefedd a nifer y bobl sy'n gymwys i gael llety dros dro o ganlyniad i Storm Dennis a phandemig Covid-19. Yn 2020/21, byddwn ni'n gweithio i weithredu Cynllun Adfer ar gyfer Digartrefedd a fydd yn defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r galw cynyddol rydyn ni wedi'i weld yn ystod y cyfnod o ansicrwydd mawr yma.

Helpu plant sy'n agored i niwed i ddod o hyd i'w llais

Cafodd G ei lleoli gyda rhieni maeth yn dilyn honiadau a wnaeth hi yn erbyn ei thad. Bryd hynny, derbyniodd G hefyd ein cynnig o gymorth 'eirioli' gweithredol. Mae hyn yn golygu bod unigolyn annibynnol, sydd ddim yn cael ei gyflogi gan y Cyngor, wedi ei helpu i ddeall yr hyn yr oedd y Cyngor yn ei wneud i ofalu amdani, a pham. Roedd cael y person annibynnol yma'n annog G i siarad yn fwy rhydd, yn ei helpu i ddeall bod ei barn yn bwysig pan wnaed penderfyniadau am ei gofal a bod yn hyderus ynglŷn â sut roedd hi'n teimlo a dweud beth roedd hi ei eisiau o ran ei gofal.

Dywedon ni y bydden ni'n ailddylunio Gwasanaethau Lleol i'n trigolion fel eu bod nhw'n integredig ac yn effeithlon

Mesurau a nodon ni y llynedd

- Roedd mwyafrif y cleientiaid y buon ni'n gweithio gyda nhw ar draws ardaloedd Cwm Taf Morgannwg yn lleihau, yn ymatal neu'n cynnal eu camddefnydd o sylweddau o ddechrau eu rhaglen i'w hadolygiad diweddaraf. *87.45% (Bwrdd Cynllunio Ardal Cwm Taf Morgannwg)*

- Mae ein hadolygiad o drefniadau ar gyfer pobl sy'n wynebu Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi'i ehangu i gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr yn rhan o'r newid i ardal y Bwrdd Iechyd, Cwm Taf Morgannwg. Byddwn ni'n parhau â'r gwaith yma yn 2020/21.
- Nododd mwy o deuluoedd eu bod nhw'n teimlo y gallan nhw ddatrys problemau neu ymdopi â heriau'n well yn dilyn cefnogaeth gynnar. *Mae hyn yn well na'r llynedd gyda 1,004 o deuluoedd o'u cymharu â 761 yn 2018/19*
- Cynyddodd 95.1% o deuluoedd eu cydnerthedd yn dilyn ymyrraeth gyflawn gyda'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth (95.4% yn 2018/19) — *Er bod y ganran yma ychydig yn is na'r llynedd, roedd nifer y teuluoedd a oedd yn cael eu cefnogi bron i 250 yn fwy na'r llynedd.*

Ymhlith pethau eraill rydyn ni wedi...

- newid sut mae cymorth Blynyddoedd Cynnar yn cael ei ddarparu trwy sicrhau ei fod ar gael i deuluoedd â phlant hyd at saith oed trwy ein Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth. Mae hyn yn golygu bod cymorth arbenigol ar gyfer rhianta yn ogystal â chymorth cynnar ar gyfer datblygiad iaith ar gael i bob teulu yn RhCT sydd ei angen. Yn fwy diweddar, rydyn ni wedi cael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru i wneud newidiadau i wasanaeth yr ymwelwyr iechyd, trwy ddatblygu 'Rhaglen Ymweliadau Iechyd i'r Teulu' fel bod rhagor o gefnogaeth ar gael i bob teulu ni waeth ble yn RhCT maen nhw'n byw. Rydyn ni wedi cytuno hefyd i dreialu newidiadau i'n cynnig gofal plant fel bod cymorth ar gael i bob teulu sydd ei angen ni waeth ble yn y Fwrdeistref Sirol maen nhw'n byw.
- cyflwyno gwasanaeth '[Barod](#)' sy'n ymdrin â chamddefnyddio sylweddau. Mae'r gwasanaeth yma ar gyfer trigolion Merthyr Tudful yn ogystal â Rhondda Cynon Taf. Mae Barod yn darparu nifer o wasanaethau gwahanol ar gyfer oedolion a phobl ifainc sy'n camddefnyddio sylweddau ac yn cynnig cefnogaeth i ffrindiau a theulu pob defnyddiwr sylweddau. Mae'r gwasanaeth newydd yn sicrhau bod pawb yn cael yr un cymorth i atal problemau rhag gwaethygu ni waeth ble yng Nghwm Taf mae'n byw.
- nodi ble yn RhCT a Merthyr Tudful mae gwasanaethau ar waith ar gyfer goroeswyr cam-drin domestig a thrais rhywiol. Roedden ni wedi bwriadu defnyddio'r wybodaeth yma i roi gwasanaethau ar waith sydd o'r un safon ar draws y ddwy ardal. Dydyn ni ddim wedi gwneud cymaint o gynnydd â roedden ni wedi'i gynllunio ac mae ein gwaith wedi cael ei effeithio gan y newidiadau yn y Bwrdd Iechyd Lleol sydd erbyn hyn yn cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr. Rydyn ni'n parhau â'n gwaith i newid y ffordd rydyn ni'n rhoi cymorth i oroeswyr cam-drin domestig a thrais rhywiol a bydd hyn yn cynnwys pobl yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr hefyd.
- gweithio'n agosach gyda Heddlu De Cymru i newid y ffordd y mae pobl agored i niwed yn cael eu cynorthwyo fel eu bod nhw'n cael cyfle i wneud dewisiadau bywyd gwell a thorri cylchoedd cenediadol o drosedd ac adfyd sy'n effeithio ar y plant yn eu cartrefi. Bellach mae gyda ni

Bob dydd, mae llawer o'n teuluoedd yn ymdopi â llawer o wahanol heriau

Roedd rhaid i un o'n teuluoedd, a oedd eisoes yn ymdopi â materion iechyd meddwl ac ysgariad, ddelio â sefyllfa lle roedd rhywun yn ceisio magu perthynas amhriodol ar-lein gydag un o'u plant oedd yn golygu bod y plentyn mewn perygl o niwed. Er mwyn helpu'r teulu i ymdopi gyda'i gilydd, cawson nhw help i ailadeiladu perthnasoedd teuluol ac ymddiriedaeth, cydnabod meithrin perthynas amhriodol ac aros yn ddiogel yn y gymuned ac ar-lein ac i ddeall perthynas iach. Mae modd gweld rhagor ynglŷn â sut y cafodd y teulu eu cynorthwyo gan y Cyngor a'i bartneriaid i ymdopi â'u heriau drwy ddarllen am y [Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd](#).

Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu sy'n gweithio'n benodol gyda'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth sy'n gallu ychwanegu mwy at y gefnogaeth sy'n cael ei darparu ar gyfer teuluoedd, er enghraifft, cadw'n ddiogel ar-lein, magu perthynas amhriodol ar-lein, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chanlyniadau trosedd.

Mae'r gwaith yn ein blaenoriaeth Pobl yn cyfrannu at RCT a Chymru sydd

yn llewyrchus	yn gydnerth	yn iachach	yn fwy cyfartal	â chymunedau cydlynus	â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	yn gyfrifol ar lefel fyd-eang
✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Mae ein Cynllun Corfforaethol newydd, sef, '[Gwneud Gwahaniaeth](#)' a gytunwyd ym mis Mawrth 2020. Mae sut wnawn ni hyn yn 2020/21 yn cael ei nodi yn adran 12 ac yn ein [Cynllun POBL](#) 2020-21.

LLEOEDD — Creu cymdogaethau mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw

Yn 2016 rhoeon ni'r flaenoriaeth **LLEOEDD** yn ei lle oherwydd ein bod ni o'r farn bod rhaid i'r Cyngor edrych yn gadarnhaol i'r dyfodol drwy dwf ac adfywio seilwaith y Fwrdeistref Sirol, er gwaethaf caledi'r sector cyhoeddus. Mae miliynau o bunnoedd wedi cael eu buddsoddi mewn ysgolion, tai newydd, ein prif drefi a'r rhwydweithiau trafndiaeth a byddwn ni'n parhau i fuddsoddi yn y rhain. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les Economaidd, Cymdeithasol, Amgylcheddol a Diwylliannol y trigolion a'r cymunedau, gan helpu rhagor o drigolion a theuluoedd i ddod yn fwy annibynnol. Dywedodd trigolion wrthon ni fod hyn yn bwysig iddyn nhw a bod llawer i'w fwynhau a'i ddathlu am y Fwrdeistref Sirol.

Roedden ni am helpu trigolion RhCT a'n hymwelwyr i fwrw ymlaen â'u bywydau trwy gynnal a chadw'r amgylchedd ar gyfer Bwrdeistref Sirol lewyrchus lle gallan nhw symud o gwmpas yn effeithlon ac yn ddiogel p'un a ydyn nhw'n cymudo i'r gwaith neu'n mwynhau tirwedd gyfoethog ac amrywiol RhCT i aros yn egniol ac yn iach.

Rydyn ni'n gwybod bod gan ein trigolion falchder yn eu cymunedau ac rydyn ni o'r farn bod rhoi dewis a phŵer i bobl leol yn arwain at well canlyniadau a sicrhau gwell gwerth. Roedden ni eisiau helpu cymunedau i wneud rhagor eu hunain a rhoi rhagor o reolaeth iddyn nhw dros wasanaethau lleol megis llyfrgelloedd a chyfleusterau diwylliannol a chymunedol eraill.

Serch hynny, roedden ni hefyd yn gwybod y byddai'n anghywir gwario mwy nag y gallwn ni ei fforddio, a throsglwyddo / neu drosglwyddo problemau ariannol i genedlaethau'r dyfodol. Roedd hyn yn golygu bod rhaid i ni, felly, wneud penderfyniadau anodd a chanolbwyntio ar ein blaenoriaethau a rheoli ein cyllidebau.

Dyma'r camau a gafodd eu rhoi yn eu lle i gyflawni'r Flaenoriaeth yma

- **Bydd Rhondda Cynon Taf ymhlith y lleoedd mwyaf diogel yng Nghymru, gyda lefelau uchel o gydlyniant cymunedol a thrigolion sy'n teimlo'n ddiogel**
- **Bydd trigolion yn parhau i werthfawrogi parciau a mannau gwyrdd Rhondda Cynon Taf**
- **Bydd cymunedau ymgysylltiedig a chydnerth yn Rhondda Cynon Taf**
- **Bydd amgylchedd lleol Rhondda Cynon Taf yn lân ac yn ddeniadol, gyda ffyrdd a phalmentydd sy'n cael eu cynnal yn dda, traffig sy'n llifo, rhagor o ailgylchu a llai o wastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi**

Y data diweddaraf

Tai

- Mae 104,865 o aelwydydd yn RhCT. Mae hyn yn gynydd o 0.8% ers 2017 a 6.5% dros y 10 mlynedd diwethaf. [Ffynhonnell: StatsCymru](#)
- Daethpwyd â 172 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd yn 2019/20. Roedd hyn 19% yn llai na'r flwyddyn flaenorol.

Cludiant

- Teithiwyd 1,436 miliwn o filltiroedd mewn cerbydau ledled RhCT yn 2019. Dyma'r cyfanswm uchaf ond un yng Nghymru ac mae'n gynydd o 3% ar 2015. [Ffynhonnell: Gov.uk](#). Teithiwyd y mwyafrif (82%) mewn car. [Ffynhonnell: Gov.uk](#).
- Roedd tua 33% o drigolion RhCT yn cerdded am dros 10 munud bob dydd. Dyma oedd y canran uchaf ond un yng Nghymru. Roedd 4% o drigolion yn beicio fwy nag unwaith y mis. Mae'r canran ymhlith y 3 isaf yng Nghymru. [Ffynhonnell: Gov.uk](#).
- Roedd 665 o gerbydau trydan batri, cerbydau hybrid sy'n cael eu plygio i mewn, a cherbydau trydan sydd â chyrraedd estynedig wedi'u cofrestru yn RhCT. Ar hyn o bryd dyma'r nifer uchaf ond dau ymhlith rhanbarthau Cymru. [Ffynhonnell: Yr Adran Trafnidiaeth](#)

Ynni a'r Amgylchedd

- Mae'r amcangyfrifon diweddaraf (2018) yn dangos i 1,064.8 ciloton o garbon deuocsid (CO₂), y prif nwy sy'n achosi'r effaith tŷ gwydr, gael ei ollwng ar draws RhCT. Mae hyn yn cyfateb i 4.4 tunnell o CO₂ fesul preswlydd neu 2.5 ciloton y cilomedr². [Ffynhonnell: Gov.uk](#)
- Cynhyrchodd y Cyngor 570,535 Mw/h o drydan trwy dechnolegau carbon isel neu adnewyddadwy, [Ffynhonnell: StatsCymru](#)
- Mae hyn tua digon o ynni ar gyfer 65 cartref am flwyddyn. [Ffynhonnell: Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan](#)
- Ystyriwyd bod 9,270 eiddo yn RhCT yn y categori 'risg uchel' o ran llifogydd arwyneb neu afon. Mae 4,330 eiddo arall yn y categori 'risg ganolig'. [Ffynhonnell: StatsCymru](#)
- Mae RhCT yn un o bedair¹ ardal ddiffiniedig lle mae perygl o lifogydd yng Nghymru. Mae 11.3% o boblogaeth RhCT mewn perygl o ganlyniad i lifogydd dŵr wyneb oherwydd gormod o ddŵr glaw.
- Mae 11 o barciau a mannau agored yn Rhondda Cynon Taf wedi cael gwobr Baner Werdd.

Gwastraff a Hylendid

- Rhoddwyd 77 Hysbysiad Cosb Benodedig am adael baw ci.
- Cofnodwyd 2,945 digwyddiad o dipio anghyfreithlon ar hyd a lled RhCT. Mae'r ffigur yma wedi parhau i leihau ers 2016/17.
- Mae gwastraff RhCT nad oes modd ei ailgylchu neu ei aildefnyddio yn cyfateb i 0.2kg i bob un o drigolion RhCT.
- Fe ailgylchon ni 88,288 tunnell o wastraff ac anfon 6,239 tunnell o wastraff i safle tirlenwi yn 2019/20.

¹ Fel y'i diffiniwyd gan Asesiad Rhagarweiniol Risg Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Rhagfyr 2018

Yn 2019, dywedon ni y bydden ni'n parhau â'n gwaith i 'Greu cymdogaethau y mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw'. Ar y cyfan, roedden ni'n parhau i wneud cynnydd da fel Cyngor ac yn rhan o bartneriaethau ehangach ac rydyn ni wedi rhagori ar ein disgwyliadau mewn rhai meysydd, e.e. ailgylchu. Serch hynny, tuag at ddiwedd blwyddyn adrodd 2019, effeithiwyd ar ein cynnydd gan effaith llifogydd sylweddol a digynsail yn yr ardal leol yn deillio o Stormydd Ciara a Dennis, ac yn sgil cyflwyno'r cyfyngiadau symud oherwydd Covid-19. Ar yr adeg yma, fe aethon ni ati i aildrefnu llawer o'n cynlluniau a chanolbwyntio ar gefnogi cymunedau. Fydd y gwaith yma ddim yn cael ei adlewyrchu'n llawn yn ein cynnydd yn 2019 ond bydd ei effaith yn fwy arwyddocaol yn ein gwaith yn 2020/21.

O ran ein gwaith i gyflawni ein blaenoriaeth LLEOEDD rydyn ni'n adeiladu'n barhaus ar ein profiad o wneud pethau'n wahanol, gan ystyried yr hyn sydd wedi gweithio a'r hyn y mae angen i ni ei wneud yn well. Rydyn ni hefyd yn cynyddu ein dealltwriaeth o effaith y newidiadau rydyn ni'n eu rhoi ar waith ar gyfer pobl a chymunedau Rhondda Cynon Taf a rhanbarth ehangach Cwm Taf. Bu hyn yn destun profi ac herio mwy nag erioed o'r blaen yn ystod 2020.

Mae ein gwaith o fewn blaenoriaeth LLEOEDD yn cael ei oruchwylio gan y [Cabinet](#), [Pwyllgorau Craffu](#) perthnasol a, lle bo hynny'n briodol, [Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd](#) a [Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf](#).

Mae modd gweld rhagor o fanylion ynglŷn â'n cynnydd o'i gymharu â'r hyn roedden ni'n ceisio'i gyflawni yn 2019/20 yn ein [Gwerthusiad Cyflawniad - LLE](#).

Dywedon ni y byddwn ni'n helpu i gefnogi cymunedau ymgysylltiedig a chydnerth yn Rhondda Cynon Taf

Mesurau a nodon ni y llynedd

- Llwyddom ni i atal 74% o aelwydydd rhag dod yn ddigartref. Mae hyn yn well na 71% y llynedd.
- Does dim modd i ni roi gwybodaeth am *fodlonrwydd trigolion gyda RhCT fel lle i fyw* oherwydd doedd dim modd cynnal yr arolwg eleni.

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi:

- gweithio gyda chymunedau, partneriaid preifat, cyhoeddus a thrydydd sector yn ein Canolfannau Cymunedol newydd yng [Nghanolfan Pennar](#), Aberpennar a [Hwb Glynrhedynog](#) yn y Rhondda Fach. Mae'r cynnydd ym Mhlaza'r Porth wedi'i arafu gan effaith Covid-19. Yn fwy diweddar mae'r Cyngor wedi addasu ei ddefnydd o'i holl Ganolfannau Cymunedol i ddarparu canolbwynt i'r hyn a roddodd gymorth sylweddol i'n preswylwyr mwyaf anghenus yn ystod pandemig Covid-19.
- gweithio gyda [Shelter Cymru](#) a [Llamau](#) i ddarparu llety a chymorth a chyngor addas i bobl sy'n wynebu digartrefedd i'w helpu i gynnal tenantiaethau dros y tymor hir. Rydyn ni hefyd wedi gweithio gyda landlordiaid preifat i wirio bod tai yn RhCT yn cwrdd â'r safonau gofynnol. Mae hyn wedi cynnwys dod ag eiddo gwag presennol yn ôl i ddefnydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Mae manylion ynglŷn â'r ffordd rydyn ni'n cefnogi pobl ddigartref yn y [gwerthusiad ECONOMI](#).
- parhau i greu a datblygu cyfleoedd i bobl gymryd rhan yn y celfyddydau. Dangoswyd bod mynediad i'r celfyddydau, llyfrgelloedd a dysgu yn cael effeithiau cadarnhaol ar les pobl a

chymunedau. Yn fwy diweddar mae Covid-19 wedi effeithio'n sylweddol ar ein gwaith drwy orfodi i ni gau ein theatrau, achlysuron cymunedol ac ati. Serch hynny, rydyn ni'n cynyddu ein cynnig digidol o sioeau, yn cyflwyno rhaglenni allgymorth ac yn cynllunio ar gyfer agor theatrau yn raddol ac yn ddiogel yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

- Agor canolfan addysg ym Mryn Pica, i ddangos i bobl o bob oed bwysigrwydd lleihau, aildddefnyddio ac ailgylchu gwastraff. Mae hyn yn cyd fynd â'r [Parc Eco](#) arfaethedig a fydd yn darparu unedau diwydiannol ysgafn yn benodol ar gyfer sefydliadau sy'n arbenigo mewn 'ailgylchu dolen gaeedig'. Mae hyn yn golygu bod modd ailgylchu'r holl ddeunyddiau i gael eu haildddefnyddio'n syth gan ddefnyddio'r gwres a'r pŵer adnewyddadwy a gynhyrchir ar y safle. Yn amodol ar gyllid, unwaith y bydd ar waith, bydd cam cyntaf Parc Eco Bryn Pica yn prynu'r dechnoleg sydd ar gael i brosesu tri grŵp o ddeunyddiau h.y. plastigau anhyblyg, cynhyrchion hylendid amsugol (AHP) gan gynnwys cewynnau a phaent gwastraff.

Rydyn ni hefyd yn gweithio'n rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf i gyflawni'r newidiadau sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Llesiant Cwm Taf, yn enwedig [Amcanion Lles Cwm Taf](#) Cymunedau Ffyniannus, i roi Canolfannau Cymunedol ar waith a sefydlu'r gefnogaeth ehangach i drigolion a chymunedau a nodwyd yn ein cynllun [POBL](#).

Dywedon ni y bydd Rhondda Cynon Taf ymhlith y lleoedd mwyaf diogel yng Nghymru, gyda lefelau uchel o gydlyniant cymunedol a thrigolion sy'n teimlo'n ddiogel

Mesurau a nodon ni y llynedd

- Dydyn ni ddim wedi gallu casglu'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer yr arolwg i ddweud wrthon ni a yw '*pobl yn teimlo'n ddiogel yng nghanol ein trefi*' gan doedd dim modd cynnal yr arolwg eleni.
- Mae 97% o'n trigolion mwyaf agored i niwed sydd wedi dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrigolion sydd wedi dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol ailadroddus yn teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i gael cymorth gennym ni (79.75% yn 2018/19).

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi...

- dysgu gwersi o'm gwaith gyda'r Bartneriaeth Alcohol Cymunedol (PAC) ym Mhontypridd mae modd i ni ddefnyddio er mwyn gwella'r sefyllfa ym Mhontypridd ymhellach a'u cyflwyno nhw i PACiau newydd yn y dyfodol, e.e.
 - parhau i gynnwys pobl ifainc a gwneud mwy fyth i'w hannog i gymryd rhan;
 - gofalu ein bod ni'n defnyddio gwahanol ddulliau i siarad â disgyblion mewn gwahanol ysgolion;
 - gofalu bod ein hyfforddiant yn glir ynghylch pwy sy'n gyfrifol am beth fel bod pawb yn gwybod beth sy'n cael ei ddisgwyl ganddyn nhw;
 - pwysleisio pwysigrwydd ymddygiadau iach i bobl ifainc;
 - gofalu fod gan rieni a gwarcheidwaid yr wybodaeth ag sydd eu hangen ynglŷn â phlant yn yfed dan oed y gallan nhw ei defnyddio er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar benderfyniadau eu plant ynghylch materion yfed alcohol;
 - mae manwerthwyr a thrwyddedeion yn allweddol i sicrhau fod pobl ifainc ddim yn gallu prynu alcohol;
 - parhau i wirio ein bod ni'n hoelio sylw ar yr hyn sy'n bwysig a'n bod ni, gyda'n partneriaid, yn cyflawni'r hyn roedden ni'n bwriadu ei gyflawni;

- parhau i godi ymwybyddiaeth o'r niwed sy'n gysylltiedig â defnyddio cyllyll a throseddau cyllyll gan gynnwys gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod y negeseuon i'n holl ysgolion yn glir ac yn gyson. Rydyn ni hefyd wedi gweithio gyda 'Crimestoppers' i roi ein hymgyrch 'Fearless' ar waith gan gynnwys gwneud [ffilm fer](#) i dynnu sylw at y peryglon sy'n gysylltiedig â throseddu ar y stryd, cyffuriau a thrais. Mae hefyd yn dangos sut mae modd i bobl ifanc roi gwybod am droseddau'n ddienw.
- Canolbwyntio ar ymglymu'n gynharach â phobl ifanc fel bod modd eu cyfeirio oddi wrth y byd troseddol ac ymddygiad anghymdeithasol. Trwy weithio'n agosach gyda'n partneriaid, mae pobl ifainc wedi cael cefnogaeth fwy priodol ac amserol i'w helpu i ddeall canlyniadau ymddygiad anghymdeithasol.
- Parhau i amddiffyn pobl agored i niwed yn ein cymunedau rhag masnachwyr twyllodrus a throseddau stepen drws trwy gynorthwyo i ddarparu uned blocio galwadau 'Truecall' i atal galwadau niwsans. Hefyd drwy [hyrwyddo'r, 'ymgyrch Brydeinig'](#) mae'r Cyngor wedi cofrestru 1,441 o 'Ffrindiau yn Erbyn Sgamiau', 15 'SCAMChampion' ac mae gyda ni hefyd 51 'ScamMarshall', y nifer fwyaf yng Nghymru. Yn fwy diweddar rydyn ni wedi bod yn codi ymwybyddiaeth o sgamiau [Covid-19](#), lle mae trigolion a sefydliadau yn cael eu targedu â negeseuon e-bost, negeseuon testun, galwadau ffôn a negeseuon WhatsApp sy'n cynnig cyngor a thriniaeth ar gyfer y Coronafeirws.

Llwyddiant Truecall

Dywedodd defnyddwyr Truecall wrthon ni

"Rydw i'n ei argymell! Mae wedi bod yn wych!"

"Mae'n gysur mawr - dydw i ddim yn cael galwadau yn y nos nawr" "Mae'n wych!"

"Byddai'n llawer gwell gen i pe bai yno, mae'n wych!"

"Rydw i eisiau ei gadw; mae wedi newid fy mywyd".

Dywedon ni y bydd amgylchedd lleol Rhondda Cynon Taf yn lân ac yn ddeniadol, gyda ffyrdd a phalmentydd sy'n cael eu cynnal yn dda, traffig sy'n llifo, rhagor o ailgylchu a llai o wastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.

Mesurau a nodon ni y llynedd

- Mae ymgyrchoedd gwybodaeth a chymorth i gymunedau ynghyd â gweithredu cymunedol wedi caniatáu inni:
 - ailgylchu mwy o'n gwastraff, mae 64.71% yn well na'r llynedd (61.01%) a dim ond 4.59% o'n gwastraff a aeth i safleoedd tirlenwi;
 - rhoi llai o Hysbysiadau Cosb Benodedig am droseddau Rheoli Cŵn, eleni rydyn ni wedi rhoi 129 sy'n llai na'r llynedd (170).
- Ers 2014/15, pan adroddwyd bod 9.3% o'n ffyrdd 'A', 'B' ac 'C' mewn cyflwr gwael, rydyn ni wedi gweld gwelliant amlwg yn ein ffyrdd - gostyngodd hyn i 4.8% yn 19/20. Y llynedd, bu gwelliannau yng nghyflwr ffyrdd A a B o 0.2% a 0.3% yn y drefn honno, ac rydyn ni'n parhau â'n gwaith trwy ein rhaglen buddsoddi mewn ffyrdd.

Cenedlaethau'r Dyfodol RhCT yn arwain y ffordd

Mae ein disgyblion ysgol bob amser yn arwain y ffordd yn eu hysgolion, gan ailgylchu papur lapio'r Nadolig a'r Pasg a batris ymhlith pethau eraill. Mae bron pob ysgol yn RhCT wedi cofrestru gyda chynllun [Eco-sgolion](#) ac mae dros 60 wedi ennill gwobrau o'r rhaglen. Mae'r rhaglen [yn grymuso'r disgyblion](#) i arwain newid amgylcheddol a chydweithio â'i gilydd a chymunedau i ddatblygu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth amgylcheddol.

Mae ein pobl ifainc hefyd wedi bod yn greadigol, fel y rapiwr lleol talentog Joshua Packham yn gweithio gyda'n prosiect SONIG a Social Soundwaves i gyfansoddi'r rap '[Plastic Earth](#)' sy'n tynnu sylw at y mater dinistriol o lygredd plastig. Cafodd 'Plastic Earth' ei lansio'n swyddogol yn ystod Wythnos Ailgylchu yn Ysgol Gyfun Treorci ym mis Medi 2019. Cafodd ei ddangos yng ngwobrau 'Bro-garwyr Tra Mad' a'i chwarae yn ystod ymweliadau i'r ganolfan addysg ym Mryn Pica. Bydd yn cael ei ddefnyddio mewn ymgyrchoedd ac ar y cyfryngau cymdeithasol yn y dyfodol i helpu i godi ymwybyddiaeth.

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi

- parhau i wella cyflwr ein ffyrdd a'n priffyrdd presennol e.e. trwy osod arwyneb newydd ar 96 o'n ffyrdd a llenwi 2,030 o dyllau yn y ffordd ynghyd ag atgyweirio pontydd a waliau afonydd, ailosod troedffyrdd a rhoi mesurau diogelwch ffordd newydd ar waith;
- gwneud rhagor o waith ar gynlluniau mawr newydd gan gynnwys Porth Gogledd Cwm Cynon - yr Estyniad i Ffordd Osgoi Aberdâr A4059, y Ffordd Gyswllt ar draws y Cwm yn Aberpennar, Ffordd Osgoi Llanharan. Rydyn ni hefyd wedi rhoi trefniadau traffig newydd ar waith yn y Porth, Stryd y Bont Pontypridd ac atgyweiriadau diogelwch ar y ffordd ar yr [A4119 Cylchfan Ynysmaerdy](#);
- gwneud rhagor o waith ar gynlluniau trafndiaeth fydd yn ymuno â chynlluniau eraill a chynlluniau a fydd yn annog pobl i gerdded, beicio a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, yn ogystal â llwybrau cymunedol a llwybrau teithio llesol i gynnig llwybrau cerdded mwy diogel i'n trigolion a buddion i'r amgylchedd ac i iechyd;
- buddsoddi £550,000 ar gyfer Draenio Llifogydd a Rheoli Perygl Llifogydd gan gynnwys monitro ceuffosydd i helpu i atal llifogydd yn ein cymunedau. Roedd ein gwaith yn cynnwys
 - Gwaith gosod cwlfferti ar yr [A4061, Ffordd y Rhigos, Hirwaun](#)
 - Gwelliannau i'r systemau [draenio yn Aberdâr](#) ac oddi ar [Heol Llanwynno, Aberpennar](#)

- Atgyweirio [Cwlferti yn Nhrefforest](#)
- Atgyweirio [Cwlfert ym Mhentre](#)
- Atgyweirio Cwlfert yn [Rhydfelen](#) a'r [A4058 Heol y Cymer](#)
- Atgyweirio [Cwlfert Gwrrangon](#) o dan Heol Pendarren
- Gosod [Cwlfert newydd yn Hirwaun](#)

Serch hynny, daeth Chwefror 2020 â thywydd garw gyda glaw trwm a gwyntoedd cryfion a gafodd effaith sylweddol ar bobl a chymunedau yn RhCT. Daeth stormydd Dennis a Ciara â dinistr ar draws RhCT. Gwelodd rhai ardaloedd gwerth mis o law mewn 24 awr, a chyrhaeddodd afonydd y lefelau uchaf a gofnodwyd. [Storm Jorge](#), ar 28 Chwefror, oedd y drydedd storm i daro. Gweithiodd y Cyngor a'i bartneriaid gyda'i gilydd a chyda chymunedau i roi cymorth gan gynnwys bwyd, dillad, eitemau ar gyfer y cartref, cymorth ariannol a llety dros dro brys. Mae'r modd yr ymatebodd y Cyngor i gefnogi'r trigolion, eu teuluoedd a busnesau RhCT trwy gydol hyn ac yn ystod argyfwng Covid-19 wedi'i nodi yng [Nghyfarfodydd y Bwrdd Adfer Ar Ôl Digwyddiadau Mawr](#) ac adroddiad diweddarach i'r [Cabinet](#). Mae rhagor o fanylion hefyd i'w gweld yn y gwerthusiad [LLEOEDD](#). Mae rheoli risg llifogydd yn flaenoriaeth uchel a pharhaus i'r Cyngor yn 2020/21;

- Cynnwys ysgolion a thrigolion mewn prosiectau i annog rhagor o ailgylchu gan gynnwys prosiect cymunedol yn Rhydfelen, ein gwobrau hirsefydlog '[Bro-garwyr Tra Mad](#)' a'n tocynnau gwyrdd cudd newydd a all ennill 'Bagsy am Oes' i drigolion. Bydd ein gwaith gydag ysgolion yn dechrau eto cyn gynted ag y bydd yn ddiogel gwneud hynny;
- Parhau â'n hymgyrchoedd i atal taflu sbwriel a baeddu gan gŵn a gweithio gyda thrigolion a chymunedau i'w helpu i fynd i'r afael â materion lleol. Rydyn ni wedi rhoi llai o Hysbysiadau Cosb Penodedig ac mae hyn yn awgrymu bod y cyhoedd yn fwy effro i droseddau yn erbyn yr amgylchedd a'u canlyniadau. Mae gyda ni agwedd dim goddefgarwch at adael gwastraff yn anghyfreithlon ac rydyn ni wedi cymryd camau cyfreithiol i erlyn troseddwyd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf aethom ni â 26 achos i Lys Ynadon Merthyr Tudful, gan arwain at ddirwyon a dedfrydau o garchar;
- Cwblhau ein hadolygiad cychwynnol o'r seilwaith sydd ei angen ar gyfer cerbydau carbon isel a sut bydd y Cyngor yn ystyried cerbydau carbon isel yn ei fflyd ei hun. Trafodwyd yr argymhellion gan Gyngorwyr mewn cyfarfodydd ar [3 Medi](#) a [24 Medi](#) 2019 a datblygwyd y gwaith i'w trafod gan [Grŵp Llywio'r Cabinet ar Newid yn yr Hinsawdd](#) newydd ei ffurfio ar 28 Ionawr 2020. Yn fwy diweddar, mae ein cynnydd wedi'i arafu gan y llifogydd a Covid-19 ond bydd pethau yn parhau yn ôl i'r arfer yn ystod 2020/21.

Dywedon ni bydd parciau a manau gwyrdd Rhondda Cynon Taf yn parhau i gael eu gwerthfawrogi gan drigolion.

Mesurau a nodon ni y llynedd

- Cafodd mwy o'n parciau, 11, wobwr [Baner Werdd neu Wobr Gymunedol y Faner Werdd](#). Mae hyn yn cynnwys pedair gwobr gymunedol newydd ar gyfer 2019/20. Mae'r wobwr ryngwladol yma'n cydnabod safonau uchel ein parciau a'n lleoedd gwyrdd, awyr agored.
- Roedd 80% o'n trigolion yn fodlon â'n parciau a'n manau agored - *mae hyn yn waeth na'r llynedd (80.7%)*. *Rydym ni'n parhau i fuddsoddi yn ein parciau a manau agored i'w gwneud yn fwy deniadol a hygyrch i'n holl drigolion.*
- Mae ansawdd yr aer wedi gwella mewn tri allan o bedwar o'n hardaloedd sy'n cael eu monitro yn dilyn cyfyngiadau cyflymder a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar yr A470.

Mae'r ardal sydd ddim yn dangos gwelliant ychydig yn uwch, ac efallai fydd dim yn gweld cymaint o newid gan fod ganddi slipffordd brysur sy'n ymuno â'r A470.

Yn dilyn ceisiadau llwyddiannus am gyllid, rydyn ni'n parhau i ddatblygu a gwella ein parciau a'n manau agored ac helpu i gefnogi gweithgareddau gwirfoddoli, gyda chynlluniau ar waith ar gyfer 2020. Ymhlith pethau eraill, rydyn ni'n

- parhau i gymryd camau i wneud RhCT yn fwy 'Gwyrdd' gan gynnwys rhagor o fuddsoddi yn ein parciau a'n manau gwyrdd, plannu coed a lleihau llygredd aer. Bydd gwybodaeth am ein gwaith ar gael yn haws trwy waith ein Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion Newid yn yr Hinsawdd. Yn fwy diweddar, mae effaith Covid-19 wedi effeithio ar rywfaint o'n cynnydd ond mae'r gwaith wedi bod yn dechrau eto wrth i amodau'r cyfyngiadau symud leddfu;
- Ystyried ffyrdd y mae modd i ni wella ansawdd yr aer ymhellach ar draws RhCT, e.e. rheoli traffig yn well gan gynnwys symud arosfannau bysiau fel eu bod nhw ddim yn achosi rhwystrau a gwella signalau goleuadau traffig, ei gwneud hi'n haws defnyddio trenau gan gynnwys y gwelliannau i'r cyfleusterau Parcio a Theithio yn Abercynon yn ogystal â rhedeg rhagor o drenau a threnau o safon well;
- Ystyried effaith y mesurau gostwng cyflymder ar yr A470 ar ansawdd yr aer yn yr ardaloedd cyfagos. Mae arwyddion cynnar yn awgrymu bod ansawdd yr aer wedi gwella mewn tair allan o'r pedair ardal ym Mhontypridd sy'n cael eu monitro ond mae angen rhagor o wybodaeth am y gwaith yma. Bydd cyfyngiadau cyflymder a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn parhau mewn grym ar yr A470 hyd y mae modd ei ragweld;
- Parhau i fuddsoddi mewn cyfleusterau chwarae awyr agored sy'n hygyrch i bawb. Yn fwy diweddar, mae'r llifogydd yn gynharach eleni a chau ardaloedd chwarae o ganlyniad i'r cyfyngiadau ar symud wedi effeithio ar rai agweddau o'n gwaith ond mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol yn 2020/21;
- Symud cynlluniau yn eu blaenau i gysylltu parciau ar draws rhanbarth y Cymoedd yn rhan o gynllun ['Pyrth Darganfod Parciau Rhanbarthol y Cymoedd' Llywodraeth Cymru](#)'. Bydd hyn yn cysylltu'r Cymoedd fel rhanbarth, adrodd straeon ei threftadaeth ddiwylliannol a diwydiannol gyfoethog, ac annog pobl i fod yn fwy egniol a chrwydro tirweddau'r Cymoedd. Yng Nghwm Dâr rydyn ni'n creu llwybrau beicio hygyrch i deuluoedd ac yn gwella'r ardal chwarae yn ogystal â gwella llety a'r maes gweryslla. Effeithiodd llifogydd ar ein cynnydd ym Mhontypridd yn gynharach eleni. Mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol yn ein [Cynllun Ffyniant ar gyfer 2020/21](#).

Mae'r gwaith yn ein blaenoriaeth Lle yn cyfrannu at RCT a Chymru sydd

yn llewyrchus	yn gydnerth	yn iachach	yn fwy cyfartal	â chymunedau cydlynus	â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	yn gyfrifol ar lefel fyd-eang
✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Nod ein Cynllun Corfforaethol newydd, ['Gwneud Gwahaniaeth'](#) y cytunwyd arno ym mis Mawrth 2020, yw 'Creu Lleoedd lle mae pobl yn falch o fyw a gweithio a chwarae ynddyn nhw'. Nodir sut y byddwn ni'n gwneud hyn yn 2020/21 yn adran 7 ac yn ein [Cynllun LLEOEDD ar gyfer 2020/21](#).

Yr hyn a gyflawnon ni yn ein Cynllun Corfforaethol rhwng 2016 a 2020

Pan lansiodd y Cyngor ei Gynllun Corfforaethol cyntaf '[Y Ffordd Ymlaen](#)' yn 2016 i osod cyfeiriad gwaith y Cyngor hyd at 2020, gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer gwella a chanolbwyntio ar dri maes gwaith a fyddai'n gwella bywydau pobl a chymunedau Rhondda Cynon Taf.

Ers lansio'r Cynllun, mae'r penderfyniadau y mae'r Cyngor wedi'u gwneud, yr adnoddau sydd wedi'u rhoi ar waith, y risgiau sydd wedi'u rheoli a'r cyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd wedi'u darparu ar gyfer staff i gyd wedi'u cyfeirio at wneud gwahaniaeth i fywydau pobl a chymunedau Rhondda Cynon Taf. Rydyn ni wedi buddsoddi dros £418 miliwn ar draws Ysgolion yr 21ain Ganrif, priffyrdd, cludiant a seilwaith arall, parciau, ardaloedd chwarae, canolfannau hamdden a chyfleusterau chwaraeon awyr agored a'n hasedau cymunedol.

Mae'r adrannau uchod yn nodi'r hyn rydyn ni wedi'i gyflawni'r flwyddyn ddiwethaf. Mae'r wybodaeth isod yn dangos ein cyflawniadau dros oes y cynllun, ers 2016

Yn 2016 yn ein blaenoriaeth ECONOMI dywedon ni

Roedden ni am adfywio RhCT, adeiladu cartrefi newydd a chreu swyddi newydd ac rydyn ni wedi gweld

- Cadarnhad o'r Fargen Ddinesig gwerth £1.2 biliwn sy'n cynnwys gweithredu Metro De Cymru a chynlluniau trafndiaeth leol gysylltiedig;
- Adeilad newydd sydd wrth wraidd adfywiad Pontypridd, [Llys Cadwyn](#), yn dilyn dymchwel hen ganolfan siopa Dyffryn Taf, gan ddod â swyddfeydd, canolfan cymunedol gyda llyfrgell fodern a chyfleusterau hamdden yn ogystal â swyddi ychwanegol;
- Dros 2,800 o swyddi newydd yn dod i'r Fwrdeistref Sirol. Bydd y rhain yn cynnwys 1,500 o swyddi ym Mhencadlys newydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn Nhrefforest a 500 yn eu depo yn Ffynnon Taf, 500 yn Llys Cadwyn ar gyfer Trafndiaeth Cymru, 60 yn Zip World Hirwaun a 300 yn Swyddfeydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn Nantgarw;
- Rhagor o fusnesau newydd yn dechrau, ac er y bu i fwy o fusnesau gau hefyd, ar y cyfan bu cynnydd yn nifer y busnesau / mentrau cofrestredig;
- 2,106 o unedau tai ychwanegol a 685 o dai fforddiadwy yn cael eu darparu, gan helpu i ddiwallu anghenion tai trigolion ar draws RhCT;
- Datblygu dau borth cyrchfan dynodedig ym Mharc Gwledig Cwm Dâr a Pharc Coffa Ynysangharad a fydd yn gweld ystod o gyfleusterau gwell, er bod llifogydd wedi cael effaith sylweddol ar barc Ynysanghard a'r Lido. Mae gwaith ar y gweill i atgyweirio'r difrod llifogydd a'r gobaith yw y bydd y [Lido yn ailagor ar gyfer Pasg 2021](#);
- Cadarnhad bod yr Eisteddfod yn dod i RCT, er bod yr achlysur wedi'i ohirio tan 2023 o ganlyniad i bandemig Covid-19.

Roedden ni am i'n hysgolion fod ymhlith y gorau yn y wlad ac rydyn ni'n gweld disgyblion yn mwynhau ysgolion newydd neu wedi'u hadnewyddu yn Y Pant, Treorci, Y Porth, Tonyrefail, Cymer, Glynrhedynog a Garth Olwg. Mae rhagor o welliannau ar y ffordd yn Hirwaun ac mae canolfan dysgu newydd yn cael ei ddatblygu yn Ffynnon Taf. Rydyn ni hefyd wedi parhau i fuddsoddi yn ein

hadeiladau ysgol presennol i wella cyfleusterau i ddisgyblion ynghyd ag ychwanegu technolegau mwy cynaliadwy fel bod ein hadeiladau'n cael llai o effaith ar yr amgylchedd.

Rydyn ni wedi gweithio'n agos gydag ysgolion i wella safonau addysgol ac i gefnogi lles ac iechyd meddwl disgyblion. Rydyn ni'n parhau i weithio'n galed i leihau effaith Covid-19 ar addysg pobl ifainc.

Roedden ni am roi ystod eang o raglenni sgiliau a chyflogaeth ar waith ar gyfer pobl o bob oed ac rydyn ni wedi cefnogi dros 3,500 o bobl o bob oed i ennill cymwysterau a dod o hyd i gyflogaeth trwy ein llwybr cyflogaeth, sy'n rhoi cymorth i bobl ar bob cam, o wella sgiliau hanfodol i ennill cymwysterau sy'n benodol i'r sector a phrofiad gwaith ar gyfer swyddi sydd ar gael yn lleol. Rydyn ni hefyd wedi darparu cefnogaeth wedi'i thargedu i helpu pobl ag anghenion penodol i ddod o hyd i waith neu aros ynddo, fel y rheini ag anabledau neu anawsterau dysgu a phobl ifainc sy'n gadael gofal. Rydyn ni wedi cyflogi dros 170 o brentisiaid a graddedigion ar draws ein gwasanaethau cyngor, gan ddarparu ystod o gyfleoedd i bobl ifainc ddatblygu eu gyrfaedd a datblygu talent yfory.

Yn 2016 yn ein blaenoriaeth POBL dywedon ni

Roedden ni am ddarparu'r gofal sydd ei angen ar ein trigolion i fyw yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hirach ac rydyn ni'n gweld rhagor o bobl yn cael eu helpu i fyw'n annibynnol. Serch hynny, er gwaethaf y gwasanaeth newydd Cadw'n Iach Gartref, mae llai o bobl hŷn yn mynd yn ôl i'w cartrefi yn gyflymach ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Mae hyn oherwydd bod y galw am ofal yn y cartref wedi cynyddu wrth i ni gefnogi rhagor o bobl i fyw gartref yn hytrach na mewn gofal preswyl. Lle does gan ddarparwyr gofal yn y sector annibynnol ddim digon o staff i ddarparu gofal cartref, mae ein Gwasanaeth Cymorth Gartref yn rhoi cefnogaeth tymor byr fel bod modd i bobl ddychwelyd i'w cartrefi. Rydyn ni wedi gweld preswylwyr hapus yn byw mewn cyfleuster gofal ychwanegol newydd yn Nhŷ Heulog, Pont-y-clun, a chwblhawyd ail gyfleuster newydd, Maes-y-ffynnon, yn Aberaman ym mis Mai 2020. Rydyn ni wedi dechrau gwaith i adeiladu trydydd cyfleuster Gofal Ychwanegol, Cwrt yr Orsaf, ym Mhontypridd. Mae cynigion hefyd ar waith i adeiladu tri chyfleuster arall yn Nhreorci, Aberpennar a'r Porth. Mae rhagor o oedolion yn dewis eu darparwyr gofal eu hunain a rhagor o bobl yn gallu aros yn annibynnol i raddau mwy helaeth yn dilyn pecyn gofal.

Roedden ni am wneud gwasanaethau'n fwy cydgysylltiedig ac effeithlon a thrwy weithio'n agos gydag eraill, gwellon ni'n cymorth blynyddoedd cynnar i deuluoedd fel bod modd i ragor o deuluoedd yn RhCT gael gafael ar gymorth, waeth ble maen nhw'n byw, fel bod tlodi yn cael llai o effaith arnyn nhw. Gwellon ni ein gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar draws Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful hefyd gan ei gwneud hi'n haws i bobl gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnyn nhw.

Roedden ni am roi dechrau gwych mewn bywyd i blant a phobl ifainc RhCT felly rhoen ni [Wasanaeth Teuluoedd Cydnerth](#) ar waith ac rydyn ni'n gweld bod teuluoedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw ar yr adeg iawn. Fe ddarparon ni ragor o gyfleoedd hyfforddi i'n rhieni maeth fel bod modd iddyn nhw wella eu gwybodaeth a'u sgiliau er mwyn cefnogi'r plant y maen nhw'n gofalu amdany'n nhw'n well. Er gwaethaf cynnydd cadarnhaol, yn 2019/20 rydyn ni wedi gweld mwy o blant yn destun ymyrraeth statudol, mwy o blant yn cael eu hailgofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a mwy o blant yn cael eu cymryd i ofal y Cyngor.

Yn 2016 yn ein blaenoriaeth LLE dywedon ni

Roedden ni am i RCT fod ymhlith y lleoedd mwyaf diogel yng Nghymru, gyda chymunedau'n helpu ei gilydd a thrigolion yn teimlo'n ddiogel felly newidion ni'r ffordd rydyn ni'n delio â dioddefwyr Trais yn y Cartref a rhoi technoleg ar waith hefyd i helpu i amddiffyn oedolion hŷn a bregus rhag galwadau ffôn a galwyr di-groeso. Ymwelon ni ag ysgolion i siarad â disgyblion am droseddau casineb a sut mae rhoi gwybod amdanyn nhw a helpu rhagor o bobl i fwynhau cymdeithasu yng nghanol y trefi drwy roi Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus yn eu lle yn Aberdâr a Phontypridd er mwyn helpu i reoli ymddygiad gwrthgymdeithasol o ganlyniad i gamddefnyddio alcohol. Mae rhagor o drigolion sydd wedi dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol yn teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i'n hymyrraeth.

Roedden ni am i barciau a manau gwyrdd RhCT barhau i gael eu gwerthfawrogi gan drigolion. Rydyn ni wedi gwella cyfleusterau chwaraeon trwy roi 18 o gaeau 3G a chaeau artiffisial ar draws RhCT ac wedi symud ymlaen gyda grantiau i wella ein parciau. Mae'r rhain yn cynnwys cyllid i adfer y safle seindorf a'r ardd isel ym Mharc Coffa Ynysangharad, cefnogi cymunedau lleol i reoli ac agor pyllau padlo trwy gydol misoedd yr haf a pharhau â'n rhaglen i fuddsoddi mewn meysydd chwarae. O ganlyniad, mae dros 120 o fannau chwarae wedi'u gwella ers 2015. Rydyn ni am i'n trigolion a'n hymwelwyr fwynhau'r nifer fawr o barciau a manau gwyrdd sydd gan RCT i'w cynnig a thrwy eu defnyddio, gwella eu hiechyd a'u lles.

Roedden ni am i gymunedau RhCT fod yn rhan o bethau a bod yn gydnherth ac rydyn ni wedi gwneud hyn trwy eu cynnwys yn fwy yn y penderfyniadau y mae'r Cyngor yn eu gwneud i wella bywydau trigolion, e.e. ailgynllunio ein gwasanaethau Llyfrgell i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion yr holl drigolion. Rydyn ni wedi datblygu Canolfannau Cymunedol yng nghanol cymunedau i ddarparu'r cymorth a'r gefnogaeth mae ein trigolion eu hangen ac hefyd y cyfle i gymdeithasu. Rydyn ni hefyd wedi cefnogi'r trigolion hynny sydd angen tai i atal digartrefedd ac wedi darparu atebion tymor hwy i ddiffyg tai. Mae disgrifiad o'n gwaith i helpu teuluoedd i allu ymdopi'n well yn yr adran am y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnherth, uchod.

Roedden ni eisiau amgylchedd lleol sy'n lân ac yn ddeniadol, gyda ffyrdd a phalmentydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, traffig sy'n llifo, mwy o ailgylchu a llai o wastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. O'r herwydd, rydyn ni wedi parhau i lanhau ein strydoedd i safon uchel, ac ar ôl gwranddo ar yr hyn a ddywedodd trigolion wrthon ni, fe roeon ni [Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus](#) ar waith er mwyn gorfodi'r rheolau i leihau baeddu gan gŵn. Rydyn ni hefyd wedi cynnal ymgyrchoedd i orfodi'r negeseuon yma o ddim goddefgarwch i berchnogion cŵn sydd ddim yn dilyn y rheolau. Rydyn ni hefyd wedi gwneud gwelliannau i'n ffyrdd a'n llwybrau troed ac rydyn ni wedi gosod goleuadau stryd newydd sy'n fwy effeithlon o ran ynni na'r hen rai. Gan edrych i'r dyfodol, rydyn ni wedi dechrau cynlluniau ffyrdd mawr ac wedi symud ymlaen gyda rhai eraill e.e. Ffordd Gyswllt ar Draws y Cwm yn Aberpennar a fydd yn cadw trigolion, busnesau ac ymwelwyr yn symud ledled y Fwrdeistref Sirol ac o fudd i'r economi leol. Rydyn ni hefyd wedi gweld bod rhagor o drigolion yn ailgylchu mwy o'u gwastraff. Mae hyn yn ein helpu i gwrdd â'r heriau sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd a bwrw targedau ailgylchu Llywodraeth Cymru.

Rydyn ni hefyd yn gwybod bod rhagor o waith i'w wneud o hyd lle nad ydyn ni wedi cyflawni cymaint ag yr oedden ni wedi disgwyl, e.e.

Economi - mae cyflawniad ein disgyblion mwy agored i niwed yn dal i fod yn rhy bell o dan lefel cyflawniad eu cyd-ddisgyblion. Mae angen i ni hefyd weithio gydag ysgolion i wella presenoldeb ysgolion a lleihau nifer y disgyblion sy'n cael eu gwahardd.

Pobl - dydyn ni ddim yn llwyddo i gael pawb adref o'r ysbyty yn gyflym ar ôl iddyn nhw wella.

Lle - mae angen i ni barhau i annog trigolion i ailgylchu eu gwastraff fel bod modd i ni gyrraedd ein targed ailgylchu heriol ein hunain o 80% erbyn 2025 a chyfrannu at leihau effaith newid yn yr hinsawdd.

Mae'n amhosibl i'n Cynllun Corfforaethol ddangos gwybodaeth am yr holl wasanaethau gwahanol rydyn ni'n eu darparu neu'n eu trefnu ar gyfer ein trigolion, ein cymunedau a'n busnesau, ond mae llawer o wybodaeth ar gael am ein holl wasanaethau ar [wefan y Cyngor](#).

Mae ein Cynllun Corfforaethol newydd 'Gwneud Gwahaniaeth' yn nodi uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer 2020-2024 ac yn adeiladu ar yr hyn rydyn ni wedi'i gyflawni hyd yma.

yn llewyrchus	yn gydnerth	yn iachach	yn fwy cyfartal	â chymunedau cydlynus	â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	yn gyfrifol ar lefel fyd-eang
✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Ein cyflawniad ni o'i gymharu â gweddill Cymru

Wrth gymharu ein cyflawniad yn 2019/20, rhaid i ni gydnabod effaith sylweddol y digwyddiadau digynsail a ddigwyddodd yn ystod tri mis olaf y flwyddyn ariannol: yn gyntaf, Storm Dennis ym mis Chwefror 2020, a achosodd difrod sylweddol i lawer o gymunedau ledled Rhondda Cynon Taf a hwn oedd y digwyddiad tywydd mwyaf dinistriol y mae'r ardal wedi'i brofi ers cenedlaeth ac yn ail, dechrau'r pandemig Covid-19 ym mis Mawrth 2020. Effeithiodd y ddau ddigwyddiad ar gyflawniad ar ddiwedd y flwyddyn. Er hyn, o ganlyniad i waith a wnaed yn gynharach yn y flwyddyn, cyflawnwyd targedau o hyd ac roedd cyflawniad yn dal yn well na 2018/19.

Yn 2019/20, roedd llai o fesurau wedi'u gosod yn genedlaethol ar waith. Mae hyn yn golygu bod llai o fesurau y gallwn ni eu cymharu â Chynghorau eraill yng Nghymru. O'r 28² dangosydd cenedlaethol rydyn ni'n adrodd arnyn nhw, mae modd i ni gymharu ein cyflawniad ar gyfer 20 ohonyn nhw â Chynghorau eraill³, gan ddefnyddio'r data cenedlaethol diweddaraf sydd ar gael. Mae ein cyflawniad a fesurir gan ddangosyddion cenedlaethol yn dangos...

- 5 dangosydd yn y chwarter uchaf yng Nghymru
- 13 dangosydd yn dangos gwell cyflawniad na chynghorau eraill
- 10 dangosydd yn well na Chyfartaledd Cymru
- 10 dangosydd yn waeth na Chyfartaledd Cymru
- 5 dangosydd yn y chwarter isaf yng Nghymru, er bod ein cyflawniad o gymharu â chynghorau eraill wedi gwella mewn 3 o'r dangosyddion yma
- 9 dangosydd yn dangos bod cyflawniad wedi gwaethygu
- dim newid mewn 1 dangosydd.

I weld crynodeb llawn o sut mae ein cyflawniad yn 2019/20 yn cymharu â gweddill Cymru, edrychwch ar ein [cymariaethau PI](#).

I grynhoi, o gymharu ein cyflawniad â Chynghorau eraill Cymru, roedden ni yn y chwarter uchaf yng Nghymru ar gyfer

- % y priffyrdd a gafodd eu harchwilio a'u nodi fel rhai safon uchel neu safon dderbyniol o ran glendid
- % yr aelwydydd dan fygythiad o ddigartrefedd yn cael eu hatal rhag dod yn ddigartref
- % y ffyrdd sydd ddim yn briffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan
- % o'r holl geisiadau cynllunio a bennir o fewn y cyfnod amser y gofynnwyd amdano
- % yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd.

Roedden ni yn y chwarter isaf yng Nghymru ar gyfer

- % o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd sy'n mynychu'r ysgol
- % y priffyrdd (A) sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan
- % y ffyrdd (B) sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan

² Mae PAM033 a PAM034 wedi'u tynnu'n ôl yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru.

³ Rydyn ni wedi defnyddio'r data Cymru gyfan mwyaf diweddaraf o 2018/19 i gymharu ein cyflawniad yn 2019/20.

- Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol fesul 1,000⁴

Mae esboniadau ar gyfer y cyflawniad yma a'r hyn rydyn ni yn ei wneud i wella wedi'u cynnwys yn yr adroddiad yma ac yn y gwerthusiadau cyflawniad manwl.

Fydd dim data cymharol cenedlaethol ar gael ar gyfer 2019/20, gan na chasglwyd unrhyw ddata cenedlaethol fel sy'n arferol ym mis Mai 2020 o ganlyniad i'r pandemig. Dydy hi ddim yn eglur chwaith pa ddata, os o gwbl, a gesglir yn genedlaethol mewn perthynas â'r flwyddyn adrodd 2020/21. Os hoffech chi weld gwybodaeth am Rondda Cynon Taf a Chynghorau eraill ledled Cymru, mewn fformat hawdd ei ddarllen, mae ar gael yn [Fy Nghyngor Lleol](#).

Gall cymharu ein cyflawniad â Chynghorau eraill godi mwy o gwestiynau nag atebion. Mae hyn yn gadarnhaol oherwydd gall ein helpu ni i ddeall yr hyn rydyn ni'n ei wneud, dysgu o arfer gwell yn ogystal â rhoi syniad inni beth yw lefel ein cyflawniad. Os gallwn ni weld nad yw ein cyflawniad yn gwella dros amser, ac yn aros yn is na chyfartaledd Cymru heb reswm da, fe allwn ni wedyn ganolbwyntio ar yr hyn rydyn ni angen ei wella.

Rydyn ni hefyd wedi cymharu ein cyflawniad â'r targedau a osodon ni i ni'n hunain ar gyfer 2019/20 a gweld y canlynol:

- bwrodd 17 dangosydd eu targed neu ragori arno ac roedd 3 dangosydd o fewn 5% o fwrw'r targed
- Methodd 5 dangosydd â chyrraedd y targed, ac roedd y data'n waeth na 2018/19. Mae hyn yn cynnwys dau ddangosydd, *ymweliadau â chanolfannau hamdden a sawl cilogram o wastraff sydd heb ei ailgylchu ar gyfer pob person*, lle cafodd y llifogydd a Covid-19 effaith ar gyflawniad ar ddiwedd y flwyddyn adrodd. Ar gyfer dau o'r dangosyddion sy'n weddill ar gyfer *cael pobl hŷn yn ôl i'w cartrefi o'r ysbyty yn gyflymach a'r nifer o blant yn ein gofal a symudodd leoliadau 3 gwaith neu fwy dros gyfnod o 12 mis*, mae cyflawniad yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer 2018/19. Yn achos gweddill y dangosydd, sef % yr asesiadau plant sy'n cael eu cwblhau yn unol â'r amserlen, rydyn ni wrthi'n adolygu'r trefniadau presennol i weld sut gallan nhw wella prosesau a chyflawniad.

Nid yr unig fesur o gyflawniad yw'r dangosyddion cyflawniad a dydyn nhw ddim ychwaith yn rhoi'r stori gyfan, ond gallan nhw fod o help. Rydyn ni hefyd yn edrych ar farn trigolion ac ymatebion i arolygon, a'r sylwadau, y ganmoliaeth a'r cwynion sy'n dod i law trwy'r cyfryngau cymdeithasol a'n system Rheoli Perthynas â Chwsmeriaid. Mae modd i gynghorwyr wirio'r wybodaeth yma mewn adroddiadau i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Mae'r adroddiadau yma hefyd yn nodi'r hyn a wnaed i wella gwasanaethau yn dilyn adborth mewn adroddiadau blaenorol.

Rydyn ni hefyd [yn adrodd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu](#) fel bod modd i Gynghorwyr weld yr ymatebion a ddaw i law trwy [Gynllun Adborth Corfforaethol y Cyngor](#). Mae hyn hefyd yn cynnwys datblygiadau a gwelliannau i'r cynllun yn ystod y 6 mis blaenorol. Yn rhan o'n trefniant rydyn ni hefyd yn darparu adroddiadau chwarterol i'r [Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus](#). Mae'r adroddiadau yma'n rhoi gwybodaeth am nifer y sylwadau, y ganmoliaeth a'r cwynion a gawsom ni a chanlyniadau'r rhain. Os bydd cwsmer yn anghytuno â chanlyniad cwyn wedi iddo gael ei

⁴ Effeithiwyd ar PAM017 gan ostyngiad yn y defnydd cyffredinol o ganolfannau hamdden o ganlyniad i effaith Storm Dennis a COVID-19. Fu dim defnydd ohonyn nhw o 20 Mawrth 2020.

archwilio gan y Cyngor, mae modd iddo apelio i'r Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus i ofyn am ymchwiliad annibynnol.

Mae'n bwysig ein bod ni fel Cyngor yn gallu tystio ein bod ni'n dysgu o adborth ein trigolion a chan Awdurdodau Lleol eraill lle maen nhw wedi derbyn argymhellion ar gyfer gwelliannau gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus i'n helpu i gymharu ansawdd ein gwasanaethau, ein prosesau a'n polisiau â Chynghorau eraill ledled Cymru fel bod modd i ni wella.

Rydyn ni'n cymharu ein cyflawniad ag arfer gorau cyhoeddedig ac rydyn ni hefyd yn ystyried yr hyn y mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei ddweud wrthon ni. Mae yna rywbeth y gallwn ni ei ddysgu bob amser i wella'n barhaus yr hyn rydyn ni'n ei wneud. Mae'r holl gamau yma'n ein helpu ni i sicrhau bod y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu yn helpu i wneud RhCT ["y lle gorau yng Nghymru i fyw, gweithio a chwarae ynddo..."](#). Mae modd i chi weld yr [adroddiadau y mae ein harchwilwyr a'n harolygydd wedi'u cyhoeddi i'r Cyngor](#).

Mae angen i ni hefyd gyfrannu at y Saith Nod Llesiant Cenedlaethol i Gymru sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sydd wedi'i disgrifio'n fanylach yn adran 16. Ym mis Medi 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hail adroddiad, [Llesiant Cymru 2019](#) sy'n nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar draws 44 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, i gyflawni'r Saith Nod Cenedlaethol yma gan ddefnyddio'r 46 mesurydd cenedlaethol. Er nad yw'r adroddiad yn ymwneud â Rhondda Cynon Taf, gallwn ni ddefnyddio'r wybodaeth yma i edrych ar gyfraniad y Cyngor at y Saith Nod Cenedlaethol.

Dyma oedd y prif bwyntiau yn adroddiad cenedlaethol Llesiant Cymru (<https://www.slideshare.net/YstadegauCymru/llesiant-cymru-2019-198386736>)

- "Mae disgwyliad oes iach yn dal i fod yr un fath. Mae ein deiet yn dal i gynnwys lefelau isel o ffrwythau a llysiau, a gormod o halen, siwgr a chig coch.
- Rydyn ni wedi gweld gwelliannau eleni yn lefelau'r prif lygryddion yn yr aer, y capasiti ynni adnewyddadwy a'r allyriadau carbon.
- Mae'r farchnad lafur yng Nghymru yn parhau i fod yn gryf yn nhermau hanesyddol. Serch hynny, dydy hyn ddim o reidrwydd yn golygu bod gwaith o ansawdd da i bawb ac mae'r bwlbwch cyflog rhwng y rhywiau wedi cynyddu.
- Am y tro cyntaf mewn degawd, roedd data arolygon yn dangos bod cyflwr tai wedi gwella'n sylweddol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod llai o bobl yn byw mewn tai peryglus neu dai sydd ddim yn effeithlon o ran ynni.
- Mae gwahaniaethau o hyd rhwng y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig, er enghraifft o ran marwolaethau y mae modd eu hosgoi a chyrhaeddiad addysgol. Ac mae cyfraddau tlodi cymharol yn aros ar lefel debyg eleni."

[Mae mynegai Llefydd Llewyrchus Cymru ar gyfer Amodau Lleol 2020](#) yn mesur nifer o wahanol wasanaethau a gwahanol ddarparwyr wedi'u categoreiddio yn ôl Lle ac Amgylchedd, Iechyd Meddyliol a Chorfforol, Addysg a Dysgu, Gwaith a'r Economi Leol, Pobl a Cymuned. Ar draws pob un o'r categorïau, mae data 2020 yn rhoi sgôr gyffredinol i RCT o 4.43 allan o 10 posib. Mae hyn ychydig yn well na 2019. Y categori gafodd y sgôr uchaf yn 2020 oedd 5.56% ar gyfer Lle a'r Amgylchedd a'r isaf oedd 3.58 ar gyfer Iechyd Meddwl a Iechyd Corfforol.

Gwneud Gwahaniaeth — Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor

Rydyn ni wedi adeiladu ar lwyddiant Cynllun Corfforaethol cyntaf y Cyngor a roddodd siâp a chyfeiriad i waith y Cyngor rhwng 2016-2020. Cytunwyd ar Gynllun Corfforaethol newydd [y Cyngor ar 4 Mawrth 2020](#), yn dilyn ymgynghoriad a thrafodaethau eang gyda'n preswylwyr a'n rhanddeiliaid. Mae'r cynllun yma'n allweddol i'r ffordd rydyn ni'n parhau i reoli gwaith, pobl a chyllid y Cyngor. Trwy gael y cynllun yma ar waith, mae modd inni sicrhau bod y Cyngor

1. mewn sefyllfa dda i gwrdd â heriau'r dyfodol, yn enwedig yng nghyd-destun lefelau cyllido heriol, newidiadau yn y gyfraith, poblogaeth a'r galw am wasanaethau;
2. gyda strategaeth glir a set o flaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod;
3. yn gallu dyrannu adnoddau a gofalu bod cynlluniau gweithredu ar waith i gyflawni'r blaenoriaethau y cytunwyd arny'n nhw.

Mae'r cynllun newydd 'Gwneud Gwahaniaeth' yn nodi gweledigaeth newydd ar gyfer y pedair blynedd nesaf sef ***“I fod y lle gorau yng Nghymru i fyw, gweithio a chwarae ynddo, lle mae pobl a busnesau yn annibynnol, iach a ffyniannus”***. Mae'r Cynllun hefyd yn nodi tair blaenoriaeth newydd, sydd hefyd yn Amcanion Llesiant y Cyngor, Sef:

Sicrhau bod **Pobl** yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus;
 Creu **Lleoedd** mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw;
 Galluogi **Ffyniant** creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuriaidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu.

Byddwn ni'n gweithredu'r blaenoriaethau newydd yma drwy

- Byw o fewn ein gallu a gwneud y gorau o arian y Cyngor mewn ffyrdd sydd hefyd yn ein helpu i gyflawni ein hymrwymiad i leihau Carbon;
- Bod yn Gyngor effeithlon ac effeithiol fel bod unrhyw un sy'n cysylltu â'r Cyngor yn cael y gwasanaeth gorau posibl gyda mwy o fynediad ar-lein, ar adeg sy'n gweddu i'w ffordd o fyw;
- Dod o hyd i ffyrdd o gael mwy o incwm i mewn i'r Cyngor, gan fanteisio ar safle RhCT yn rhan o brosiectau rhanbarthol i greu swyddi a chyfleoedd i drigolion a busnesau RhCT;
- Helpu trigolion a grwpiau cymunedol i gael rhagor o reolaeth dros yr hyn y mae modd iddyn nhw ei wneud i gefnogi pobl leol yn eu cymunedau a gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill i gael y gorau o'n holl waith.

Serch hynny, yn fuan ar ôl cytuno ar y cynllun newydd, roedd y wlad a'r Cyngor, yn wynebu amgylchiadau digynsail o ganlyniad i'r coronafeirws Covid-19. Ar Fawrth 23, cyhoeddodd y Prif Weinidog gyfyngiadau symud i atal y feirws Covid-19 rhag lledaenu rhwng cartrefi, gan newid y ffordd yr oedd pawb yn y DU yn byw eu bywydau beunyddiol. Nodwyd pwrpas y cyfyngiadau symud yn negeseuon pedair llywodraeth y DU, sef 'Aros Gartref; Diogelu'r GIG; Achub Bywydau'. Y ffocws ysgubol oedd gohirio'r feirws a sicrhau nad oedd y galw am wasanaethau'r GIG yn fwy na'r cyflenwad, a allai fod wedi arwain at gannoedd o filoedd o farwolaethau. Roedd hyn yn golygu roedd yn rhaid i'n cynllunio a'r cyd-destun y buom ni'n gweithio ynddo newid dros y tymor byr. Effeithiwyd yn sylweddol ar ein cynllunio manwl i gyflawni ein blaenoriaethau gan y cyfyngiadau a osodwyd gan Lywodraeth y DU a llywodraeth Cymru o ganlyniad i Covid-19. Mae llawer o'n gwaith

cynllunio ar gyfer y tymor byr i'r tymor canolig gyda hyn mewn golwg. Serch hynny, mae'r feirws yma o hyd. Oherwydd hyn, mae pob cam posibl yn cael ei gymryd i leihau'r peryglon i drigolion a staff ac i gadw pawb yn ddiogel. Mae'r potensial ar gyfer ail don neu glystyrau lleol o'r firws yn parhau i fod yn debygol iawn.

Mae Covid-19 wedi effeithio ar bob un o wasanaethau'r Cyngor i ryw raddau. Mae'r effaith ar lawer, yn enwedig y gwasanaethau rheng flaen hynny sydd wedi parhau yn yr amgylchiadau mwyaf heriol er mwyn y trigolion mwyaf agored i niwed, wedi bod yn sylweddol. Gorfodwyd eraill i gynnig llai o wasanaethau a gweithio ar raddfeydd amser estynedig ac ati. Bu'n rhaid aelodau o staff mewn rhai gwasanaethau gymryd seibiant o'r gwaith (ffyrlo). Mae'n rhaid i wasanaethau gynllunio ar gyfer y tymor byr yn unig gan wrando ar y cyngor gorau sydd ar gael. Bydd cynlluniau'n cael eu hadolygu'n barhaus yng ngoleuni profiad, cyngor ac effaith llacio cyfyngiadau symud Llywodraeth Cymru.

Wrth ailagor, mae pob gwasanaeth yn cynnal asesiad risg ac yn ystyried ystod o faterion mewn perthynas â chadw pellter cymdeithasol, gofynion defnyddwyr gwasanaeth a staff, cynnal hylendid personol da, capasiti adeiladau i ddarparu ar gyfer y gwasanaeth a galluogi pobl i gadw pellter cymdeithasol a chyfundrefnau glanhau sy'n ofynnol ar gyfer manau a rennir.

Wrth i wasanaethau dychwelyd ar ôl y cyfyngiadau symud ar adegau gwahanol, mae ganddyn nhw lawer o'r un anghenion, e.e. TG ar gyfer trefniadau gweithio hyblyg a chefnogaeth gan y garfan Cyfathrebu i'w helpu i roi gwybodaeth glir ac amserol i gynulleidfa sydd mor eang â phosibl. Byddan nhw hefyd yn ceisio mynd i'r afael â 'rhwystrau' cyffredin a allai effeithio ar gynnydd. Mae'r rhain yn cynnwys effaith hunanynysu/pobl yn cael eu gwarchod ar adnoddau ar draws gwasanaethau, yn enwedig yn y rheng flaen; y potensial i barhau i leihau capasiti sy'n deillio o anghenion gofal plant/addysg a chyfrifoldebau gofal eraill; mynediad at TGCh/technolog ac offer; effaith newidiadau i hyfforddiant a chefnogaeth yn enwedig ar staff a benodwyd yn ddiweddar yn ogystal â bylchau mewn sgiliau sy'n codi o ffyrdd newydd o weithio gartref a heriau sy'n wynebu gwasanaethau.

Serch hynny, mae'r Cyngor hefyd yn herio'i hun a'i holl wasanaethau i gymryd ac adeiladu ar y cyfleoedd a grëwyd o'r profiad yma a pharhau â'r buddion e.e. hyblygrwydd gweithio gartref a darparu gwasanaethau yn ddigidol neu mewn ffordd wahanol. Rydyn ni'n cymryd cyfleoedd a syniadau newydd, gan gynnwys dysgu gan eraill, i sicrhau dydy gwasanaethau ddim yn dychwelyd i "normal - fel yr oeddem ni" fel mater o drefn. Byddwn ni'n gofyn i'n trigolion a yw eu disgwyliadau o wasanaethau'r Cyngor wedi newid o ganlyniad i'w profiadau. Byddwn ni hefyd yn adeiladu ar y perthnasoedd â'n partneriaid yn y sector cyhoeddus sydd wedi dod yn gryfach ac yn agosach oherwydd y gwaith digynsail, uniongyrchol a pharhaus sydd wedi rhoi 'bywyd' go iawn i werth cydweithredu, a gweithio gydag eraill.

Mae uchelgais tymor hwy'r Cyngor yn parhau i fod yn gryf ac yn glir. Serch hynny, am y rhesymau uchod, bydd rhaid i lawer o'n cynlluniau ar gyfer 2020/21 fod yn rhai tymor byr yn unig a byddan nhw'n cymryd codi cyfyngiadau'r Llywodraeth i ystyriaeth.

Mae modd i chi weld sut mae'r Cyngor wedi ymateb i effeithiau'r feirws ar bobl a chymunedau yn Rhondda Cynon Taf a sut mae'n parhau i ymateb mewn adroddiadau allweddol i Gabinet y Cyngor

ar [21 Mai](#), [25 Mehefin](#), [28 Gorffennaf 2020](#) a Phenderfyniad Gweithredol yr Arweinydd [ar 14 Awst](#) mewn perthynas â Chynllun Atal ac Ymateb Cwm Taf Morgannwg mewn perthynas â COVID-19.

Mae'r amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nawr ac yn ystod y misoedd nesaf, wedi effeithio ar ein cynlluniau a'r hyn y mae modd i ni ei gyflawni yn 2020/21. Serch hynny, rydyn ni'n cymryd pob cam i sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn gwella mor gyflym ac mor llawn ag y caniateir iddyn nhw, ein bod ni'n parhau i fuddsoddi mewn datblygiadau mawr ledled y Fwrdeistref Sirol a'n bod ni hefyd yn manteisio i'r eithaf ar unrhyw wersi rydyn ni wedi'u dysgu o ganlyniad i fynd i'r afael â'r pandemig i gefnogi ein trigolion, ein cymunedau a'n busnesau lleol yn well. Trwy wneud hynny, bydd modd i ni ddod yn ôl yn gryfach i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer RhCT ***"I fod y lle gorau yng Nghymru i fyw, gweithio a chwarae ynddo, lle mae pobl a busnesau yn annibynnol, iach a ffyniannus"*** a chynnal ffocws craff ar ein tair blaenoriaeth **POBL, LLEOEDD a FFYNIANT**. Mae peth o'r gwaith rydyn ni'n bwriadu ei wneud yn 2020/21 wedi'i nodi isod.

POBL mae ein cynlluniau ar gyfer 2020/21 yn cynnwys

<p>Cefnogi ein trigolion sy'n hŷn, agored i niwed, neu sydd ag anableddau, er mwyn iddyn nhw barhau i fod yn annibynnol a mwynhau bywyd o ansawdd da drwy.....</p>	<ul style="list-style-type: none"> • parhau i weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod pobl yn gadael yr ysbyty yn gynt ac yn fwy diogel ac yn cael eu cefnogi yn y gymuned; • parhau i weithio mewn partneriaeth â Linc Cymru i gwblhau'r cynlluniau tai gofal ychwanegol newydd ym Mhontypridd y flwyddyn nesaf; • parhau i weithio gyda chyflenwyr tai i gwblhau llety Tai â Chymorth modern ar gyfer pobl agored i niwed, gan gynnwys yn Crown Avenue, Treorci a Stryd Rhydychen, Aberpennar; • helpu cartrefi gofal i weithredu gweithdrefnau i ddarparu ar gyfer ymweliadau gan ffrindiau a theulu yn ddiogel ac ailagor gwasanaethau oriau dydd a gwasanaethau seibiant yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru; • ailagor gwasanaethau offer rhanbarthol i ateb y galw cynyddol am offer cymunedol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol; • ailgychwyn gwasanaeth Aros yn Iach Gartref (Cam 2) a lansio Llinell Achub Bywyd a Rhagor RhCT; • ailgychwyn gwasanaeth llyfrgelloedd ar gyfer pobl gartref;
<p>Annog ein holl drigolion i fyw bywydau gweithgar ac iach a chynnal eu lles meddyliol trwy....</p>	<ul style="list-style-type: none"> • cefnogi rhagor o bobl i wneud ymarfer corff gartref neu leihau cyswllt wyneb yn wyneb yn ein Canolfannau Hamdden; • cyflwyno rhai dosbarthiadau awyr agored gan wneud defnydd da o'n parciau a'n caeau 3G; • hyrwyddo "ymarfer corff hanfodol" ar gyfer buddion iechyd corfforol a meddyliol ein trigolion a'n cymunedau.
<p>Integreiddio gofal iechyd a gofal cymdeithasol a darparu cymorth i'r rheiny â phroblemau iechyd meddwl ac anghenion cymhleth drwy....</p>	<ul style="list-style-type: none"> • darparu Gwasanaeth Cysylltu ac Olrhain effeithiol ac effeithlon ar gyfer Rhondda Cynon Taf ac ardal Cwm Taf Morgannwg gan sicrhau hyblygrwydd staff i ddelio â thon arall posibl o Covid-19 yn ein cymunedau
<p>Gwella gwasanaethau i blant a phobl ifainc a sicrhau bod anghenion plant yn cael eu hystyried ym mhob rhan o'n gwaith drwy.....</p>	<ul style="list-style-type: none"> • ofalu bod gan blant sy'n agored i niwed fynediad i addysg a gofal plant brys; • ofalu bod trefniadau diogelu cadarn ar waith ar gyfer plant ac oedolion sydd mewn perygl; • ofalu bod modd i ni ddarparu gwasanaethau statudol i'r plant hynny sydd mewn perygl o niwed difrifol, gan gynyddu'r gwasanaeth mae modd ei ddarparu'n ddiogel gyda'r nod o ddychwelyd i wasanaeth llawn pan fydd yn ddiogel gwneud hynny yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru; • gwella argaeledd llety o ansawdd cynaliadwy i blant a phobl ifainc ag anghenion cymhleth lle does dim modd iddyn nhw aros gyda'u teuluoedd eu hunain; • parhau i gynnig gweithgareddau 'rhithwir' i bobl ifainc trwy ein Gwasanaethau Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid (YEPS)

mae modd i chi weld rhagor o fanylion am ein cynlluniau ar gyfer 2020/21 yn ein Cynllun [POBL](#).

Edrych y tu hwnt i 2020/21 ar gyfer **POBL** ...

Erbyn 2043, mae disgwyl bydd Poblogaeth

- Cymru'n cynyddu 3.7% i 3.26 miliwn [Ffynhonnell; StatsCymru](#).
- RhCT yn cynyddu hyd at 5.3% i 254,145 [Ffynhonnell: StatsCymru](#)
- i'r nifer o drigolion RhCT sydd dros 65 oed ddringo 23.2% i 57,429. Mae hyn yn golygu bydd y % o'r boblogaeth sydd dros 65 oed yn codi o 19.3% i 22.6%. [Ffynhonnell: StatsCymru](#)

Iechyd a lles

- Rhagwelir y bydd disgwyliad oes o enedigaeth yng Nghymru yn codi. [Ffynhonnell: Proffil Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

	2020	2029
Dynion	88	89.1
Menywod	90.6	91.5

- Erbyn 2025, bydd 68.7% o oedolion yn ardal Cwm Taf dros eu pwysau neu'n ordew. [Ffynhonnell: Proffil Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)
- Erbyn 2035, bydd nifer yr oedolion ag anhwylder iechyd meddwl cyffredin yng Nghymru yn cynyddu 7.2% i 447,159 ar waelodlin 2017, tra bydd nifer y bobl 65+ sy'n byw gyda dementia yn cynyddu 64% i 77,769 yn yr un cyfnod. [Iechyd Cyhoeddus Cymru Ffynhonnell: Adroddiad Dyfodol i Gymru](#)
- Erbyn 2035, bydd cynnydd yn nifer yr oedolion â chyflyrau cronig yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o 18.2% yn y nifer bobl â diabetes i 220,376, cynnydd o 27% yn y nifer o bobl â chyflyrau ar y galon i 321,986 a chynnydd o 29.5 % yn y nifer o bobl sy'n dioddef strôc i 90,214. [Iechyd Cyhoeddus Cymru Ffynhonnell: Adroddiad Dyfodol i Gymru.](#)

LLEOEDD mae ein cynlluniau ar gyfer 2020/21 yn cynnwys

<p>Cadw RhCT yn lân trwy wasanaethau glanhau'r stryd effeithlon, lleihau'r gwastraff rydyn ni'n ei anfon i'r safle tirlenwi, cyflawni ein targedau ailgylchu trwy gasglu gwastraff ailgylchu bob wythnos a gwastraff cyffredinol yn rheolaidd, a lleihau ein hól-troed carbon trwy.....</p>	<ul style="list-style-type: none"> • parhau gwasanaethau gwastraff a gwasanaethau glanhau, gyda threfniadau gweithio diogel priodol ar waith; • monitro Canolfannau Ailgylchu yn y Gymuned gan sicrhau diogelwch trigolion a staff ar ôl ailagor yn dilyn llacio cyfyngiadau yn sgil Covid-19.
<p>Cadw'r Fwrdeistref Sirol yn symud, gan gynnwys cyflawni gwelliannau ar y ffyrdd a phalmentydd a thrafnidiaeth gyhoeddus, gan wella ansawdd yr aer drwy barhau.....</p>	<ul style="list-style-type: none"> • a'n Rhaglen Gwella Priffyrdd gan gynnwys dylunio, cynllunio a darparu prosiectau seilwaith mawr e.e. deuoli'r A4119 yng Nghoed Elái, Ffordd Gyswllt Porth Gogledd Cwm Cynon, Ffordd Osgoi Llanharan a gwaith atgyweirio pontydd; • i gyflawni Prif Brosiectau Seilwaith Economaidd a Buddsoddi mewn Trafnidiaeth (Metro, ac ati), gwella isadeiledd ein priffyrdd gan gynnwys gosod arwyneb newydd ar ffyrdd a throedffyrdd a gwneud atgyweiriadau angenrheidiol i bontydd, a pharhau â gwaith lliniaru llifogydd; • i sicrhau parcio diogel i'n trigolion, yn enwedig wrth i siopau ailagor ar ôl y cyfyngiadau ar symud; • i gyflawni a rheoli gofynion gwasanaethau cludiant i deithwyr dan gontract y Cyngor yn ddiogel, yn enwedig ar gyfer ysgolion a thrafnidiaeth gymunedol.
<p>Sicrhau bod y Fwrdeistref Sirol yn un o'r lleoedd mwyaf diogel yng Nghymru, gyda lefelau uchel o gydlyniant cymunedol a lle mae trigolion yn teimlo'n ddiogel trwy....</p>	<ul style="list-style-type: none"> • ailddechrau gwasanaethau wyneb yn wyneb ar gyfer... <ul style="list-style-type: none"> ○ cyfarfodydd cymorth cleientiaid y gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau; ○ cyfarfodydd â chleientiaid Ymgynghorwyr Trais yn y Cartref Annibynnol a chymorth 'galw i mewn' yng Nghanolfan Oasis; • parhau i weithio mewn partneriaeth i sicrhau bod trigolion RhCT yn ddiogel.
<p>Cael y gorau o'n parciau trwy edrych ar ôl a buddsoddi yn ein lleoedd gwyrdd trwy....</p>	<ul style="list-style-type: none"> • cynyddu bioamrywiaeth ar draws RhCT • rheoli effaith difrod llifogydd yn ein parciau a'n mannau agored gan gynnwys <ul style="list-style-type: none"> ○ ailagor Lido Pontypridd yn 2021 a ○ cwblhau'r gwaith i atgyweirio/ailadeiladu Parc Coffa Ynysangharad • parhau i fuddsoddi mewn meysydd chwarae, caeau chwaraeon ac adeiladau parciau, gan annog pobl i ddefnyddio mannau gwyrdd ar gyfer gweithgaredd corfforol.

Mae rhagor o fanylion am ein cynlluniau ar gyfer 2020/21 yn ein [Cynllun LLEOEDD](#)

Edrych y tu hwnt i 2021 ar gyfer **LLEOEDD**

Yr Amgylchedd

- Yn ôl amcangyfrifon o allyriadau nwyon tŷ gwydr byd-eang yn y dyfodol, mae modd i Gymru weld cynnydd blynyddol mewn tymheredd o rhwng 0.1°C a 1.5°C ar gyfartaledd erbyn 2039.
[Ffynhonnell: Rhaqamcanion Hinsawdd y DU](#)
- Mae modd i Gymru hefyd weld cynnydd mewn glawiad o 4% yn ystod y gaeaf a gostyngiad o 10% yn yr haf dros yr un cyfnod. [Ffynhonnell: Rhaqamcanion Hinsawdd y DU](#)

Cludiant

- Erbyn 2030, mae disgwyl i nifer y milltiroedd sy'n cael eu teithio ar ffyrdd yng Nghymru gynyddu o leiaf 5.7% (1.02 biliwn milltir) o waelodlin 2017.
[Ffynhonnell: Yr Adran Drafnidiaeth](#)
- *Os bydd y tueddiadau cyfredol yn parhau, mae modd i nifer y Cerbydau Allyriadau Isel lawn sydd wedi'u cofrestru yn RhCT gynyddu 36% o 665 yn 2020 i 901 erbyn 2025.*
[Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru](#)

Ynni a Gwastraff

- Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y nod o gael 70% o ynni o ffynhonnellau adnewyddadwy erbyn 2030.
[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru](#)
- Rhagwelir y bydd y galw am ynni yng Nghymru yn codi rhwng 14% a 68% erbyn 2035, o waelodlin 2014.
[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru](#)

FFYNIANT - mae ein cynlluniau ar gyfer 2020/21 yn cynnwys:

<p>Buddsoddi yn ein canol trefi, dod â swyddi a chartrefi i ganol ein trefi i greu lleoedd bywiog, ffyniannus y mae pobl eisiau byw, gweithio a chymdeithasu ynddyn nhw drwy.....</p>	<ul style="list-style-type: none"> • gweithio gydag aelodau o'r gymuned fusnes i'w helpu i gwrdd â heriau a chyfleoedd newydd, gan gynnwys datblygu grantiau i gynorthwyo busnesau i adfer ac ailffocysu yn dilyn effaith Covid-19 ac annog busnesau lleol i ddefnyddio cyflenwyr lleol; • cyflwyno rhaglen o ddatblygiadau eiddo allweddol yng nghanol trefi gan arwain at ddyfodol mwy cynaliadwy fel y rhai yn Stryd Dunraven Tonypany, Stryd Hannah y Porth, Neuadd y Dref Aberpennar a'r Llew Du yn Aberdâr.
<p>Cyflawni cynlluniau adfywio a thrafnidiaeth mawr, gwneud y gorau o Fetro De Cymru newydd, i greu lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddyn nhw, gan amddiffyn a gwella'r Fwrdeistref Sirol drwy....</p>	<ul style="list-style-type: none"> • creu buddsoddiad a swyddi lleol cynaliadwy trwy fuddsoddiad ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys darparu unedau busnes newydd yn Nhresalem, Aberdâr a pharc busnes Coed Elái, cwblhau prosiect Llys Cadwyn a phont droed i Barc Ynysangharad ac ailddatblygu safle'r hen neuadd Bingo ym Mhontypridd; • datblygu Hwb Trafnidiaeth integredig newydd yn y Porth er mwyn cael gwell cysylltiadau rhwng bysiau a threnau; • cefnogi cyflwyno prosiectau twristiaeth mawr fel tŵr 'Zip World' a datblygu strategaeth llety i annog ymwelwyr i aros yn hirach; • datblygu Parc Gwledig Cwm Dâr a Pharc Coffa Ynysangharad yn byrth Darganfod Parc Rhanbarthol y Cymoedd, gan ddarparu cyfleusterau ac atyniadau newydd i drigolion ac ymwelwyr; • ailddatblygu adeilad yr YMCA ym Mhontypridd yn ganolbwynt ar gyfer menter gymdeithasol a gweithgaredd celfyddydol cymunedol a cheisio cyllid i ddatblygu canolbwynt diwylliannol yn Nhreorci, gan adeiladu ar safle'r theatr a'r llyfrgell bresennol; • ailddatblygu Adeiladau Rhydychen, Aberpennar ar gyfer defnydd preswyl newydd gan gynnwys byw â chymorth.
<p>Sicrhau bod gyda ni ysgolion da fel bod modd i bob plentyn gael addysg wych trwy....</p>	<ul style="list-style-type: none"> • cefnogi lleoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion i ddarparu cyfuniad o ddysgu ar y safle a dysgu o bell, gan gynnwys sicrhau bod gan bob disgybl fynediad i'r dechnoleg sydd ei hangen arnyn nhw i wneud eu gwaith; • cefnogi disgyblion i ddychwelyd i ysgolion yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru a chefnogi lles ac anghenion dysgu ychwanegol ein holl ddisgyblion; • parhau i fuddsoddi yn adeiladau a chyfleusterau ein hysgolion trwy ein rhaglen Ysgolion y 21^{ain} Ganrif.
<p>Cynyddu nifer y cartrefi o ansawdd da sydd ar gael ac sy'n fforddiadwy er mwyn</p>	<ul style="list-style-type: none"> • blaenoriaethu tai yn ôl angen mewn ymateb i Covid-19 gan gynnwys pobl sy'n ddigartref, llety dros dro a chymorth landlord a datblygu Cynllun Adfer ar gyfer Digartrefedd;

darparu mwy o ddewis o ran tai i drigolion trwy...	<ul style="list-style-type: none"> parhau i gefnogi datblygiad cartrefi fforddiadwy newydd trwy weithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a chefnogi prosiectau trwy gyllid grant.
Helpu pobl i gael gwaith a swyddi sy'n talu'n well trwy...	<ul style="list-style-type: none"> parhau i roi cymorth i helpu pobl yn ôl i'r gwaith, gan gynnwys datblygu darpariaeth ddigidol/o bell; cynyddu nifer y prentisiaethau a hyfforddeion graddedig ar draws gwasanaethau'r Cyngor i gefnogi pobl ifanc ar ddechrau eu gyrfaedd.

Mae rhagor o fanylion am ein cynlluniau ar gyfer 2020/21 yn ein [cynllun FFYNIANT](#).

Edrych y tu hwnt i 2021 ar gyfer **FFYNIANT**....

<p>Cyflogaeth a Sgiliau</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae disgwyl i gyfanswm y bobl sydd mewn cyflogaeth yng Nghymru gyrraedd 1.466 miliwn erbyn 2024, sef 4.9% o gynnydd o'r 1.397 miliwn a gyflogwyd yn 2019 Ffynhonnell: Dyfodol Gwaith 2014 – 2024 a StatsCymru Rhwng 2019 a 2024, bydd Cymru yn gweld llai o swyddi mewn Peirianeg, Amaethyddiaeth a Gweithgynhyrchu. Mae disgwyl i'r nifer o swyddi ym meysydd Cyllid ac Yswiriant, Technoleg Gwybodaeth ac Iechyd a Gwaith Cymdeithasol gynyddu Ffynhonnell: Amcanestyniadau marchnad lafur UKCES ar gyfer Cymru: 2014 i 2024 <p>Addysg</p> <ul style="list-style-type: none"> Disgwylir i gyfanswm nifer y disgyblion yng Nghymru gynyddu 1.36% rhwng 2018 a 2028, a rhagwelir y cynnydd mwyaf yn nifer y myfyrwyr dros 16 oed (12.31%) Ffynhonnell: StatsCymru. Disgwylir i nifer y bobl yng ngweithlu Cymru heb gymhwyster ostwng o 3% i 2% rhwng 2019 a 2024, tra bydd gan 70% o'r gweithlu yn 2024 gymwysterau ar Safon Uwch/cyferwerth neu'n uwch, 65% yn uwch na 2019. Ffynhonnell: Amcanestyniadau marchnad lafur UKCES ar gyfer Cymru: 2014 i 2024 <p>Tai</p> <ul style="list-style-type: none"> Rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd yn RhCT yn cynyddu 5.7% erbyn 2028. Bydd gan RCT hefyd un o'r codiadau uchaf yng Nghymru yn y nifer o aelwydydd un person, cynnydd o 13.3% Ffynhonnell: Amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol ar gyfer Cymru. <p>Yr Economi</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r gwahaniaeth mewn cyflog rhwng y sawl sy'n cael y cyflogau uchaf a'r isaf yn debygol o dyfu ledled y DU hyd at 2030. Mae'r gwahaniaeth mewn cyflog yng Nghymru yn is na gweddill y DU a rhagwelir y bydd hyn yn parhau hyd at 2030. Ffynhonnell: UKCES Dyfodol Gwaith yng Nghymru. Yn seiliedig ar ragfynegiadau gan y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus, bydd economi'r DU £55 biliwn yn llai erbyn 2030 nag y byddai wedi bod heb Brexit. Yn yr achos gwaethaf, gallai aelwydydd fod hyd at £1,700 y flwyddyn yn dlotach bob blwyddyn. Ffynhonnell: Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus.
--

Darparu ar gyfer y dyfodol

Ers nifer o flynyddoedd, mae Cyngorwyr wedi wynebu heriau ariannol sydd wedi golygu eu bod wedi gorfod gwneud dewisiadau a phenderfyniadau anodd. Mae'r dewisiadau a'r penderfyniadau yma wedi caniatáu i'r Cyngor flaenoriaethu gwasanaethau, yn enwedig i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed, ac ar yr un pryd wneud yr arbedion sydd eu hangen i fantoli'r llyfrau. Rydyn ni'n lleihau ein strwythurau rheoli a'n gweinyddiaeth yn barhaus, yn dod o hyd i ffyrdd newydd o weithio mewn partneriaeth â Chynghorau a chyrff cyhoeddus eraill a gwneud gwell defnydd o'r adeiladau a'r gofod swyddfa sydd gyda ni yn ogystal â chynyddu ein defnydd o dechnoleg i'n helpu i fod yn fwy hyblyg ac i weithio'n gallach.

Rydyn ni wedi cyflawni'r newidiadau yma oherwydd ein bod ni'n edrych yn barhaus i weld lle bydd modd i ni wneud pethau'n wahanol neu'n well a lle mae modd i ni gael gwell gwerth am ein harian. Rydyn ni'n gofyn i'n trigolion a'n staff am eu syniadau, rydyn ni'n defnyddio'r holl adborth rydyn ni'n ei dderbyn o arolygiadau ac archwiliadau ac rydyn ni'n dysgu oddi wrth sefydliadau sy'n cyflawni orau yn eu meysydd eu hunain. Rydyn ni hefyd [yn adolygu ac yn herio pob gwasanaeth](#) y mae'r Cyngor yn ei ddarparu yn rheolaidd i weld sut a ble mae modd iddo wella. Mae hyn yn golygu ein bod ni'n effro i'n cryfderau a'r meysydd sydd angen i ni'u gwella a bod modd i ni ymateb i newid yn gyflymach a pharhau i ddarparu gwasanaethau o safon uchel gyda llai o adnoddau, sy'n cynnwys llai o reolwyr a staff. Rydyn ni'n parhau i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau cyfyngedig drwy weithio gydag eraill lle mae hynny'n gwneud synnwyr. Drwy barhau i herio'r hyn rydyn ni'n ei wybod am ein gwasanaethau ac anghenion ein trigolion a'n cymunedau, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, mae modd i ni ddeall yn well sut mae angen i ni newid a'r hyn sydd angen i ni'i newid. Mae hyn yn ein helpu ni i sicrhau ein bod ni'n canolbwyntio ar wella'r hyn sydd bwysicaf nawr a hefyd sicrhau y bydd modd diwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio mewn partneriaethau gyda chyrff cyhoeddus eraill, er enghraifft, Cynghorau eraill, Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg, Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, y Trydydd Sector a sefydliad Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae modd i chi weld enghreifftiau o sut rydyn ni'n gweithio gyda phobl ar [ein gwefan](#). Mae rhai o'r partneriaethau wedi'u sefydlu oherwydd ein bod ni o'r farn bod modd i ni ddarparu gwasanaethau gwell gyda'n gilydd, a hefyd oherwydd does dim modd i un sefydliad fynd i'r afael â rhai problemau ar ei ben ei hun.

Cydnabu Llywodraeth Cymru hefyd werth gweithio mewn partneriaeth ac mae wedi rhoi deddfau ar waith sy'n cyfarwyddo cyrff cyhoeddus i weithio gyda'i gilydd, er enghraifft, [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) sy'n cael ei disgrifio'n fanylach yn adran 16.

Deddf arall sy'n cyfarwyddo sut rydyn ni'n gweithio yw [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#). Mae'r Ddeddf yma'n rhoi mwy o bwyslais ar lais y bobl o ran y gofal maen nhw'n ei dderbyn. I wneud hyn, mae'r Ddeddf yn gofyn i Gynghorau weithio mewn partneriaeth gyda Byrddau Iechyd a'r Trydydd Sector i weithio gyda'i gilydd yn well er mwyn gwella lles oedolion a phlant sydd angen gofal a chymorth, yn ogystal â'u cynhalwyr (gofalwyr). I wneud hyn, yn RhCT rydyn ni bellach yn gweithio yn rhan o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg, a

ffurfiwyd ar 1 Ebrill 2019 pan unwyd ardal Pen-y-bont ar Ogwr ag Ardal Bwrdd Iechyd Cwm Taf i ffurfio Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg.

Mae [Cynllun Ardal Llesiant](#) yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol a roddwyd ar waith gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol blaenorol Cwm Taf yn dal i fod ar waith ond bydd yn cael ei ddiweddarau er mwyn cael cynllun newydd ar gyfer Cwm Taf Morgannwg yn 2023. Mae'n nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud i weithio'n well gyda'n gilydd er budd:

- plant a phobl ifainc
- pobl hŷn
- iechyd/anableddau corfforol
- anableddau dysgu/awtistiaeth
- iechyd meddwl
- nam ar y synhwyrâu
- cynhalwyr sydd angen cefnogaeth
- trais yn erbyn menywod, cam-drin yn y cartref, a thrais rhywiol

gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r canlynol

- pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia
- pobl sydd ag anableddau dysgu
- cynhalwyr, gan gynnwys cynhalwyr ifainc
- Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd
- plant sydd ag anghenion cymhleth o ganlyniad i anabledd neu salwch.

A ninnau'n Gyngor sy'n gweithio ar ein pennau ein hunain yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth gydag eraill, rydyn ni'n ymdrechu'n gyson i wella popeth rydyn ni'n ei wneud fel bydd modd i ni ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig gwell a mwy effeithiol ac effeithlon ar gyfer ein trigolion a'n cymunedau.

Yn ôl yr adroddiad diweddaraf gan Swyddfa Archwilio Cymru (ein rheoleiddiwr annibynnol) ym mis [Medi 2019](#), "mae'r Cyngor yn parhau i fodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus". Mae modd i chi weld hyn ac adroddiadau eraill gan ein harolygwyr ar ein [gwefan](#).

Gwneud y defnydd gorau o'n cyllideb - Torri'r gôt yn ôl y brethyn

Dros y degawd diwethaf, mae Rhondda Cynon Taf, fel pob Cyngor yng Nghymru, wedi gweithredu mewn amgylchedd lle mae llai o adnoddau ochr yn ochr â'r galw a'r costau cynyddol sy'n gysylltiedig â llawer o wasanaethau. Er gwaethaf yr hinsawdd heriol yma, rydyn ni wedi cyflawni dros £96 miliwn mewn arbedion effeithlonrwydd ac wedi cyflawni hyn trwy reoli ein cyllid yn ofalus a blaenoriaethu buddsoddiad, cynllunio ymlaen llaw a newid sut rydyn ni'n gweithio.

Roedd Strategaeth Cyllideb Refeniw 2020/21 yn ystyried gofynion gwariant megis gofynion gwasanaeth newidiol, pwysau chwyddiant a meysydd blaenoriaeth ar gyfer buddsoddiad ychwanegol parhaus ynghyd â'r arian y bydden ni yn ei dderbyn o'n prif ffynhonnell ariannu, Llywodraeth Cymru, o +4.5%. Roedd hyn yn golygu bod angen i ni wneud arbedion o £8.7 miliwn. Roedden ni'n gallu gwneud y rhain o feysydd nad oedden nhw'n effeithio ar wasanaethau rheng flaen er enghraifft dod yn fwy effeithlon o ran sut rydyn ni'n prynu nwyddau a gwasanaethau, ailstrwythuro ac ailgynllunio gwasanaethau trwy fanteisio ar y dechnoleg ddiweddaraf, ac hefyd trwy ddefnyddio grantiau unwaith ac am byth penodol.

Mae'n bwysig nodi, dyrannodd y Strategaeth Gyllideb Refeniw adnoddau ychwanegol i feysydd blaenoriaeth, er enghraifft, cynnydd o 8.5% i ysgolion, sy'n cyfateb i £12.7 miliwn ac roedd, o fewn hyn, yn cydnabod y byddai gofyn am gynllunio effeithlonrwydd lleol ar gyfer ysgolion unigol. Dyrannodd £0.250 miliwn i gefnogi gweithgareddau pellach i ymgysylltu â phobl ifainc i helpu pobl ifainc i gyrraedd eu llawn botensial; £0.050 miliwn i gefnogi darparu pyllau padlo ledled y Fwrdeistref Sirol; a £0.104 miliwn i gefnogi'r gwaith paratoi sy'n ofynnol i ailagor Canolfan Gelf y Miwni (Pontypridd).

Yn rhan o gydbwysu Cyllideb Refeniw'r Cyngor, fe gymeron ni agwedd gyfrifol wrth bennu lefelau Treth y Cyngor. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, cytunwyd ar gynnydd yn Nhreth y Cyngor o 2.85%, y cynnydd isaf yng Nghymru am y drydedd flwyddyn yn olynol. Mae rhagor o fanylion am ein Cyllideb Refeniw o £508.747 miliwn ar gyfer 2020/21 yn yr adroddiad i'r [Cyngor](#) ar 4 Mawrth 2020.

Mae ein trefniadau cynllunio ariannol hefyd yn edrych y tu hwnt i un flwyddyn ariannol ac yn rhagweld lefelau gwariant ac ariannu dros gyfnod o dair blynedd. Amcangyfrifodd ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019 ar gyfer y cyfnod 2019/20 i 2022/23, y bydd angen i ni ddod o hyd i arbedion pellach o oddeutu £39 miliwn erbyn 2022 i ateb y galw cynyddol am wasanaethau, yn enwedig gofal cymdeithasol a gostyngiadau mewn cyllid mewn termau real. Rydyn ni'n gwybod y bydd yn anoddach i wneud arbedion flwyddyn ar ôl blwyddyn yn y dyfodol. Felly, dyma pam rydyn ni'n parhau â'n dull o archwilio pob rhan o gyllideb y Cyngor ochr yn ochr â rhaglen o fuddsoddiad sylweddol mewn gwasanaethau allweddol. Mae ein gwaith a'n buddsoddiad yn parhau i ganolbwyntio ar y canlynol:

- Ymyriadau cynnar a gwaith ataliol mewn ystod eang o feysydd er mwyn gwella bywydau trigolion. Mae hyn yn cynnwys ein Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd, Rhaglen Teuluoedd Cydnerth a'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid.
- Cadw oedolion yn annibynnol, trwy, er enghraifft, weithio gyda phartneriaid i ddarparu'r gwasanaeth rhanbarthol Aros yn Iach Gartref, gan ddarparu addasiadau i'r cartref, cefnogaeth

i gynhalwyr a chynnwys trigolion hefyd wrth lunio gofal cymdeithasol dros y tymor hwy mewn meysydd megis darpariaeth Gofal Ychwanegol.

- Buddsoddi yn ein canol trefi a'i gwneud hi'n bosibl defnyddio eiddo gwag unwaith eto er mwyn cefnogi darparu tai o safon uchel ac i greu incwm o Dreth y Cyngor.
- Cynnig rhagor o wasanaethau ar-lein a chynnwys cwsmeriaid wrth ddylunio gwasanaethau a pharhau i ddefnyddio technoleg ddigidol i foderneiddio sut mae'r Cyngor yn gweithio.
- Meddwl yn y tymor hwy a buddsoddi yn y dyfodol trwy wella'r seilwaith priffyrdd i leihau costau cynnal a chadw parhaus a chynlluniau effeithlonrwydd ynni buddsoddi-i-arbed sy'n lleihau'r defnydd o ynni yn adeiladau'r Cyngor.


Ers cyhoeddi Cynllun Ariannol Tymor Canolig diweddaraf y Cyngor ym [mis Gorffennaf 2019](#), mae digwyddiadau digynsail Storm Dennis a dechrau pandemig Covid-19 wedi digwydd. Mae effaith y ddau ddigwyddiad wedi bod yn sylweddol ac mae dull cadarn y Cyngor o reoli a chynllunio ariannol yn cefnogi parhau i ddarparu ystod o wasanaethau pwysig i drigolion a busnesau ynghyd â sicrhau bod iechyd a sefydlogrwydd ariannol y Cyngor yn cael eu cynnal. Bydd y dull yma'n sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol y Cyngor yn cael ei hadrodd yn rheolaidd yn ystod 2020/21. Bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i sicrhau cyllid i dalu costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â Storm Dennis a Covid-19, a diweddarau ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig y bwriedir ei gyhoeddi yn hydref 2020.

Yn cyd-fynd â hyn, rydyn ni'n buddsoddi £132 miliwn yn rhan o'n rhaglen gyfalaf 3 blynedd ar gyfer 2020/21 - 2022/23 mewn meysydd o flaenoriaeth i wella'r seilwaith a'r cyfleusterau sydd ar gael i drigolion ymhellach. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau adfywio, gwella adeiladau a chyfleusterau ysgolion, gwella darpariaeth gofal cymdeithasol i oedolion trwy raglen hirdymor o greu cyfleusterau gofal ychwanegol newydd, gwella cyflwr ffyrdd ac asedau cymunedol fel parciau a meysydd chwarae, a rhaglen o waith lliniaru llifogydd. Byddwn ni'n parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid dros y cyfnod yma i sicrhau ein bod ni'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau ac yn manteisio ar bob cyfle i ddenu unrhyw gyllid ychwanegol a fydd ar gael yn y dyfodol.

Yn rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd mae'r Cyngor hefyd yn chwarae rhan ganolog wrth gyflawni cynllun tymor hir cyffrous ac uchelgeisiol i wella economi De Ddwyrain Cymru.

Gweithio nawr er Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i wella lles cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol ei drigolion a chyfrannu at y saith Nod Llesiant cenedlaethol. Mae'r gyfraith Gymreig yma'n gofyn i bob Cyngor a llawer o gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i newid yr hyn maen nhw'n ei wneud a sut maen nhw'n cynnal busnes fel y gallan nhw wneud y gwelliannau yma. Rydyn ni'n gweithio'n galed i ymgorffori'r hyn mae'r gyfraith yn gofyn i ni ei wneud, ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud. Bydd blaenoriaethau newydd y Cyngor a'i Amcanion Llesiant, POBL, LLEOEDD a FFYNIANT a nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol newydd y Cyngor, a gymeradwywyd gan y [Cyngor yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth](#), yn helpu i gyfarwyddo sut rydyn ni'n gwella lles ein trigolion, gan ddilyn yr un cyfeiriad â'n Cynllun cyntaf.



Mae'r Ddeddf hefyd yn dweud wrthon ni fod yn rhaid i ni wneud y mwyaf o'n cyfraniadau at y saith nod cenedlaethol trwy gymhwyso 5 Ffordd o Weithio fel ein bod ni'n

- cydbwysu'r anghenion tymor byr â chynllunio ar gyfer y dyfodol
- gweithio gyda phartneriaid eraill i gyflawni ein hamcanion
- cynnwys pobl eraill sydd â buddiant yn ein gwaith a cheisio eu barn
- defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu
- cymharu effaith ein gwaith ag effaith cyrff a sefydliadau cyhoeddus eraill.

Mae modd i chi weld llawer o enghreifftiau o sut rydyn ni wedi defnyddio'r Ffyrdd o Weithio trwy gydol yr adroddiad yma.

Mae'r gyfraith hefyd yn golygu bod angen i ni feddwl mwy am y gwasanaethau hynny sydd y tu ôl i'r llenni fel eu bod nhw hefyd yn gweithio mewn ffordd sy'n ein helpu i lwyddo i gyflawni ein cynlluniau ac i fodloni'r gofynion llesiant. Mae'r gwasanaethau 'swyddfa gefn' yma'n rhoi'r gefnogaeth orau bosibl i'n gwasanaethau rheng flaen. O ganlyniad, mae modd i ni fel Cyngor barhau i ganolbwyntio a chyflawni ein blaenoriaethau cyn gynted ag sy'n ofynnol ac i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Mae gwaith y gwasanaethau 'swyddfa gefn' yma'n cael eu disgrifio gan y Ddeddf fel "Gweithgareddau Craidd" sydd "yn debygol o sicrhau'r math o newid sy'n ofynnol" yn fwyaf effeithiol. Mae modd gweld ein cynnydd yn y gweithgareddau yma isod.

Gweithgareddau Craidd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Cynnydd RhCT
Cynllunio Corfforaethol	<p>Ym mis Mawrth 2020, cytunodd y Cyngorwyr y dylid ystyried y blaenoriaethau newydd yn ein Cynllun Corfforaethol newydd yn amcanion Llesiant. Bydd y Cynllun yma, 'Gwneud Gwahaniaeth' yn llywio ein gwaith rhwng 2020 a 2024. Mae'r penderfyniad yma'n datblygu'r ffordd yr aethom i'r afael â gofynion y Ddeddf yn ein Cynllun Corfforaethol cyntaf yn 2016 ymhellach, drwy ymgorffori'r gofynion yma ym musnes y Cyngor ar bob lefel o'r sefydliad, gan gynnwys y Cynllun Corfforaethol. Mae'r prosesau sy'n sail i'n Cynllun Corfforaethol yn cynnwys ein hasesiadau corfforaethol ac asesiadau o'r gwasanaethau blynyddol sydd hefyd yn ein helpu i weld sut mae'r dull yma'n gweithio ar draws y Cyngor i gyd. Rydyn ni'n ceisio cynyddu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o sut y dylid cymhwyso'r Ddeddf yn barhaus, gan ddysgu o adborth ac arfer da cydnabyddedig.</p>
Cynllunio Ariannol	<p>Rydyn ni'n gwario'n cyllidebau ar yr hyn sydd bwysicaf i drigolion a chymunedau, yn cyfeirio ein hadnoddau i'n meysydd blaenoriaeth ac yn dod o hyd i ffyrdd o weithio sy'n fwy effeithlon, gan weithio'n well gyda phartneriaid a rhannu ein hadnoddau.</p>
Cynllunio'r Gweithlu	<p>Rydyn ni'n hyfforddi ein staff fel eu bod yn parhau â'u datblygiad personol ac yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i helpu'r Cyngor i wella. Rydyn ni o'r farn bod lles corfforol a meddyliol ein staff yn allweddol i weithlu llawn cymhelliant ac yn sicrhau ein bod ni'n eu cefnogi cystal ag y bo modd. Rydyn ni hefyd yn edrych i'r dyfodol, er enghraifft, gyda'n rhaglen i raddedigion a'n rhaglen brentisiaeth a enillodd wobr yng Ngwobrau Prentisiaeth Cenedlaethol Cymru yn 2018. Rydyn ni am sicrhau bod ein trigolion hefyd yn gallu datblygu eu sgiliau fel y gallan nhw fanteisio ar gyfleoedd gwaith a chyfleoedd digidol felly rydyn ni hefyd yn sefydlu gweithgareddau i'w helpu, er enghraifft, Dydd Gwener Digidol, cyfleoedd i gymryd rhan mewn prosiectau rhwng cenedlaethau a'u cefnogi i gynnal gwasanaethau a chyfleusterau yn rhan o 'RhCT Gyda'n Gilydd'.</p>
Caffael	<p>Rydyn ni'n sicrhau bod unrhyw beth rydyn ni'n ei brynu i'r Cyngor yn cynnig gwerth am arian, o fudd i'r gymdeithas ac yn cael cyn lleied o effaith â phosibl ar yr amgylchedd. Rydyn ni hefyd yn sicrhau bod ein polisïau yn ystyried cyfrifoldebau cymdeithasol eraill, er enghraifft, hyrwyddo gwrth-gaethwasiaeth, defnyddio cynhyrchion Masnach Deg a phrynu trydan sy'n cael ei gynhyrchu o ffynonellau ynni sydd 100% yn adnewyddadwy. Mae'r trefniadau rydyn ni wedi'u rhoi ar waith gyda'n prif gontractwyr pan maen nhw'n gweithio ar ein cytundebau wedi darparu swyddi i 139 o bobl yn 19/20.</p>

Gweithgareddau Craidd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Cynnydd RhCT
Rheoli ein Hasedau	Rydyn ni'n sicrhau ein bod ni'n gwneud y defnydd gorau o'n hadeiladau er budd ein trigolion a'n cymunedau, er enghraifft, defnydd cymunedol o'n hysgolion, a hefyd yn darparu'r offer sydd eu hangen ar staff fel y gallan nhw dreulio rhagor o amser gyda thrigolion, cymunedau a busnesau. Rydyn ni'n rhannu gofod swyddfa gyda sefydliadau eraill lle mae'n gwneud synnwyr i wneud hynny, er enghraifft, mae Plaza'r Porth yn cynnwys llyfrgell, cyfleusterau gofal plant, busnesau hyfforddi preifat a'n canolfan IBobUn. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda phartneriaid yn y Sector Cyhoeddus i weld sut y gallwn ni wella gwasanaethau, gwneud gwell defnydd o adeiladau'r holl bartneriaid a lleihau costau o ganlyniad i hynny. Yn fwy diweddar, bu rhaid i 3,000 o staff weithio gartref o ganlyniad i Covid-19, a chafodd pob un eu cefnogi i wneud hynny, a byddwn yn dysgu'r gwersi o weithio gartref ac ati i gynllunio'r defnydd o ofod swyddfa yn y dyfodol. Mae'r holl waith yma hefyd yn ystyried ein hymgyrch i ddarparu gwasanaeth cwbl ddi-garbon.
Rheoli risgiau	Rydyn ni'n nodi risgiau tymor byr, canolig a hir y bydd angen eu lliniaru er mwyn ein helpu i gyflawni ein Blaenoriaethau Corfforaethol. Mae'r rhain wedi'u nodi yn ein Cofrestr Risgiau Strategol .
Rheoli ein Cyflawniad	Rydyn ni'n darparu gwybodaeth am yr hyn rydyn ni'n ei wneud, a pha mor dda rydyn ni'n ei wneud e, ar ein gwefan. Mae'r adroddiad yma yn un o'r ffyrdd rydyn ni'n gwneud yr wybodaeth yma'n fwy hygyrch i bobl, i gymunedau ac i'n partneriaid. Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod popeth rydyn ni'n ei wneud yn canolbwyntio ar y pethau mae pobl wedi dweud wrthon ni sy'n bwysig iddyn nhw ac rydyn ni'n parhau i ddod o hyd i ffyrdd newydd a gwahanol o gynnwys trigolion a chymunedau yn ein gwaith ac yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Rydyn ni parhau i edrych am ffyrdd newydd i rannu data perthnasol gyda'n partneriaid er mwyn ein helpu i wella'r holl wasanaethau cyhoeddus yn RhCT a hefyd i atgyfnerthu'r wybodaeth sydd ar gael gennyn ni. Rydyn ni hefyd yn parhau i lobio cyrff cenedlaethol, e.e. Data Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Llywodraeth Cymru i wella mynediad at ystod ehangach o wybodaeth gyson, amserol a pherthnasol am Dueddiadau'r Dyfodol a fydd yn ein helpu gyda'n cynllunio tymor hir.

Drwy gydol yr adroddiad yma, rydyn ni'n dangos sut mae'r Ddeddf wedi'i hymgorffori yn ein gwaith. Rydyn ni wedi defnyddio'r Ddeddf i weld lle y gallwn ni wneud yn well, ac wedi defnyddio adnoddau sy'n cael eu datblygu gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ddarparu cefnogaeth a her berthnasol wrth i ni barhau i wreiddio'r Ddeddf yn nhrefniadau a phrosesau'r Cyngor.

Rydyn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud cynnydd cadarnhaol a bod rhagor i'w wneud bob amser wrth i ni gynllunio ar gyfer cyflymder a graddfa'r newidiadau sy'n wynebu'r Cyngor a phob corff

cyhoeddus yng Nghymru a chadw'n gyfwasad â nhw. Dyma pam rydyn ni'n parhau i holi pam, beth a sut rydyn ni'n gwneud yr hyn rydyn ni'n ei wneud fel bydd modd i ni wneud newidiadau a fydd o fudd i bobl a chymunedau Rhondda Cynon Taf, yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r gwaith yma wedi cael ei brofi ac mae'n parhau i gael ei brofi gan y gwaith parhaus i gwrdd â'r heriau sy'n ein hwynebu oherwydd effaith Covid-19.

Yn ystod 2019, cawsom olwg annibynnol ar ein cynnydd hyd yma drwy Reoleiddwyr Archwiliad Cymru. Cawsom y farn annibynnol yn dilyn dau adolygiad 'Tracer' mewn dau faes gwasanaeth gwahanol dros y 18 mis diwethaf, i ddangos sut mae'r Ddeddf yn cael ei chymhwyso. Cafodd yr adolygiadau eu cynnal yn y Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref a'r Gwasanaethau Hamdden. Mae'r adborth gan Archwilio Cymru yn yr adolygiadau yma wedi rhoi'r hyder i ni weld ein bod ni ar y trywydd iawn.

Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref – Edrychodd yr adolygiad yma ar sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a dulliau ataliol, gan roi dewis, rheolaeth ac annibyniaeth i bobl hŷn a phobl sy'n agored i niwed.

Mae'r canfyddiadau'n nodi llawer o agweddau cadarnhaol yn ogystal â rhai meysydd i'w gwella. Yn gyffredinol, cafodd y canlynol ei nodi yn yr adolygiad:

“Mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu a gweithredu'r modelau gwasanaeth yn y gymuned newydd, ac mae'n cydnabod nifer o feysydd lle gellid ymgorffori'r pum ffordd o weithio ymhellach.

Gwasanaethau Hamdden – Edrychodd yr adolygiad ar sut mae'r Cyngor yn darparu buddsoddiadau â blaenoriaeth ar gyfer cyfleusterau hamdden er mwyn cynyddu'r cyfranogiad mewn ymarfer corff a thrwy hynny, gyfrannu at wella iechyd a lles trigolion.

Mae'r canfyddiadau'n nodi llawer o agweddau cadarnhaol yn ogystal â rhai meysydd i'w gwella. Yn gyffredinol, cafodd y canlynol ei nodi yn yr adolygiad:

“Mae yna enghreifftiau amlwg o sut mae'r Cyngor yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'r buddsoddiad mewn cyfleusterau hamdden, ond mae cyfleoedd i gryfhau cynllunio tymor hir a chynnwys pobl wrth lunio darpariaeth hamdden ar gyfer y dyfodol.”

Rydyn ni'n falch bod ein gwaith hyd yma wedi cael ei gydnabod yn gadarnhaol gan ein Rheoleiddiwr annibynnol. Rydyn ni hefyd yn gwybod bod angen i ni barhau i sicrhau bod y Ddeddf wedi'i hintegreiddio'n llawn yn ein holl brosesau a chynlluniau, gan gynnwys y gwaith i lunio'r cynlluniau manwl sy'n cefnogi cyflawni'r blaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol newydd.

Er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau fel Cyngor yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn ni'n parhau i wneud y canlynol:

1. defnyddio cyngor, arweiniad ac adborth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Archwiliad Cymru ac arfer gorau i barhau i wreiddio'r Ddeddf yn ein gwaith, yn ogystal â lobio am ragor o gefnogaeth genedlaethol lle bo angen.
2. defnyddio'r hyn rydyn ni'n ei ddysgu o'n prosiectau peilot yn y Cyngor i brofi ein trefniadau a'u gwella.

3. parhau i weithio gyda chyrrff cenedlaethol, er enghraifft, Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fel y gallwn ni ar y cyd wella sut rydyn ni'n cyfuno'r gwahanol bolisiâu cenedlaethol sydd ar waith.
4. gweithio gyda phartneriaid cenedlaethol i ddod o hyd i wybodaeth fwy cadarn a chyson am dueddiadau'r dyfodol a fydd yn ein helpu i wella ein cynlluniau tymor hir.
5. parhau i chwilio am ddatrysiad a fydd yn caniatáu i ni/ein galluogi ni irannu data yn briodol gyda phartneriaid.
6. cyfrannu'n gadarnhaol at Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf a'i gefnogi, yn enwedig wrth weithio ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rydyn ni'n gwybod nad oes modd i ni wneud popeth ein hunain ac mae gyda ni hanes da o weithio gydag eraill. O bartneriaethau adnabyddus fel [Bargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd](#) i bartneriaethau llai, gallwch chi weld rhai enghreifftiau o sut a ble rydyn ni'n gweithio gydag eraill ar dudalen [Gweithio gydag Eraill](#) ar ein gwefan. Mae hefyd llawer o enghreifftiau bob dydd eraill o siarad â chyrrff cyhoeddus eraill a gweithio gyda nhw er mwyn i ni allu goresgyn anawsterau lleol cyffredin yn haws. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda (ac ochr yn ochr â) grwpiau cymunedol lleol i roi cefnogaeth uniongyrchol i drigolion a chymunedau i gyflawni pethau yn eu cymunedau, er enghraifft, drwy ein rhaglen 'RhCT Gyda'n Gilydd', gan eu cefnogi i baratoi cynigion cymunedol ar gyfer cyllid Llywodraeth Cymru.

Serch hynny, mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i weithio mewn partneriaeth fwy ffurfiol gyda chyrrff cyhoeddus eraill mewn Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae hyn yn golygu bod rhaid i wasanaethau cyhoeddus sy'n cwmpasu ardal y Cyngor weithio'n rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a darganfod sut mae modd iddyn nhw wneud y gwahaniaeth mwyaf i bobl a chymunedau drwy weithio'n well gyda'i gilydd.

Gan fod RhCT yn gweithio gyda llawer o'r un cyrrff cyhoeddus â Chyngor Merthyr Tudful, er enghraifft, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Heddlu De Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, yn 2016, fe wnaeth y Cyngorau gytuno i uno er mwyn ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd, sef, [Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf](#), sy'n cynnwys ardaloedd Cwm Taf yn Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Nododd y Bwrdd yma sut y byddai'n cydweithio i wella lles ardal Cwm Taf yn y pedwar Amcan Llesiant. Mae'r amcanion yma wedi'u nodi'n fanylach yn rhan o [Gynllun Llesiant Cwm Taf](#), a gyhoeddwyd yn 2018. Dyma'r pedwar Amcan Llesiant ar gyfer Cwm Taf:

Cymunedau sy'n Ffynnu	sy'n hyrwyddo cymunedau diogel, hyderus, cydnerth a ffyniannus i wella llesiant trigolion a'r ymwelwyr ac adeiladu ar ein hasedau yn y gymuned
Pobl Iachus	helpu pobl i fyw bywyd hir ac iach a goresgyn unrhyw heriau
Economi Gref	meithrin economi leol gref gyda thrafnidiaeth gynaliadwy sy'n denu pobl i fyw, gweithio a chwarae yn ardal Cwm Taf
Mynd i'r afael ag Unigrwydd ac Arwahanrwydd	dod o hyd i ffyrdd newydd o sianelu cryfderau diamheuol ein cymunedau, gan gynnwys gwirfoddoli i fynd i'r afael yn fwy effeithiol â'r unigrwydd a'r arwahanrwydd sydd yn aml yn bodoli mewn llawer ohonyn nhw.

Y Cyngor yw'r partner arweiniol ar gyfer yr amcan Cymunedau sy'n Ffynnu ac mae hefyd yn cymryd rhan weithredol yn y tri Amcan Llesiant arall. Mae modd i chi weld rhagor o wybodaeth am waith

y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'i gynnydd ar ei [wefan](#). Mae'r ffordd rydyn ni'n gweithio gyda'n partneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cael ei disgrifio drwy gydol yr adroddiad yma. Cyhoeddodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei adroddiad blynyddol cyntaf ym mis [Gorffennaf 2019](#) a chyhoeddodd adroddiad diweddarau dros dro ym mis [Gorffennaf 2020](#).

Mae uchafbwyntiau'r cyflawniadau a nodwyd yn yr adroddiad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus diweddaraf yn cynnwys

- Lansio Addewid Cyflogadwyedd Cwm Taf – er mwyn rhannu gwybodaeth â'r holl bartneriaid i ehangu cyfleoedd i drigolion a staff wirfoddoli, dod o hyd i brofiad gwaith a swyddi ar draws y cyrff cyhoeddus.
- Agor dwy Ganolfan yng Nghwm Taf sy'n cael eu cefnogi gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Y ddwy ganolfan yw [Calon Las](#) yn y Gurnos, Merthyr Tudful, a [Hwb Glynrhedynog](#) yng Nglynrhedynog yn Rhondda Cynon Taf. [Hwb Glynrhedynog](#) yw un o'r Canolfannau sy'n cael eu cyflwyno ledled RhCT i gyflawni ymrwymiad y Cyngor i weithio'n agosach gyda chymunedau. Mae'r gwaith yma'n cael eu disgrifio'n fanylach yn [adran 6 - LLE](#).
- Gwneud cynnydd wrth nodi teuluoedd yng Nghwm Taf sy'n agored i niwed yn gynnar er mwyn iddyn nhw gael yr help sydd ei angen arny'n nhw cyn bod sefyllfa'n troi'n argyfwng.

Ers sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf, mae ardal Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymuno â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf i ffurfio Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (CTM). Er nad oes unrhyw gynlluniau manwl ar waith i ehangu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf i adlewyrchu'r newidiadau yn ffiniau'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd, mae ymrwymiad i weithio'n rhanbarthol ac integreiddio gwaith y gwahanol Fyrddau Partneriaeth, e.e. y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yn well er mwyn gwneud gwell defnydd o adnoddau'r bartneriaeth. Yn y cyfamser, bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf a Phen-y-bont ar Ogwr yn gweithio gyda'i gilydd i baratoi [Asesiad Llesiant](#) ar y cyd i gwmpasu ardal Cwm Taf Morgannwg. Bydd yr asesiad yma'n diweddarau ac yn disodli'r Asesiadau gafodd eu cynnal ar wahân a'u cwblhau yn 2017 ar gyfer y ddwy ardal. Bydd y gwaith yma'n gyrru ac yn llunio trefniadau newydd a fydd yn dwyn ynghyd y ddau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Cynllun Llesiant ar y cyd newydd o ddechrau 2023.

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd wedi nodi chwe maes blaenoriaeth y mae pobl ledled Cymru wedi dweud wrthi sydd ymhlith yr heriau mwyaf sy'n wynebu'r wlad. Mae modd i weithio ar y meysydd yma gael yr effaith fwyaf.

Dyma'r meysydd:

1. [Sgiliau](#) – mae ein gwaith yn cynnwys sefydlu llwybr cyflogaeth i gynorthwyo pobl i ddatblygu eu sgiliau i gyd-fynd ag anghenion cyflogwyr lleol. Am ragor o fanylion, ewch i adran 4 - **Economi**.
2. [Tai](#) – mae ein gwaith yn cynnwys sicrhau tai newydd, ei gwneud hi'n bosibl unwaith eto i fyw mewn eiddo sydd wedi bod yn wag a rhoi'r cyfle i'n holl drigolion fyw bywydau diogel ac annibynnol mewn llety pwrpasol.
3. [Trafnidiaeth](#) – mae ein gwaith yn cynnwys rhoi llwybrau teithio llesol ar waith a chreu system drafndiaeth gynaliadwy a hygyrch i bawb trwy fuddsoddi mewn cludiant cyhoeddus yn rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ogystal ag ystyried y gofynion o ran seilwaith ar gyfer cerbydau trydan. Am ragor o fanylion, ewch i adran 6 - **Lle**.

4. [Cynllunio](#) – mae ein gwaith yn cynnwys sut y mae modd defnyddio'r broses gynllunio i greu'r lleoedd, cymunedau a seilwaith cywir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rydyn ni hefyd yn edrych ar sut mae modd i'r gwaith ar ein Cynllun Datblygu Lleol newydd ein helpu i wneud hyn. Am ragor o fanylion, ewch i adran 4 - **Economi**. [Bydd sicrhau bod cyfleusterau di-wifr ar gael yng Nghanol y Trefi yn helpu](#) i gefnogi busnesau'r stryd fawr.
5. [Profiadau niweidiol mewn plentyndod](#) – mae ein gwaith yn cynnwys helpu plant a phobl ifainc a'u teuluoedd i ymdopi â'r anawsterau maen nhw'n eu hwynebu drwy, er enghraifft, ein Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth, a darparu cyfleoedd gwaith ar gyfer pobl ifainc sy'n gadael gofal. Am ragor o fanylion, ewch i adran 5 – **Pobl** ac [Adroddiad Interim Gorffennaf 2020 y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus](#).
6. [Ffyrdd Gwell i gadw pobl yn iach](#) – mae ein gwaith yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid ar draws Cwm Taf Morgannwg a dod o hyd i ffyrdd anfeddygol i gadw ein trigolion yn hapusach ac yn iachach. Presgripsiynau Cymdeithasol yw'r enw ar hyn, ac mae'n cynnwys gwirfoddoli, gweithgareddau celfyddydol, dysgu mewn grŵp, garddio, cyfeillio, coginio, cyngor ar fwyta'n iach ac ystod o chwaraeon. Am ragor o fanylion, ewch i adran 5 – **Pobl**.

Dyna rai o'r ffyrdd rydyn ni eisoes yn mynd i'r afael â'r meysydd gwaith. Mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys drwy gydol yr adroddiad yma.

Mae modd i chi rannu eich meddyliau a'ch profiadau ar flaenoriaethau'r Comisiynydd ar y [Llwyfan y Bobl](#) a gweld [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol](#) cyntaf y Comisiynydd, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020. Mae'r adroddiad yn dadansoddi cynnydd yr holl gyrff cyhoeddus sy'n atebol i'r Ddeddf, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, wrth weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ers iddi ddod yn gyfraith yn 2015.

Cydraddoldeb – Bwrdeistref Sirol deg a chyfartal

<p>Poblogaeth RhCT (Amcangyfrif Canol Blwyddyn 2019)</p> <p>Cyfanswm – 241,264 Gwrywod – 118,397 (49%) Benywod – 122,867 (51%)</p>	<p>Data staff RhCT (Mawrth 2019)</p> <p>Mae dros 80% o'r gweithwyr yn byw yn ardal y Cyngor</p> <p>Cyfanswm 10,698 Gwryw 25.6% Benyw 74.4%</p>																					
<p>Ystod oedran</p> <p>0-15 - 44,975- (19%) 16-64 -149,661 (62%) 65+- 46,628 – (19 %) <i>(fffigurau wedi'u talgrynnu i fyfyr/i lawr at ddibenion esboniadol)</i></p> <p>Ffynhonnell: InfoBase Cymru</p> <p>Ethnigrwydd</p> <p>Mae 2.8% o drigolion RhCT yn nodi eu bod yn Ddu, yn Asiaidd neu'n Lleiafrif ethnig.</p>	<table border="1"> <thead> <tr> <th>Grŵp Oedran</th> <th>Cyfanswm</th> <th>% o'r Gweithlu</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>16-24</td> <td>612</td> <td>5.7%</td> </tr> <tr> <td>25-34</td> <td>1,949</td> <td>18.2%</td> </tr> <tr> <td>35-44</td> <td>2,500</td> <td>23.3%</td> </tr> <tr> <td>45-54</td> <td>3,215</td> <td>30.1%</td> </tr> <tr> <td>55-64</td> <td>2,092</td> <td>19.6%</td> </tr> <tr> <td>Dros 65 oed</td> <td>330</td> <td>3.1%</td> </tr> </tbody> </table> <p><i>Mae modd dod o hyd i wybodaeth fanylach am y gweithlu yn yr adroddiad monitro cydraddoldeb blynyddol i'r Cabinet 19 Mawrth 2019.</i></p>	Grŵp Oedran	Cyfanswm	% o'r Gweithlu	16-24	612	5.7%	25-34	1,949	18.2%	35-44	2,500	23.3%	45-54	3,215	30.1%	55-64	2,092	19.6%	Dros 65 oed	330	3.1%
Grŵp Oedran	Cyfanswm	% o'r Gweithlu																				
16-24	612	5.7%																				
25-34	1,949	18.2%																				
35-44	2,500	23.3%																				
45-54	3,215	30.1%																				
55-64	2,092	19.6%																				
Dros 65 oed	330	3.1%																				
<p>Mae 18% o'r holl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn RhCT ymhlith y 10% sydd fwyaf difreintiedig yng Nghymru, tra bod 45% ymhlith y 30% mwyaf difreintiedig. Ystyr <i>Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is</i> yw <i>ardal ddaearyddol fach o boblogaeth o oddeutu 1,500 o bobl</i>. Mae 154 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn RhCT a 1,909 yng Nghymru. Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosoq Cymru 2019.</p>																						
<p>Mae Mynegai Lleoedd Ffyniannus Cymru ar gyfer Cydraddoldeb 2020 yn mesur anghydraddoldebau mewn lechyd, Incwm a Chyflogaeth. Mae data 2020 yn rhoi sgôr o 4.43 allan o sgôr bosibl o 10 i RhCT. Mae'r mesur yn cynnwys llawer o wasanaethau a darparwyr gwahanol ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol ac mae sgôr RhCT wedi gostwng o 5.26 ers iddo gael ei gyflwyno yn 2018.</p>																						

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydyn ni wedi cynnal ein cynnydd da tuag at RhCT teg a chyfartal ac mae modd i ni dynnu sylw at lawer o enghreifftiau cadarnhaol o hyn drwy gydol yr adroddiad yma yn ogystal ag yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb blynyddol a gafodd ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis [Mawrth 2019](#). Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys helpu pobl ag anghenion dysgu ychwanegol i gael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, sicrhau bod ceisiadau am gaffis stryd yn cwrdd â safonau hygyrchedd cyson ac yn parhau i fod yn ystyrlon o gerddwyr a sicrhau bod rhagor o help ar gael, yn ychwanegol i'r hyn a ddarperir gan ysgolion, i bobl ifainc drawsryweddol. Rydyn ni hefyd wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu cefnogaeth a chyfleoedd i bobl ifainc ddigartref neu'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys darparu cyngor a chefnogaeth 1 i 1 i'w helpu i ddatblygu sgiliau er mwyn gallu byw'n annibynnol.

Cafodd ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2019-22](#) ei gytuno ym mis Mai 2019. Yn ein cynllun, fe wnaethon ni ddatgan y byddem yn canolbwyntio ar y pum maes allweddol a nodwyd gan ein trigolion fel meysydd oedd bwysicaf iddyn nhw wrth geisio creu Rhondda Cynon Taf tecach.

fe wnaethon ni ddweud ein bod yn bwriadu...	ac ymhlith pethau eraill, fe wnaethon ni...
ceisio deall anghenion ein cymunedau a'r rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu sy'n eu hatal rhag ffynnu yn well.	<ul style="list-style-type: none"> • datblygu dull newydd o gasglu gwybodaeth monitro cydraddoldeb i'n cwsmeriaid a'n staff. Drwy gasglu gwybodaeth am ein cwsmeriaid, mae gwasanaethau'n gallu ymateb yn well i'w hanghenion a helpu i chwalu'r rhwystrau sy'n eu hwynebu rhag defnyddio gwasanaethau'r Cyngor, e.e. mynd i mewn i adeiladau, defnyddio technoleg, iaith neu argaeledd trafndiaeth. Byddwn ni'n profi ein dull newydd yn y Gwasanaethau Hamdden i weld a yw'n darparu'r wybodaeth gywir ar yr adeg iawn, gan fod gan y gwasanaeth yma gyswllt uniongyrchol â llawer iawn o staff a chwsmeriaid. • gweithio gyda Charfan Lleiafrifoedd Ethnig a Chefnogaeth Ieuencid Cymru ('EYST') i wella sut rydyn ni'n cynnwys pobl ifainc Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. • parhau i weithio gyda Chylch Trafod Materion Anabledd RhCT a'i gynnwys. Eleni, gwnaethon ni ofyn i aelodau'r Cylch am eu barn ar Foderneiddio Gwasanaethau Preswyl a Gofal Oriau Dydd ac Adolygu Dosbarthau Etholiadol, Mannau Pleidleisio a Gorsafoedd Pleidleisio. Mae un aelod o'r Cylch wedi bod yn gweithio'n agos gyda charfanau Priffyrdd y Cyngor i wneud gwelliannau hygyrch i lwybrau troed yn y gymuned.
lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yn ein cymunedau.	<ul style="list-style-type: none"> • parhau i edrych ar sut y mae modd i'n gwasanaethau gynorthwyo pobl i gyrraedd eu potensial yn well, e.e. ym maes addysg, tai a chyflogaeth. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwneud gwybodaeth yn fwy hygyrch i'n holl drigolion.
hyrwyddo cymunedau diogel.	<ul style="list-style-type: none"> • parhau i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o droseddau casineb mewn ysgolion a chodi ymwybyddiaeth o'r angen i roi gwybod am achosion o Droseddau Casineb. Mae hyn wedi'i ddisgrifio'n fanylach yn y <i>gwerthusiad LLE</i>.
lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor.	<ul style="list-style-type: none"> • parhau i ddadansoddi'r bwlch rhwng cyflog dynion a menywod sydd wedi'u cyflogi gan y Cyngor er mwyn i ni ddeall yn well a lleihau'r bwlch cyflog. Rydyn ni'n archwilio sut y gallwn annog rhagor o fenywod i wneud cais am swyddi uwch. Rydyn ni'n parhau i gyflwyno'r Adolygiad Cyflawniad ar gyfer staff er mwyn sicrhau eu bod yn trafod cyfleoedd gyrfa a datblygu gyda'u rheolwr. Bellach mae gyda ni well dealltwriaeth o'r heriau y mae menywod yn eu

fe wnaethon ni ddweud ein bod yn bwriadu...	ac ymhlith pethau eraill, fe wnaethon ni...
	<p>hwynebu wrth ddychwelyd i'r gwaith yn dilyn cyfnod mamolaeth ac rydyn ni'n bwriadu codi ymwybyddiaeth ymhlith rheolwyr ar faterion yn ymwneud â beichiogrwydd a mamolaeth.</p>
<p>creu gweithlu cynhwysol yn y Cyngor sy'n cynrychioli'r gwahaniaethau yn ein cymunedau</p>	<ul style="list-style-type: none"> parhau i ddatblygu ein rhwydweithiau staff a gwella sut rydym yn hyrwyddo ymgyrchoedd cenedlaethol i godi ymwybyddiaeth. Er enghraifft, ar gyfer wythnos Ymwybyddiaeth o Bobl Fyddar ym mis Mai 2019 cyhoeddwyd pethau'n ddyddiol ar fewnrwyd y staff. Roedd yn cynnwys yr wyddor bys, gwybodaeth a ffeithiau am effeithiau colli clyw a ble i gael help. <p>Eleni gwnaethon ni ganolbwyntio ar brofiadau staff i godi ymwybyddiaeth o wahaniaethu, er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ym mis Rhagfyr 2019, ar gyfer 'Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl', gwnaethon ni gynnwys profiad aelod o staff, L, sy'n gynhaliwr i'w thad, sydd ag anabledd. Trwy fod yn aelod o Rwydwaith Anabledd a Chynhalwyr RhCT, mae L yn gallu cael y gefnogaeth a'r hyblygrwydd sydd eu hangen arni yn y gwaith er mwyn ei chaniatáu i ofalu am ei thad. Yn rhan o Fis Hanes LGBT + ym mis Chwefror 2020, fe wnaethon ni gynnwys straeon gan 'Perthyn', ein rhwydwaith staff LGBT+. Mae staff y Cyngor wedi ymddangos yn aml mewn erthyglau yn y Fyne Times, cylchgrawn hoyw a lesbiaidd sydd am ddim yn y DU, yn rhannu eu profiadau o weithio i'r Cyngor. Roedd Diwrnod Amser i Siarad ym mis Chwefror yn ganolbwynt i staff ledled y Fwrdeistref Sirol gael sgysiau am iechyd meddwl heb gael eu barnu. Roedd 'Amser i Siarad' hefyd yn cynnwys un o uwch reolwyr y Cyngor yn rhannu ei brofiad o iechyd meddwl a'r camau i'w helpu i ymdopi. Ar Ddiwrnod Menopos y Byd ym mis Hydref 2019, fe wnaethon ni gynnal 'Te Prynawn' i gefnogi staff, darparu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o symptomau'r menopos yn y gweithle.

Yn ogystal â gweithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd, rydyn ni hefyd wedi

Parhau i gyflawni ein cyfrifoldebau o dan y Cynllun '[Hyderus o ran Anabledd](#)' er mwyn bod y Cyngor fel cyflogwr yn gwneud y mwyaf o'r doniau mae modd i bobl anabl eu cynnig. Mae enghreifftiau o sut rydyn ni'n gwneud hyn yn cynnwys

- darparu addasiadau rhesymol i bobl pan fyddan nhw'n ymgeisio am swyddi ac yn mynd trwy brosesau dethol a hefyd i'n staff tra'u bod mewn gwaith. Ym maes gofal cymdeithasol rydyn ni hefyd yn gweithio gyda'n prifysgolion partner i sicrhau bod gan fyfyrwyr addasiadau rhesymol ar waith ar eu cyfer cyn iddyn nhw ddechrau ar eu lleoliad ymarfer. Mae yna sawl math o addasiadau rhesymol, e.e. sicrhau bod lleoliadau cyfweld yn addas i

ymgeiswyr, darparu'r math cywir o ffôn i weithiwr sy'n defnyddio teclyn clywed, darparu lle parcio i berson ag anabledd neu newid i Bolisi'r Cyngor.

- prynu meddalwedd technoleg '[Browsealoud](#)' a '[Read&Write](#)'. Mae 'Browsealoud' bellach ar gael ar wefan y Cyngor i'w gwneud hi'n haws i bobl gyrchu'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar y wefan, gan wella hygyrchedd i'n holl gwsmeriaid. Mae 'Read&Write' wedi'i gyflwyno ar draws y Cyngor ar gyfer staff sydd angen cymorth ychwanegol i ddarllen ac ysgrifennu.
- parhau i rannu gwybodaeth a diweddariadau perthnasol sy'n ymwneud ag anabledd trwy ein grŵp Swyddogion Materion Anabledd, sy'n rhwydwaith o staff RhCT o bob rhan o'r Cyngor. Mae'r grŵp yn cwrdd bob chwarter a mynychwyd cyfarfod diweddar gan gynrychiolwyr o Drafnidiaeth Cymru i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am system Metro De Cymru. Bu cyfle i drafod rhwystrau hygyrchedd y gallai rhai cwsmeriaid eu hwynebu.
- adolygu ein canllaw hygyrchedd i wella sut rydyn ni'n cyfathrebu â'n cwsmeriaid. Mae hyn yn cynnwys hygyrchedd mewnol, allanol a digidol, gan ganolbwyntio'n benodol ar y gymuned fyddar. Bydd y cam nesaf yn cynnwys ymgysylltu â grwpiau anabledd a grwpiau o bobl fyddar yn ogystal â'n Rhwydwaith Anabledd a Chynhalwyr.
- darparu'r hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd perthnasol diweddaraf i staff Adnoddau Dynol. Rydyn ni'n adolygu'r ystod o hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth rydyn ni'n ei chynnig er mwyn sicrhau bod staff yn derbyn yr hyfforddiant priodol i gefnogi ein cwsmeriaid amrywiol.

parhau â'n hymrwymiad i'r addewid 'Amser i Newid Cymru', rhaglen 'Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall' a 'Mynegai Addysg Cydraddoldeb Stonewall'.

Diwrnodau Amser i Siarad

Mae lleihau'r stigma o amgylch iechyd meddwl yn bwysig i'r Cyngor, gan ein bod am annog diwylliant lle mae staff yn teimlo'n ddigon hyderus i rannu profiadau a gofyn am gymorth pan fo angen. Mae'r diwrnodau Amser i Siarad sy'n cael eu disgrifio uchod yn ffordd hanfodol o godi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ac i annog sgwrsio'n agored am y pwnc.

Rhaglen Pencampwyr Amrywiaeth Stonewall

Cafodd y Cyngor ei gydnabod unwaith eto'n gyflogwr cynhwysol ar restr [100 Cyflogwr Gorau Stonewall](#) 2020, sy'n dangos ein hymrwymiad i gynhwysiant LGBTQ+. Yn ystod y flwyddyn, rydyn ni wedi ymgysylltu â'r gymuned LGBTQ+ yn Rhondda Pride a Pride Cymru. Dywedodd y bobl y buon ni'n siarad â nhw yn Rhondda Pride eu bod yn teimlo y gallai'r sector addysg wneud mwy i hyfforddi staff addysgu i ddeall rhai o'r rhwystrau a'r materion y gall disgyblion LGBT+ eu hwynebu yn well. Trwy hyfforddi athrawon, mae modd darparu mwy o gefnogaeth i ddisgyblion LGBT+. Y tu ôl i'r llenni, fe wnaethon ni hefyd sicrhau bod polisiâu Adnoddau Dynol y Cyngor yn gywir ac yn gyfredol. Roedd rhan o'r gwaith yma'n cynnwys adnewyddu ein polisi sy'n berthnasol i staff RhCT sy'n trawsnewid rhyw i sicrhau ei fod yn gliriach i staff a rheolwyr.

Mis Hanes Pobl Dduon

Ym mis Hydref 2019, fe wnaethon ni gynnal bore coffi yn Llyfrgell Aberdâr i nodi digwyddiad Mis Hanes Pobl Dduon cyntaf y Cyngor, gan ddathlu'r achlysur a chodi ymwybyddiaeth o amrywiaeth hiliol. Canolbwyntiwyd ar lenyddiaeth gan bobl dduon,

gan dynnu sylw at awduron a straeon duon. Fe ddaeth llond llaw o bobl i'r achlysur ac roedd yn taflu goleuni ar brofiadau pobl dduon sy'n byw yn RhCT a'u profiadau o'n gwasanaethau. Roedd Mis Hanes Pobl Dduon hefyd yn cynnwys ymgyrch i godi ymwybyddiaeth staff o'r enw 'Ffigyrau Cudd' sy'n tynnu sylw at bobl dduon hanesyddol o Brydain sydd wedi'u hanghofio.

Parhau i ddarparu hyfforddiant Urddas a Pharch i holl staff y Cyngor.

Mae'r hyfforddiant hefyd yn atgoffa staff o'u cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac mae'n cynnwys trosolwg o Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ogystal â'r holl nodweddion gwarchoddedig. Mae'r hyfforddiant hefyd yn cynnig yr wybodaeth a'r anogaeth iddyn nhw herio agweddau negyddol yn eu gweithleoedd a'u cymunedau. Mae hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth hefyd wedi'i gynnwys mewn rhaglenni ymsefydlu ar gyfer yr holl staff newydd sy'n ymuno â'r Cyngor.

Gwella hyfforddiant cydraddoldeb i staff sy'n delio â chwynion am wasanaethau'r Cyngor a sicrhau bod canfyddiadau'n cael eu defnyddio i lywio gwelliannau mewn gwasanaethau.

Mae unrhyw gŵyn sydd wedi'i gwneud am wasanaeth yn darparu triniaeth anghyfartal neu annheg i'n trigolion yn cael ei hadolygu'n fanwl ar ôl delio â hi er mwyn dysgu gwersi a gwneud y gwelliannau angenrheidiol a/neu hyfforddi ein staff. Mae hyn yn golygu bod staff yn cael gwell dealltwriaeth o wahanol heriau sy'n wynebu ein trigolion a'u hanghenion er mwyn herio eu hymddygiad eu hunain yn y dyfodol.

Parhau i ganolbwyntio ar Iechyd Meddwl

Rydyn ni wedi parhau i weithio gydag undebau llafur i godi ymwybyddiaeth rheolwyr o faterion iechyd meddwl a'u helpu i adnabod symptomau iechyd meddwl ymhlith staff y Cyngor. O ganlyniad i'r gwaith yma, gwnaethom ni sicrhau £16,000 arall gan [Gronfa Ddysgu Undebau Cymru](#) a chyfrannodd y Cyngor yr un swm. O ganlyniad i'r cyllid yma, rydyn ni wedi gallu talu i 350 o reolwyr a goruchwylwyr dderbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl rhwng Tachwedd 2019 a Chwefror 2020. Effeithiodd Covid-19 ar gynlluniau i hyfforddi mwy o'n staff rhwng Mawrth a Mehefin 2020. Y bwriad yw eu trefnu pan fydd hi'n ddiogel i wneud hynny.

Cafodd yr hyfforddiant ymwybyddiaeth a gynhaliwyd ei groesawu gan y rai a aeth iddo. Fe wnaeth yr hyfforddiant hefyd amlygu bod angen i reolwyr allu cefnogi iechyd meddwl a lles staff yn well a bod hefyd angen i reolwyr fagu'r hyder i gael sgysiau anodd lle bo angen. Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda [Seicoleg Cymru](#) i weld sut y mae modd i ni ddiwallu'r angen ychwanegol yma am hyfforddiant ac rydyn ni wedi cynnal cwrs peilot i weld a oes modd cyflwyno hyn yn ehangach

Cryfhau ein dealltwriaeth o anghenion Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog.

Ym mis Ebrill 2019 cafodd y [Gwasanaeth Cyngor i Gyn-filwyr](#) ei lansio. Mae'r gwasanaeth wedi'i ariannu gan Gronfa Ymddiriedolaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog. Mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu'n rheolaidd â grwpiau o gyn-filwyr ledled RhCT a Merthyr Tudful, e.e. Soldiers', Sailors' and Airmen's Families Association '[SSAFA](#)', [Lleng Brydeinig Frenhinol](#), ac elusen ar gyfer cyn-filwyr yng Nghymru '[Change Step](#)'. Yn rhan o'i waith, mae'r gwasanaeth yn cynnig ystod o gymorth a chynghor i gyn-filwyr yng Nghanolffannau Cymuned y Cyngor. Yn fwy diweddar, cafodd y cymorth yma ei ddarparu gan staff sy'n gweithio gartref, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, a bydd y cymorth yn ailddechrau yng Nghanolffannau'r Cyngor pan fydd hi'n ddiogel gwneud hynny. Mae pob rheolwr

yn y Cyngor wedi derbyn hyfforddiant am Gyfamod y Lluoedd Arfog ac mae'r holl staff newydd hefyd yn derbyn hyfforddiant am y gwasanaeth wrth ddechrau gweithio yn y Cyngor.

Rhwng Ebrill 2019 ac Awst 2020, bu 215 achos o gysylltu'n uniongyrchol neu atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Cyngor i Gyn-filwyr o bob rhan o RCT. Mae'r gwasanaeth wedi helpu cyn-filwyr mewn sawl ffordd, gan gynnwys sicrhau eu bod yn cael y budd-daliadau nad oedden nhw wedi bod yn eu hawlio. Yn fwy diweddar, mae'r gwasanaeth wedi helpu i gefnogi cyn-filwyr yn ystod y cyfnod clo yn sgil Covid-19.

Trwy siarad a meithrin perthnasoedd dros amser, mae modd i ni ennill gwell dealltwriaeth o gyn-filwyr y Lluoedd Arfog a gweld sut mae modd i ni addasu ein gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion yn well.

Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus a lansiwyd yn 2018, cyflwynodd y Cyngor ostyngiad o 25% ar ffioedd profedigaeth i gyn-filwyr. RhCT yw'r unig Gyngor yng Nghymru i gynnig y cynllun yma. Yn ystod y peilot yn unig, fe wnaeth 58 o deuluoedd elwa o gostau angladd is i'w hanwyliaid. Mae'r gostyngiad mewn ffioedd yn amrywio ac yn ddibynnol ar y gwasanaeth y mae teuluoedd yn ei dderbyn, ond mae rhai wedi sicrhau dros £400 oddi ar gostau angladd.

Rydyn ni hefyd yn gweithio'n agos gyda'n hysgolion i gefnogi plant y rhai sy'n gwasanaethu a'u teuluoedd, gan gydnabod y gallai fod gan y plant anghenion penodol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaethon ni gynnal nifer o achlysuron i goffáu'r Lluoedd Arfog gan gynnwys:

- [Diwrnod y Lluoedd Arfog](#)
- [Cyngerdd Goffa a Gwasanaeth Coffa](#) ym Mharc Coffa Ynysangharad.

Daw llwyddiant cyflwyno'r achlysuron yma o ganlyniad i weithio mewn partneriaeth â'r Lluoedd Arfog ac elusennau'r Lluoedd Arfog, gan gynnwys Help for Heroes a'r Lleng Brydeinig Frenhinol.

Cafodd [Gardd Goffa Cwm Cynon](#) yn Aberdâr ei agor yn ffurfiol ym mis Tachwedd 2019. Codwyd yr arian ar gyfer y gofeb gan Gangen Aberdâr o Gymdeithas Frenhinol Cymrodyr Cymru a daeth cannoedd o bobl draw i ddangos eu cefnogaeth ar y diwrnod. Amlygodd y gefnogaeth leol pa mor bwysig yw'r gofeb i'r gymuned ac mae'r Cyngor wedi ymrwymo i barhau i gefnogi'r gofeb.

"Mae'r prosiect wedi bod yn llwyddiant ysgubol, mae wedi darparu canolbwynt i'r ardal, gan ddenu aelodau o'r cyhoedd a hefyd aelodau o'r teulu sydd wedi gosod carreg er cof am anwylyd".

Phill Adkins

Cydlynnydd Gardd Goffa Lluoedd Arfog Cwm Cynon

Ar 5 Tachwedd 2019, fe wnaethon ni gynnal achlysur arbennig iawn yn Theatr y Parc a'r Dâr pan wnaethon ni [sgrinio'r ffilm Zulu](#) ar gyfer teuluoedd y Lluoedd Arfog. Cafodd y ffilm ei dewis gan y teuluoedd. Datblygwyd y syniad yma yn dilyn trafodaethau â chyn-filwyr ynghylch sut y gall tân gwyllt ar noson Tân Gwyllt fod yn sbardun ar gyfer symptomau PTSD. Denodd yr achlysur dros 100 o bobl ac roedd yn llwyddiant ysgubol yn ôl y rhai fynychodd. Denodd hefyd [sylw sylweddol gan y cyfryngau](#).

Mae ein gwaith i gyflwyno'r cynllun yma'n ein helpu i ddangos sut rydyn ni'n cyfrannu at [Gymru sy'n fwy cyfartal](#) – *cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau*. Ond mae hefyd yn ceisio cefnogi'r holl nodau Llesiant, gan gynnwys Cymru o gymunedau cydlynus a Chymru lewyrchus.

Cyfrannu at RCT a Chymru sydd

yn llewyrchus	yn gydnerth	yn iachach	yn fwy cyfartal	â chymunedau cydlynus	â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	yn gyfrifol ar lefel fyd-eang
✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Y Gymraeg – Darparu gwasanaethau yn eich dewis iaith

Rydyn ni'n gwneud cynnydd da gyda'n gwaith i ddarparu gwasanaethau i chi yn eich dewis iaith, er ein bod yn gwybod bod rhagor i'w wneud, yn enwedig os ydyn ni am chwarae ein rhan i helpu Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

- Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn RhCT wedi aros yn weddol gyson ers 2001.
- Mae'r gyfran fwyaf o siaradwyr Cymraeg dan 25 oed.
- Mae Cyfrifiad 2011 yn dangos i ni fod 27,779 o siaradwyr Cymraeg yn RhCT, sef 12.3% o'r boblogaeth. Mae data o arolwg poblogaeth SYG ym mis Mawrth 2020 yn awgrymu bod rhagor o siaradwyr Cymraeg bellach – 42,500 (18.3%). Serch hynny, roedd arolwg y SYG yn cynnwys llai o bobl felly efallai nad oedd hyn yn adlewyrchiad cywir.
- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae 9,650 (4%) o bobl yn RhCT yn defnyddio Cymraeg yn eu bywyd beunyddiol. Roedd yr arolwg yn defnyddio nifer gymharol fach o bobl felly efallai nad yw'n adlewyrchu'r sefyllfa yn gywir.
- Mae RhCT yn parhau i fod yn fwrdeistref sirol lle mae'r ganran uchaf o ddisgyblion sy'n dysgu'r Gymraeg yn iaith gyntaf ymhlith y 5 Cyngor sy'n dod o dan Wasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (18.9%).
- Mae nifer y plant 7 oed sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu ychydig, 526 yn 2019/20 – 9 yn fwy nag yn 2018/19. Serch hynny, mae ychydig yn rhagor o blant 7 oed yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Saesneg erbyn hyn felly mae canran gyffredinol y disgyblion sy'n dysgu trwy'r Gymraeg wedi gostwng 0.07%
- Yn 2019 ymrwymodd y Cyngor i nifer o brosiectau i gynyddu capasiti ysgolion. Bydd 690 o leoedd addysg cyfrwng Cymraeg ychwanegol erbyn 2022.

Yn ystod 2019-2020, rydyn ni wedi darparu hyfforddiant Cymraeg Lefel 1 ar gyfer 304 o staff. Mae 238 aelod ychwanegol o staff wedi elwa o wersi Lefel 2, 4 a 5. O ganlyniad i'r gwelliannau mewn recriwtio a hyfforddiant yn y Gymraeg, mae rhagor o'n staff wedi nodi eu bod nhw'n rhugl yn y Gymraeg. Ym mis Mawrth 2020, nododd 569 o staff eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl, 167 yn fwy nag yn 2017/18.

Ein bwriad yw annog trigolion i ddefnyddio gwasanaethau yn Gymraeg, a'i gwneud hi'n haws iddyn nhw gysylltu â'r Cyngor a gwneud busnes yn yr iaith o'u dewis. Yn y cyfrifiad diwethaf, canran o siaradwyr Cymraeg yn ein cymunedau oedd 12.3%. Ymhlith ein poblogaeth o 27,779, mae'r canran yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, sy'n 19%. O ganlyniad, mae nifer y bobl leol sy'n ceisio am swyddi yn y Cyngor sy'n gallu siarad Cymraeg yn isel gan nad yw'r mwyafrif o siaradwyr Cymraeg yn RhCT o oedran gweithio.

Mae hyn yn golygu bod angen i ni barhau i gefnogi ac annog ein staff presennol i ddefnyddio a gwella eu sgiliau Cymraeg yn y gwaith ac annog ein trigolion i ymgysylltu â ni yn Gymraeg. Mae hefyd yn golygu bod angen i ni gynllunio ymlaen llaw fel bydd modd i ni fanteisio ar y sgiliau Cymraeg sydd gan ein pobl ifainc i'w cynnig wrth iddyn nhw adael addysg amser llawn a chyrraedd oedran gweithio. Mae ein tiwtor Cymraeg yn parhau i gefnogi ein staff gyda hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'u swyddi er mwyn iddyn nhw allu ymateb yn well i anghenion preswylwyr. Fe wnaeth diwtora 542 aelod o staff yn ystod 2019-20. Rydyn ni'n parhau i weithio mewn partneriaeth â phrosiect [Cymraeg Gwaith Llywodraeth Cymru](#) gan sicrhau bod modd i staff y Cyngor fanteisio ar

gymorth a thiwora ar-lein. Cwblhaodd 40 aelod o staff hyfforddiant ar-lein Cymraeg Gwaith rhwng 2017 a 2019, gydag 88 aelod o staff yn dilyn cyrsiau yn ystod 2020 hyd yn hyn – nifer sy'n debygol o gynyddu. Yn ogystal, mae ambell aelod o staff hefyd wedi mynychu cyrsiau dwys wythnos o hyd yn [Nant Gwrtheyrn](#).

Ynghyd â'r prosiectau sydd wedi'u cynllunio i gynyddu nifer y llefydd yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg, gwnaed [cyhoeddiad](#) ym mis Mawrth 2019 y byddai'r Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal yn Rhondda Cynon Taf. Y bwriad yn wreiddiol oedd ei chynnal yn 2022, ond bydd bellach yn cael ei chynnal yn 2023. Mae'n gyfle cyffrous arall i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at helpu'r Cyngor i gyflawni un o'r nodau llesiant cenedlaethol, sef 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', Cymru lewyrchus, yn ogystal â nodau llesiant cenedlaethol eraill.

Mae hefyd angen i'r Cyngor gadw at [gyfreithiau'r Gymraeg](#) a chymhwyso [Safonau'r Gymraeg](#), gan sicrhau:

- bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un modd â'r Saesneg yng Nghymru
- a'n bod ni'n rhoi cyfle i bobl ddefnyddio'n gwasanaethau ni, yn ogystal â'r gwasanaethau rydyn ni'n eu hariannu, drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Safonau'r Gymraeg yn berthnasol i bob rhan o waith y Cyngor, gan gynnwys cyfarfodydd y Cyngor, lle mae cyfleusterau cyfieithu wedi'u rhoi ar waith. Mae gan yr Uned Gymraeg gyfieithwyr ymroddedig ar lefel uwch i gyfieithu testun a chynnig cymorth cyfieithu ar y pryd i Aelodau ac Uwch Swyddogion ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgor ac yn ystod y cyfarfodydd hynny. Mae'r trefniadau yma wedi parhau trwy gydol pandemig Covid-19.

Mae [Comisiynydd y Gymraeg](#) cenedlaethol yn gyfrifol am sicrhau bod Mesur y Gymraeg a'r Safonau yn cael eu gweithredu ledled Cymru. Rydyn ni'n [cyflwyno adroddiad](#) ynglŷn â'n cynlluniau a'n cynnydd i'r Comisiynydd bob blwyddyn. Mae hefyd gan y Cyngor ei drefniadau ei hun ar waith i sicrhau ein bod ni'n gwneud cynnydd. Cafodd y trefniadau eu cydnabod yn 2018 fel arfer da ar [wefan Comisiynydd y Gymraeg](#). Mae ein swyddog cydymffurfio yn parhau i archwilio arferion yn y Cyngor ac yn gweithio gyda gwasanaethau i wella sut maen nhw'n darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Os nad ydyn ni'n gweithredu Safonau'r Gymraeg yn iawn, mae'n bosibl byddwn ni'n wynebu cosb o hyd at £5,000 am bob achos. Yn 2019/20, daeth 23 o gwynion (cafodd naill ai eu derbyn neu sy'n dal i fod yn destun ymchwiliad) i law ynglŷn â sut mae'r Cyngor yn trin y Gymraeg. Mae'n ostyngiad bach o'r cyfanswm y flwyddyn flaenorol (27). Yn y mwyafrif o'r achosion yma, cafodd cwynion eu cadarnhau a chymerwyd camau i ddatrys y problemau a nodwyd. Rydyn ni'n parhau i weithio i ddatrys unrhyw faterion a nodwyd yn gyflym ac i roi mesurau ar waith i atal camgymeriadau rhag digwydd, gan gynnwys gweithio'n agos gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, a hyd yn hyn dydyn ni ddim wedi derbyn unrhyw gosbau ariannol.

Yn rhan o'n dyletswyddau o dan y gyfraith, rhaid i ni gyhoeddi dwy ddogfen:

1. Mae [Cynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg](#) yn egluro sut rydyn ni'n bwriadu cydymffurfio â'r safonau.

2. Mae [Strategaeth Hybu'r Gymraeg](#) yn nodi sut y byddwn ni'n hyrwyddo'r Gymraeg ac yn hwyluso ei defnydd yn ehangach yn yr ardal.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cadw ar y trywydd iawn ac yn bodloni Safonau'r Gymraeg, mae Grŵp Llywio o Gynghorwyr a chynrychiolwyr o gyrff cyhoeddus eraill â buddiant a grwpiau gwirfoddol, gan gynnwys Fforwm Iaith, sy'n dod â grwpiau Cymraeg lleol ynghyd, yn gwneud y canlynol:

1. yn gwirio'r cynnydd rydyn ni'n ei wneud o'i gymharu â'n Strategaeth Hybu'r Gymraeg,
2. yn adolygu adroddiadau archwilio i sicrhau bod yr holl wasanaethau yn darparu gwasanaethau yn Gymraeg,
3. ac yn cymeradwyo polisiâu Cymraeg pwysig sy'n effeithio ar yr holl wasanaethau sy'n cael eu darparu ar gyfer ein trigolion.

Yn ogystal â hyn, roedden ni wedi bwriadu i'n Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wirio pa mor effeithiol rydyn ni'n darparu ein gwasanaethau yn Gymraeg. Cafodd y gwaith yma ei ohirio yn sgil gohirio cyfarfodydd yn sgil effaith Covid-19, ond ein nod yw cyflawni'r gwaith yn ddiweddarach eleni. Bob blwyddyn, mae pob gwasanaeth hefyd yn edrych ar yr hyn y mae modd iddyn nhw ei wneud i wella'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn Gymraeg a chynyddu nifer y gwasanaethau hynny.

Yn ogystal â herio ein hunain i wneud yn well, ffordd arall o'n helpu i wella yw gweithio gydag eraill. Rydyn ni'n gwneud hyn mewn sawl ffordd e.e.

1. drwy fod yn rhan o'r Fforwm Cymraeg, sy'n cynnwys grwpiau gwirfoddol lleol, ysgolion, a chyrff cyhoeddus lleol a chenedlaethol allweddol eraill sy'n canolbwyntio ar y Gymraeg, i ddatblygu'r strategaeth hyrwyddo a llif gwaith allweddol eraill
2. Grŵp Deddf, y fforwm cenedlaethol ar gyfer swyddogion Cymraeg sy'n gweithio yn y Sector Cyhoeddus
3. Grŵp Deddf Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru, gweithgor Rhanbarth De Ddwyrain Cymru i gefnogi cydymffurfio â'r rheoliadau a rhannu arfer da
4. Fforwm Mwy Na Geiriau, fforwm rhanbarth Cwm Taf Morgannwg ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Sector Iechyd
5. Grŵp Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
6. Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg sy'n ein helpu i ddatblygu a gweithredu ein cynlluniau ar gyfer y Gymraeg.

I gynyddu'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu yn Gymraeg,

y llynedd, dywedon ni y bydden ni'n	ac ymhlith pethau eraill rydyn ni wedi
gweithio tuag at ein targed o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn RhCT 6.8%, erbyn dyddiad y cyfrifiad nesaf yn 2021.	<ul style="list-style-type: none"> • cyflwyno buddsoddiad wedi'i dargedu ar gyfer creu llyfrau ac adnoddau ar-lein Cymraeg yn ein llyfrgelloedd. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer yr eitemau sy'n cael eu benthyca. • gweithio gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i gymeradwyo Rhestr ddiwygiedig o Enwau Lleoedd Cymraeg ar gyfer Rhondda Cynon Taf a dechrau datblygu rhan ar ein gwefan i ganiatáu i breswylwyr chwilio gan ddefnyddio cyfeiriadau Cymraeg, e.e. ar gyfer ceisiadau cynllunio. • llunio Llawlyfr Arwyddion Adeiladau ac Arwyddion Gwaith i gefnogi sefydliadau partner i gynhyrchu arwyddion ffyrdd dros

y llynedd, dywedon ni ac ymhlith pethau eraill rydyn ni wedi y bydden ni'n

dro dwyieithog, gan gynyddu gwelededd y Gymraeg ar ein ffyrdd.

gweithio gyda Phwyllgor yr Eisteddfod Genedlaethol wrth drefnu dod â'r Eisteddfod i ardal Rhondda Cynon Taf yn 2023.

- penodi Swyddog Prosiect yr Eisteddfod i gydlynu'r paratodau ar gyfer yr Eisteddfod ar draws y Cyngor a chysylltu â swyddogion yr Eisteddfod Genedlaethol a chadeirydd y Pwyllgor Gwaith ar ran y Cyngor. O ganlyniad i effaith Covid-19, bydd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal yn Rhondda Cynon Taf yn 2023 yn hytrach nag yn 2022, fel y cynlluniwyd yn wreiddiol.

hyrwyddo achlysuron Cymraeg cenedlaethol a lleol allweddol i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

Rhedeg ymgyrchoedd yn gysylltiedig â Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Owain Glyndŵr a Diwrnod Shwmae Su'mae, gan ganolbwyntio ar amrywiaeth o elfennau gan gynnwys iaith a diwylliant. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys adrodd straeon a gweithgareddau crefft yn y llyfrgelloedd a gwaith gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Bu ymgysylltu ac adborth cadarnhaol.

annog ein busnesau i weld manteision y Gymraeg ar lefel lleol ac yn rhyngwladol.

Yn anffodus, doedd dim modd i ni ddarparu cymorth i fusnesau ddefnyddio'r Gymraeg gan fod diffyg cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rydyn ni wedi nodi bod y Gymraeg yn rhan greiddiol o Strategaeth Twristiaeth RhCT. Bydd yn chwarae rhan allweddol wrth hybu'r economi leol trwy annog twristiaeth gynaliadwy i'r ardal.

cryfhau'r cyfleusterau cyfieithu ymhellach yng nghyfarfodydd y Cyngor.

Gosod offer cyfieithu ar yr un pryd newydd yn siambr y Cyngor ynghyd ag arweiniad i helpu pobl sy'n cadeirio cyfarfodydd i'w cynnal yn ddwyieithog gyda chymorth cyfieithwyr. Mae dau aelod o staff yn dilyn cwrs ôl-raddedig mewn cyfieithu ar y pryd. Bydd hyn yn eu helpu i gynorthwyo pobl i gael mynediad at gyfarfodydd yn eu dewis iaith heb darfu ar lif cyfarfodydd

cynyddu'r cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg, gan gynnwys gweithio gyda menter Cymraeg Gwaith.

- Gan weithio gyda rhaglen Cymraeg Gwaith, darparwyd cyrsiau hyfforddi ar-lein a phreswyl i helpu staff i wella eu sgiliau Cymraeg sy'n benodol i'r gweithle.
- Darparu hyfforddiant Cymraeg sylfaenol yn rhan o'r cyfnod ymsefydlu ar gyfer yr holl staff gofal cymdeithasol, gan gynnwys yr ap 'Gofalu Trwy'r Gymraeg' a gynhyrchwyd yn genedlaethol, ar ffonau symudol yr holl staff gofal cymdeithasol. Mae'r ap yn cynnwys ymadroddion Cymraeg i helpu i gyfathrebu â chleientiaid sy'n siarad Cymraeg.
- Sefydlu cynllun cyfoedion er mwyn i staff ymarfer eu Cymraeg ar gyfer y gweithle gyda dysgwyr eraill.

**y llynedd, dywedon ni ac ymhlith pethau eraill rydyn ni wedi
y bydden ni'n**

- Cynhyrchu fideo Ymsefydlu Corfforaethol i helpu'r holl staff newydd i ddeall Safonau'r Gymraeg mewn ffordd fwy rhyngweithiol, drwy ddefnyddio ffeithluniau ac animeiddio.

Rydyn ni wedi cael adborth cadarnhaol gan Gomisiynydd y Gymraeg am ein cynnydd, felly, rydyn ni'n gwybod ein bod ni ar y trywydd iawn, ond mae rhagor i'w wneud bob amser.

Ymhlith pethau eraill, yn 2020/21 byddwn ni'n:

- parhau i weithio tuag at ein targed o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn RhCT 6.8%, erbyn dyddiad y cyfrifiad nesaf yn 2021.
- parhau i weithio gyda Phwyllgor yr Eisteddfod Genedlaethol wrth drefnu dod â'r Eisteddfod i ardal Rhondda Cynon Taf yn 2022.
- tynnu sylw at arwyddocâd pobl a diwylliant Cymru, gan gynnwys y Gymraeg, mewn ymgyrchoedd ledled y Cyngor sy'n ymwneud â digwyddiadau yn y DU a'r byd.
- parhau i gefnogi staff i ddatblygu'u sgiliau Cymraeg er mwyn i ni allu helpu mwy o gwsmeriaid yn eu dewis iaith.
- helpu pobl i ddefnyddio rhagor o wasanaethau ar-lein yn Gymraeg trwy ddatblygu meddalwedd ddwyieithog.
- datblygu ein prosesau er mwyn bod modd i'r person cyntaf sy'n ateb galwad allu delio ag ymholiadau mwy o gwsmeriaid yn Gymraeg.
- parhau i adolygu pa mor dda y mae ein gwasanaethau yn cynnig gwasanaethau yn Gymraeg a pha mor dda y maen nhw'n hyrwyddo Cymraeg.

Mae ein gwaith i hyrwyddo'r Gymraeg yn cyfrannu at RhCT a Chymru sydd

yn llewyrchus	yn gydnherth	yn iachach	yn fwy cyfartal	â chymunedau cydlynus	â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	yn gyfrifol ar lefel fyd-eang
✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Bioamrywiaeth

Gwybodaeth Allweddol:

- Mae dros 70% o'r tir yn Rhondda Cynon Taf yn cael ei ystyried yn dir gwledig, tra bod cyfanswm o dir sydd wedi'i orchuddio gan goed oddeutu 33%.
- Mae o leiaf 85 o wahanol fathau o wenyn ledled yr hen domenni glo yn RhCT, ochr yn ochr ag ystod eang o bryfed eraill, a chennau, ffyngau a blodau.
- Mae dwy ran o dair o dir y Fwrdeistref Sirol wedi'i nodi fel tir arbennig o bwysig i fywyd gwyllt. Mae'r tir yma'n cynnwys Gwarchodfeydd Natur, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Safleoedd Pwysig ar gyfer Cadwraeth Natur.
- Derbyniodd 11 parc ledled y Fwrdeistref Sirol ddyfarniad Baner Werdd am hygyrchedd a rheolaeth ragorol.
- Yn ôl [Adroddiad Cyflwr Natur 2019](#), o'r 6,500 o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid yng Nghymru, mae 523 (8%) dan fygythiad o ddiflannu yn y DU, mae 666 (17%) dan fygythiad o ddiflannu yng Nghymru, ac mae 73 (2%) eisoes wedi diflannu yng Nghymru.
- Yn unol â'r ffigurau gan [Gyfoeth Naturiol Cymru](#), daw 22% o'r trydan a gynhyrchir yng Nghymru o ffynonellau adnewyddadwy. Mae swm y trydan adnewyddadwy sy'n cael ei gynhyrchu yn cyfateb i 48% o'r trydan sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru, cynnydd o bum pwynt canran o'i gymharu â 2016.
- Dangosir gan [Ystadegau'r Llywodraeth](#) mai RhCT yw'r 4^{ydd} cynhyrchydd mwyaf o gyfanswm allyriadau carbon Cymru. Serch hynny, mae'r Fwrdeistref Sirol hefyd yn 4^{ydd} isaf wrth ei ystyried fesul person (4.11 tonnall fetrig)

Bioamrywiaeth yw'r amrywiaeth o fywyd ar y ddaear, sy'n cynnwys yr holl blanhigion ac anifeiliaid, yn ogystal â'r ecosystemau maen nhw'n byw ynddyn nhw. Ochr yn ochr â phob Awdurdod Lleol arall, mae gan Gyngor Rhondda Cynon Taf ddyletswydd o dan [Ddeddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#) i gynnal a gwella ei fioamrywiaeth, gan ystyried yr amrywiaeth, graddfa, cyflwr a gallu i addasu yn ei ecosystemau lleol. Mae hyn yn ychwanegol at ofynion [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#), sy'n gorfodi cyrff cyhoeddus i feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau ac i ddiogelu ein hamgylcheddau lleol wrth geisio dod yn [fwy cydnerth](#) a [chreu Cymru sy'n fwy cyfrifol yn fyd-eang](#).

Yn unol â Deddf Dyletswydd Bioamrywiaeth yr Amgylchedd, rhaid i'r Cyngor hefyd lunio adroddiad i Lywodraeth Cymru bob 3 blynedd yn amlinellu'r hyn a wnaed i wella bioamrywiaeth ledled y Fwrdeistref Sirol. Dangosodd ein [Hadroddiad Bioamrywiaeth cyntaf](#) yn 2019 bod cryn dipyn o waith cadarnhaol yn cael ei gynnal ar draws y Cyngor, gan hefyd nodi rhai meysydd lle y gellid eu gwella.

Mae cynlluniau i fynd i'r afael â materion Bioamrywiaeth, yn ogystal â materion amgylcheddol cysylltiedig megis Newid Hinsawdd, wedi'u nodi yng [Nghynllun Corfforaethol newydd y Cyngor](#) ac yn cael eu datblygu'n fanylach yn rhan o waith parhaus y [Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr](#)

[Hinsawdd](#). Nod y grŵp newydd yma, ddaeth ynghyd i gyfarfod am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2019, yw sicrhau bod y Cyngor yn dod yn Garbon Niwtral erbyn 2030. Bwriad y grŵp yw gweithio gyda thrigolion a busnesau ledled Rhondda Cynon Taf i gefnogi'r Fwrdeistref Sirol i ddod yn Garbon Niwtral mor agos â phosibl i 2030.

Fel yr amlinellwyd yn ei [Raglen Waith ar gyfer y Dyfodol](#), mae gwaith y Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd yn mynd i ganolbwyntio ar nifer o faterion amgylcheddol pwysig, gan gynnwys Bioamrywiaeth, Lleihau Carbon, Ynni Adnewyddadwy, Adnoddau Naturiol ac Ymgysylltu â'r Gymuned, yn ogystal â mynd i'r afael ag unrhyw faterion annisgwyl o bwys fydd yn cael eu cyflwyno gan aelodau'r pwyllgor. Isod mae cofnod manylach o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan y Grŵp Llywio, ochr yn ochr â gwaith gwasanaethau eraill ar draws y Cyngor.

Roedd ein gwaith yn 2019/20 yn cynnwys:

- Rhoi system ddraenio naturiol gynaliadwy ar waith i atal llifogydd yn Ysgol Park Lane. Dechreuodd y [gwaith ar y safle ym mis Awst 2020](#). Mae'r cynllun yn defnyddio'r tir presennol rhwng Parc Aberdâr a chae segur i leihau'r risg llifogydd. Bydd y gwaith yma hefyd yn cyfrannu at rwydwaith Porfa'r Rhos ar gyfer cadwraeth Glöyn Byw Britheg y Gors prin.
- Cyflwyno [Gwefan bioamrywiaeth](#) newydd i arddangos gwaith Bioamrywiaeth y Cyngor ac annog trigolion lleol i ymgysylltu â mentrau Bioamrywiaeth arfaethedig. Bydd y wefan yn cael ei datblygu ymhellach yn y dyfodol i ddarparu gwybodaeth a fydd yn helpu staff, trigolion a grwpiau cymunedol i weithio gyda'i gilydd i ddiogelu a gwella ein hecosystemau lleol.
- Gweithio gyda Grwpiau Cymunedol ledled y Fwrdeistref Sirol ar achlysuron gan gynnwys Taith Gerdded Blodau Gwyllt Pont-y-clun, Taith Gerdded Bioamrywiaeth y Beddau; achlysuron gwyllo gwyfynod ac ystumod ym Mharc Aberdâr ac achlysuron gwyllo adar ym Mharc Gwledig Cwm Dâr, ennyn diddordeb ac addysgu aelodau'r cyhoedd am fywyd gwyllt a chynefinoedd lleol. Cafodd achlysuron natur eu cynnal ar gyfer plant ym Mharc Gwledig Cwm Dâr a Pharc Ynysangharad.
- Cyhoeddi [Cylchlythyr y Cofnodwyr RhCT](#) ym mis Ionawr 2019. Mae'r cylchlythyr yn trafod y bywyd gwyllt mae trigolion yn eu gweld ac felly'n rhoi cipolwg ar fioamrywiaeth yn yr ardal. Mae'r rhifyn diweddaraf, sy'n darparu crynodeb o gofnodion trigolion o 2018/19, yn nodi diddordeb parhaus yn y fioamrywiaeth leol, gyda thystiolaeth o gyfranogiad gan o leiaf 34 o drigolion. Yn dilyn oedi oherwydd y pandemig, mae rhifyn 2019/20 wedi'i drefnu ar gyfer cyfnod diweddarach yn y flwyddyn.
- Sicrhau bod Bioamrywiaeth yn cael ei ystyried yn rhan o holl waith y Cyngor trwy ddarparu hyfforddiant a chynngor i wasanaethau. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant i garfanau Gofal y Strydoedd ar [bolisiâu lladd gwair a thrin blodau gwyllt mwy cynaliadwy](#) a chefnogi ein carfan Eiddo'r Cyngor i ystyried bioamrywiaeth wrth reoli tir ac adeiladau ein Cyngor.
- Sefydlu Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd newydd (fel y soniwyd uchod), lle daeth cynghorwyr o bob grŵp gwleidyddol ar draws y Cyngor ynghyd, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r gymuned, o [Croeso i'n Coedwig](#) a [Chyfeillion y Ddaear](#). Cafodd y Grŵp Llywio ei sefydlu mewn ymateb i'r argymhellion gan [y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd](#) a ['Cymru Carbon Isel'](#). Llywodraeth Cymru ac mae wedi dechrau rhoi ar waith ac wedi monitro gwaith ar draws y Cyngor er mwyn mynd i'r afael ag effaith Newid Hinsawdd. Bydd meysydd gwaith yn y dyfodol yn cynnwys: creu a defnyddio ynni adnewyddadwy, lleihau'r

defnydd o ynni yn adeiladau'r Cyngor, gwella ansawdd aer ledled y Fwrdeistref Sirol a dileu'r defnydd o blastig un defnydd ar draws y Cyngor.

- Cwblhau 396 adolygiad ecolegol o geisiadau cynllunio sydd wedi'u derbyn gan y Cyngor a pharhau i fonitro'r gwaith a nodwyd o geisiadau cynllunio blaenorol i leihau'r effaith amgylcheddol, e.e. rheolaeth hir dymor manau agored cyhoeddus, amddiffyn, coed a gwrychoedd a dolydd a choridorau bywyd gwyllt.
- Parhau i adlewyrchu'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth yn ein gwaith, gan gynnwys gwaith i baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd, a fydd yn nodi datblygiad y Fwrdeistref Sirol dros y 15 mlynedd nesaf ac yn darparu sylfaen ar gyfer ystyried ceisiadau cynllunio yn y dyfodol.
- Datblygu [Polisi Cyfrifoldeb Cymdeithasol wrth Gaffael](#), sy'n gweithredu i amddiffyn bioamrywiaeth leol a chenedlaethol trwy sicrhau bod nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu prynu gan y Cyngor, cyflenwyr a phartneriaid yn achosi cyn lleied o ddifrod â phosibl i'r amgylchedd.
- Gweithio gyda sefydliadau partner i hyrwyddo bioamrywiaeth ar draws gweithrediadau a chadwyni cyflenwi; er enghraifft, cydweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu'r [Datganiad Ardal Canol De Cymru](#). Mae'r datganiad digidol yma, ar gyfer ardal sy'n cynnwys Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg, yn mapio'r amgylchedd lleol, ecosystemau ac adnoddau naturiol yn fanwl ac yn nodi'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ardal. Mae'n brosiect parhaus sy'n bwriadu mynd i'r afael â'r heriau a nodwyd drwy gynnig atebion cydweithredol a chynaliadwy.
- Hyrwyddo'r [Prosiect 'Llethrau Iach'](#), a pharhau i weithio gyda phartneriaid a'r gymuned wrth ddatblygu ffordd o reoli'r tir yn gynaliadwy i leihau effaith difrifol tanau glaswellt ar 6 safle yn RhCT gan hefyd gynyddu bioamrywiaeth y cynefin.
- Ailddatgan ein bwriad i barhau gyda'r Bartneriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Er bod cynnydd y prosiect yma wedi dod i ben ar ôl i Lywodraeth Cymru dynnu'r cyllid yn ôl, mae'r Cyngor yn bwriadu parhau â'r gwaith yma eto os bydd cyllid ar gael yn y dyfodol.

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2020/21 yn cynnwys:

- Cyflwyno cynlluniau adfer mawndiroedd i 'ail-wlychu' ac ailblannu mawndiroedd sydd wedi sychu neu ddirywio, er mwyn atal carbon rhag cael ei ryddhau i'r atmosffer a gwella bioamrywiaeth, yn ogystal â darparu datrysiadau rheoli llifogydd naturiol ochr yn ochr â mesurau rheoli llifogydd eraill.

- Gweithio gyda thrigolion i gefnogi rheoli twf glaswelltir a blodau gwyllt, gan hefyd sicrhau bod mwy o wybodaeth a gwell gwybodaeth ar gael, gan gynnwys trwy ein tudalen we Bioamrywiaeth newydd. Bydd y cyhoedd hefyd yn ymgysylltu trwy'r cyfryngau cymdeithasol i helpu i gynorthwyo twf blodau gwyllt trwy nodi ardaloedd tyfiant newydd a pharhad y cynllun 'Grab a Rake'.

Cefnogi Blodau Gwyllt a Glaswelltir yn Rhondda Cynon Taf

Er mwyn gwella'r Blodau Gwyllt a'r Glaswelltir yn RhCT, rydyn ni wedi sefydlu system lladd gwaith 'torri a chasglu'. Mae 'Torri a Chasglu' yn caniatáu i flodau flodeuo a hadu cyn eu torri, ac mae'r glaswellt sy'n cael ei gasglu a'i dynnu oddi yno yn helpu i ddarparu'r amgylchedd gorau ar gyfer tyfiant blodau gwyllt. Mae'r glaswellt sydd wedi'i dorri yn cael ei gompostio mewn 'eco-bentyrrau', sy'n dileu gwastraff a hefyd yn darparu lle i anifeiliaid gwyllt gaeafgysgu. Mae blodau gwyllt sy'n ffynnu hefyd yn cynnal gwenyn, pryfed peillio eraill a chreaduriaid sy'n ffynnu yn y cynefin. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r peiriannau 'torri a chasglu' a fydd yn gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith ond rydyn ni'n annog preswylwyr i ymuno â'n ymgyrch '[Grab Your Rake](#)' i helpu mewn ardaloedd does dim modd i'r peiriannau eu cyrraedd.

- Parhau i ddiweddarau'r cynllun 'Gweithredu dros Natur' ar y cyd â Phartneriaeth Bioamrywiaeth Leol y Cyngor. Bydd y Cynllun yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu diogelu a gwella bywyd gwyllt a bioamrywiaeth Rhondda Cynon Taf, gan ystyried deddfwriaeth newydd, heriau amgylcheddol sy'n dod i'r amlwg a safbwyntiau trigolion lleol, grwpiau cymunedol ac arbenigwyr cadwraeth.
- Ystyried rôl rhyfeddodau byd natur yn RhCT. Mae'r gwaith yma wedi arafu o ganlyniad i'r pandemig ond bydd yn cynnwys galluogi adfywio coetir yn naturiol a datblygu 'Seilwaith Gwyrdd' – rhwydwaith o fannau a nodweddion naturiol gan gynnwys parciau, coed ar strydoedd, rhandiroedd, gerddi a nentydd sy'n darparu buddion amrywiol gan gynnwys draenio, storio carbon ac oeri ardaloedd adeiledig yn ystod tywydd poeth. Mae hefyd o fudd i iechyd meddwl a chorfforol pobl.
- Plannu tua 350 o goed. Mae'r gwaith wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru. Bydd y rhan fwyaf o'r gwaith plannu yn ein parciau a'n mynwentydd. Y nod yw cyfrannu at fynd i'r afael ag effaith newid hinsawdd a llygredd mewn ardaloedd trefol, yn ogystal â chefnogi bywyd gwyllt lleol.
- Parhau i baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd, gan gynnwys y strategaeth gyffredinol ar gyfer datblygu defnydd tir ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, gan ystyried safleoedd o bwys ar gyfer cadwraeth natur ac ecosystemau lleol, a chryfhau polisiau bioamrywiaeth y Cyngor. Bydd trigolion hefyd yn cymryd rhan yn natblygiad y cynllun newydd i sicrhau bod pawb yn deall y disgwyliadau o ran yr amgylchedd lleol a bod gwaith yn cael ei gyfeirio er mwyn diwallu anghenion y gymuned.
- Datblygu cynllun i leihau nwyon tŷ gwydr ar draws RhCT a chymryd camau yn seiliedig ar argymhellion y [Pwyllgor ar Newid Hinsawdd](#) ac yn unol â chyngor 'Cymru Carbon Isel' Llywodraeth Cymru.
- Datblygu a gweithredu cynlluniau a fydd yn cefnogi ac yn annog Bioamrywiaeth ac yn gwella'r amgylchedd ledled y Fwrdeistref Sirol drwy ein Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd.

Cynnwys pobl a chymunedau yn Rhondda Cynon Taf

Mae gyda ni hanes da o ymgysylltu â'n trigolion o bob cefndir mewn sawl ffordd wahanol, yn ogystal â'u cynnwys yn ein gwaith. Rydyn ni'n ystyried yr hyn maen nhw'n ei ddweud wrthym ni wrth i ni gynllunio neu newid ein gwasanaethau ac rydyn ni'n croesawu adborth ar yr hyn rydyn ni'n ei wneud. Rydyn ni hefyd yn gwybod bod lle bob amser i wneud yn well felly rydyn ni wedi ymrwmo i barhau i wella sut rydyn ni'n cynnwys preswylwyr a chymunedau wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

Rydyn ni wedi rhannu llawer o enghreifftiau drwy gydol yr adroddiad yma o sut rydyn ni wedi cynnwys pobl a chymunedau yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw a'r gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn. Rydyn ni'n gwneud hyn mewn sawl ffordd wahanol, gan gynnwys cael sgysiau wyneb yn wyneb yng nghanol ein trefi a mannau cyhoeddus eraill, e.e. parciau ac archfarchnadoedd, a chynnal arolygon mwy traddodiadol naill ai ar-lein neu dros y ffôn os yw'n briodol i wneud hynny. Rydyn ni hefyd yn croesawu adborth trwy'r cyfryngau cymdeithasol, Twitter @CyngorRhCT a [Facebook](#). Rydyn ni wedi darganfod bod modd i siarad â phobl am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw a'u teuluoedd ddarparu gwybodaeth amhrisiadwy rydyn ni yna'n ei defnyddio i gyfrannu at lunio ein gwasanaethau a llywio ein harolygon mwy ffurfiol. Mae teithio ar hyd cymunedau a siarad â phobl hefyd yn golygu ein bod ni'n dysgu am bethau sy'n digwydd yn ein cymunedau, tu hwnt i'r hyn sy'n amlwg i ni.

Rydyn ni am i'n holl drigolion gael y cyfle i gymryd rhan a rhannu'u barn ynghylch y penderfyniadau sy'n bosibl o effeithio arnyn nhw. Er mwyn annog rhagor o bobl i gymryd rhan, rhaid i ni sicrhau bod yr wybodaeth ar gael iddyn nhw mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys defnyddio Cymraeg neu Saesneg eglur mewn gwybodaeth ysgrifenedig, paratoi fersiynau hawdd eu darllen sy'n darparu crynodeb byr, clir a syml o wybodaeth gymhleth a hefyd defnyddio lluniau a fideos wedi'u hanimeiddio. Mae defnyddio'r gwahanol ffyrdd yma wedi cael ei gymeradwyo ac wedi caniatáu i ni ehangu ein dulliau o fod yn rhan o bethau gyda thrigolion a chymunedau.

Helpu pobl i gymryd rhan

Yn rhan o'n sgysiau â thrigolion yn ein cartrefi gofal am newidiadau mewn gofal preswyl, fe wnaethon ni gyhoeddi llyfryn hawdd ei ddarllen a oedd yn hysbysu'r preswylwyr o'r cynigion mewn ffordd ddealladwy.

Drwy'i gwneud hi'n haws i bobl roi eu barn i ni, mae rhagor o bobl yn ymateb, gan ddefnyddio dulliau gwahanol ac ymgysylltu mewn ffyrdd gwahanol. Serch hynny, fel pob corff cyhoeddus, rydyn ni'n gwybod bod angen i ni wneud rhagor os ydyn ni am fod yn gwbl gynhwysol ac os yw pobl yn mynd i barhau i chwarae rhan wirioneddol a pharhaol yn nyfodol eu cymunedau. Mae Covid-19 wedi golygu nad yw ein ffyrdd arferol o siarad â phobl yn bosibl ar hyn o bryd, felly mae angen i ni fod yn fwy creadigol. Un ffordd o wneud hyn yw ymgysylltu'n 'ddigidol', e.e. Zoom ac ati. Cafodd ei ddefnyddio ym mis Awst pan [wnaethon ni ofyn i bobl am eu barn am faw cŵn](#). Dydyn ni ddim yn gallu dangos y sesiwn i chi oherwydd mesurau diogelu data, ond bydd barn y bobl a ymunodd â ni yn cael ei defnyddio i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal â hynny, mae angen i ni wella sut rydyn ni'n defnyddio'r wybodaeth sy'n dod i'r fei yng nghwynion trigolion fel ein bod ni'n cael darlun mwy cyflawn o'u barn.

Er mwyn gwella sut rydyn ni'n gweithio ar draws y Cyngor i gynnwys pobl a chymunedau, ein nod oedd sefydlu Fframwaith Cynnwys newydd ar gyfer 2020-24. Nod y Fframwaith yma yw cyflwyno trosolwg o'r ffyrdd y bydd y Cyngor yn hysbysu, yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â phobl sy'n byw, gweithio ac yn masnachu yn Rhondda Cynon Taf i drafod y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Dechreuodd trafodaethau gyda Chynghorwyr ar ein Fframwaith yn y [Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ym mis Ionawr 2020](#). Ers hynny dydyn ni ddim wedi gallu llwyr ddatblygu'r gwaith o ganlyniad i effaith pandemig Covid-19 ond byddwn ni'n gwneud hynny yn ystod 20/21. Yn y cyfamser, rydyn ni'n gweithio yn unol â'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion y cytunwyd arnyn nhw gan Gynghorwyr hyd yn hyn, h.y.

1. Cryfhau'r diwylliant o ymgysylltu a chynnwys pobl
2. Sicrhau bod ein cyfranogiad yn eglur a bod ganddo bwrpas
3. Ei gwneud hi'n hawdd i bawb gymryd rhan
4. Symleiddio ein ceisiadau am ymgysylltiad
5. Hyfforddi a galluogi staff i feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw
6. Cynnig adborth i bobl ynglŷn â sut mae eu barn wedi'i defnyddio
7. Gwerthuso'r hyn sydd wedi'i wneud er mwyn gwella yn y dyfodol

Wrth ddatblygu ein Fframwaith newydd rydyn ni wedi ystyried arfer da a chynghor gan gynnwys arweiniad gan [Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol](#) am gynnwys pobl a chymunedau yn ein gwaith.

Mae modd i ni dynnu sylw at lawer o enghreifftiau o sut y bu preswylwyr a chymunedau yn rhan o waith y Cyngor y llynedd e.e.

- **Pennu Cyllideb y Cyngor** – rhannodd 4,000 o drigolion eu barn i ni am ein cyllideb ar gyfer 20/21, gan wneud hynny yng nghanol ein trefi, canolfannau hamdden a llyfrgelloedd ar draws RhCT. Gwnaethon ni hefyd siarad â chynrychiolwyr ein trigolion hŷn yn y Grŵp Cynghori Pobl Hŷn (OPAG) a chynrychiolwyr ein trigolion anabl yn y Cylch Trafod Materion Anabledd. Trwy ddefnyddio 'Arian RhCT', roedd modd i bobl rannu barn ynghylch y lle gorau i wario'r arian.
- **Llunio ein Cynllun Corfforaethol newydd** – fe wnaethon ni gynnal 15 achlysur mewn lleoliadau ar draws Rhondda Cynon Taf er mwyn siarad â thrigolion o bob oed a chefnidir a chael eu barn ar yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Gwnaethon ni hefyd greu fideo yn cynnwys pobl a oedd yn barod i leisio'u hadborth.
- **Newidiadau i gartrefi gofal preswyl** – fe wnaethon ni ofyn am ystod eang o safbwyntiau gan ein trigolion sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl a'u perthnasau. Cafodd y trafodaethau yma eu cynnal yn y cartrefi gofal. Roedd modd i staff hefyd fynychu'r trafodaethau yma. Fe wnaethon ni hefyd ddarparu gwasanaeth eirioli ar gyfer yr holl breswylwyr a'u teuluoedd. Fe wnaethon ni hefyd gynnal achlysuron 'galw heibio' mwy agored i drigolion RhCT o bob oed lywio trafodaethau a phenderfyniadau am gartrefi preswyl i bobl hŷn ym mhob un o dair ardal ddaearyddol y Fwrdeistref Sirol.
- **Trafod mynd i'r afael ag eiddo gwag ar draws RhCT** – er mwyn rhoi bywyd newydd i eiddo gwag a gwella ardaloedd lleol.

Dywedodd Ysgrifennydd Grŵp Cynghori Pobl Hŷn [wrthym ni beth sy'n bwysig iddyn nhw ac i lawer o'n trigolion hŷn.](#)

- **Rheoli Traffig yn Llantrisant**, rhannodd 200 o bobl eu barn am [gynllun rheoli traffig posibl ar gyfer Hen Dref Llantrisant](#).

Rydyn ni hefyd yn cysylltu'n rheolaidd trwy gyfarfodydd neu drwy'r post gyda grwpiau cynrychiadol er mwyn ennill gwell dealltwriaeth barhaus o'r materion sy'n effeithio arnyn nhw, gan gynnwys

- Ein Panel y Dinasyddion – rydyn ni wedi parhau i'w adolygu a'i ehangu er mwyn iddo gynrychioli cymunedau Rhondda Cynon Taf yn well.
- Grwpiau anabledd a [Chylch Trafod Materion Anabledd RhCT](#).
- Pobl Ifainc trwy Fforymau Ieuentid. Nododd adborth o achlysur gafodd ei gynnal yng Nghlwb Rygbi Pontypridd (lle ffilmwyd peth ohono) wrthym ni sut brofiad yw hi i bobl ifainc fyw yn RhCT a sut mae modd ei wella. Cafodd yr adborth yma ei ddefnyddio i ddatblygu Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor.
- Yn ystod 2019/20 gwnaethon ni hefyd dreialu system newydd i'n helpu i ddarganfod y ffordd orau o ddysgu rhagor am ein trigolion a'r ffordd orau o rannu gwybodaeth yn uniongyrchol â'r rhai sydd ei heisiau neu sydd ei hangen. Er bod gwybodaeth o'r system wedi ein helpu rhywfaint, e.e. ein helpu i baratoi i gynig am rywfaint o gyllid, doedd ddim yn llwyr ddiwallu ein hanghenion. Rydyn ni'n parhau i chwilio am ffyrdd eraill a fydd yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnon ni. Rydyn ni hefyd yn parhau i weithio'n rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf, y Bwrdd Diogelu a phartneriaethau eraill wrth gynnwys pobl yn eu meysydd gwaith.

Yn fwy diweddar, ar ddechrau 2020, bu rhaid i ni ymdopi â digwyddiadau annisgwyl a effeithiodd ar bobl ac aelwydydd ledled RhCT. Mae'r llifogydd sylweddol a ddeilliodd o Stormydd Ciara a Dennis a phandemig Covid-19 wedi effeithio ar bob maes yn y Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd y digwyddiadau yma'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyfathrebu ac ymgysylltu â thrigolion, gwirfoddolwyr, grwpiau cymunedol a phartneriaid allweddol eraill i ddarparu gwybodaeth gywir ac amserol er mwyn bod modd cydlynu help a chefnogi ein trigolion a'r busnesau sydd fwyaf agored i niwed a effeithiwyd gan y digwyddiadau. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gyda phobl, cymunedau a phartneriaid i gefnogi'r rhai mewn angen. Mae modd i chi ddod o hyd i wybodaeth fanylach am y ffordd y mae'r Cyngor yn ymateb i'r digwyddiadau hyn yn y gwerthusiad **LLE**.

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2020/21 yn cynnwys

- parhau i ymgysylltu a chynnwys trigolion a chymunedau mewn materion sy'n effeithio arnyn nhw fel bod eu lleisiau'n cael eu clywed ym mhenderfyniadau'r Cyngor.
- cwblhau'r Fframwaith Cynnwys a rhoi'r camau sydd eu hangen ar waith i gyflwyno'r egwyddorion ar draws y Cyngor er mwyn gwella sut rydyn ni'n ymgysylltu ac yn cynnwys ein trigolion a'n cymunedau.
- sicrhau bod y Cyngor yn bodloni gofyniad cyfraith newydd Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), cynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol a gwella eglurder trwy roi 'strategaeth cyfranogiad cyhoeddus' ar waith.
- parhau i wneud ein hymgyngoriadau yn fwy hygyrch i drigolion, trwy gynyddu'r defnydd o ddeunyddiau hawdd eu darllen a'u hargaeledd. Hyfforddi ein staff i gynhyrchu deunyddiau Saesneg clir.

- cynyddu'r defnydd o ddulliau ymgysylltu digidol, trwy gynyddu'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol a fideos.
- datblygu cyfranogiad ac ymgysylltiad 'digidol', gan sicrhau ein bod yn cynnwys y bobl hynny heb fynediad i'r we.

Rhoi'n Ôl

Mewn arolwg staff diweddar dywedodd 77% o'r staff gafodd eu holi eu bod yn falch o weithio i'r Cyngor. Mae dros 80% o'n staff yn byw yn RhCT, ac mae hefyd gan eraill gysylltiadau â chymunedau lleol. Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Cyngor, Cynghorwyr a staff yn cefnogi llawer o elusennau mewn sawl ffordd wahanol yn eu hamser hamdden, gan roi yn ôl i'r gymuned y maen nhw'n ei gwasanaethu. Mae enghreifftiau'n cynnwys....

Rhoi Anrhegion – adeg y Nadolig trwy apêl Siôn Corn i blant a phobl ifainc na fydden nhw fel arall yn derbyn anrhegion a thrwy elusennau perthnasol i'r rhai sy'n ddigartref.

Rhoi Hanfodion – trwy roddion rheolaidd i fanciau bwyd ac elusennau i'r digartref.

Rhoi Arian – i nifer o elusennau a chefnogi achosion cenedlaethol a lleol wrth werthu cacennau, diwrnodau gwisgo anffurfiol, noddi achosion uniongyrchol ar gyfer gweithgareddau a rhoi arian parod yn lle anfon cardiau adeg y Nadolig.

Rhoi Llwyfan – i bobl a grwpiau yn ein cymunedau, e.e. PRIDE, Diwrnod Rhyngwladol y Merched, Mis Hanes Pobl Dduon a llawer o ymgyrchoedd Ymwybyddiaeth Iechyd.

Rhoi Gwaed – annog staff i roi gwaed a rhoi cyfle iddyn nhw wneud hynny yn ystod oriau gwaith os oes angen.

Rhoi Cefnogaeth – yn lleol trwy ddarparu mynediad i adeiladau'r Cyngor, parciau a lleiniau i elusennau er mwyn cynnal gweithgareddau mewn cymunedau. Mae'r Cyngor yma hefyd yn bartner yn [PONT](#), elusen a ariennir gan bobl leol sy'n seiliedig ar gyfeillgarwch, ymrwymiad a pharch, ac yn darparu cymorth a chysylltiadau rhwng cymunedau â Mbale Uganda. Ymhlith pethau eraill, mae PONT wedi darparu ambiwlansys beic modur, hyfforddi miloedd o weithwyr gofal iechyd ac wedi gefeillio dros 100 o ysgolion lleol.

Rhoi Hyder

Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae un o'n preswylwyr mewn Llety Byw â Chymorth wedi ymuno â'r cannoedd o bobl sy'n cymryd rhan yn Nhaith Gerdded Flynyddol Macmillan Cwm Rhondda o Treherbert i Drehafoed. Y llynedd fe gododd £90 ar gyfer Cymorth Canser Macmillan. Roedd staff yn ei gefnogi bob cam o'r ffordd, wrth iddo gasglu noddwyr, fancio'r arian a chwblhau'r daith.

Sut mae ein gwaith yn 2019/20 wedi cyfrannu at y Saith Nod Llesiant Cenedlaethol?

Nod Llesiant Cenedlaethol	Adeiladu ECONOMI gref	Hyrwyddo annibyniaeth a bywyddau cadarnhaol i bawb POBL	Creu cymdogaethau y mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw LLEOEDD
Cymru Lewyrchus	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu cyfleoedd i fusnesau ddod i'r amlwg a ffynnu • Adeiladu cartrefi newydd • Creu cyfleoedd ar gyfer swyddi • Darparu ysgolion lle gall plant gyflawni'r gorau y gallan nhw 	Cefnogi Plant a Phobl Ifainc drwy roi dechrau gwych iddyn nhw mewn bywyd trwy ein rhaglen Teuluoedd Cydnerth	<ul style="list-style-type: none"> • Cadw pobl a thraffig yn symud ar y ffyrdd a sicrhau bod pafinau wedi'u cynnal yn dda • Datblygu cynlluniau pwysig a fydd o fudd i gymunedau yn awr ac yn y dyfodol
Cymru Gydnherth	Hyrwyddo bioamrywiaeth drwy amddiffyn cynefinoedd presennol lle bo hynny'n bosibl a chreu ardaloedd newydd ar gyfer bywyd gwyllt yn ein hysgolion	Lleihau aflonyddu ar safleoedd a gwastraff materol gydag amserlenni adeiladu byrrach drwy ddefnyddio dulliau adeiladu modiwlaid wrth adeiladu ein cyfleusterau Gofal Ychwanegol	<ul style="list-style-type: none"> • Buddsoddi yn ein Mannau Gwyrdd a'u gwerthfawrogi • Ystyried bioamrywiaeth yn rhan o ystadau tai newydd • Ehangu prosiect 'Llethrau Iach'
Cymru Iachach	<ul style="list-style-type: none"> • Buddsoddi yn ein canolfannau hamdden • Rhoi llwybrau cerdded yn eu lle ar gyfer trigolion ac ymwelwyr, a llwybrau diogel i'r ysgol ar gyfer plant a phobl ifainc 	Helpu pobl i aros yn iach cystal ag y gallan nhw, cyhyd ag y gallan nhw drwy annog rhagor o weithgaredd trwy fuddsoddi yn ein meysydd chwarae, canolfannau hamdden a chyfleusterau cymunedol mewn ysgolion	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnydd Baner Werdd yn y parciau • Parhau i fynd i'r afael â throseddau amgylcheddol • Annog gweithgareddau iach yn ein parciau, er enghraifft, Park Run
Cymru sy'n Fwy Cyfartal	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu cynhyrchion misglwyf i helpu i fynd i'r afael â thlodi misglwyf ymhlith y merched yn ein hysgolion • Yn darparu cyfleoedd ar gyfer ein holl drigolion i wella'u sgiliau digidol • Rhewi prisiau yn y canolfannau hamdden a chodi'r prisiau lleiaf posibl yn y Lido 	<ul style="list-style-type: none"> • Gwneud yn siŵr bod modd i drigolion gyrchu gwasanaethau, waeth beth fo'u cefndir neu'u hamgylchiadau • Creu cyfleoedd i bobl o bob oed ddod at ei gilydd i ddysgu oddi wrth ei gilydd 	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu canolfannau cymuned i bawb eu mwynhau ac elwa ohonynt nhw • Gwneud yn siŵr bod modd i'n trigolion o bob oed fwynhau ein parciau a'n mannau gwyrdd

Nod Llesiant Cenedlaethol	Adeiladu ECONOMI gref	Hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb POBL	Creu cymdogaethau y mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw LLEOEDD
Cymru o Gymunedau Cydlynus	<ul style="list-style-type: none"> Gwella tai i'n holl drigolion a chreu cymdogaethau dymunol i gymunedau ffynnu Trefnu achlysuron yn y gymuned sy'n dod â phobl ynghyd, er enghraifft, Cegaid o Fwyd Cymru 	<ul style="list-style-type: none"> Helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hirach a'u galluogi i gyfrannu at gymunedau a chryfhau eu perthnasau cymdeithasol Parhau â 'Bwyd a Hwyl' yn ystod gwyliau'r ysgol 	<p>Cadw pobl yn ddiogel a'u helpu i deimlo'n ddiogel drwy</p> <ul style="list-style-type: none"> hyrwyddo yfed yn synhwyrol mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol
Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	<ul style="list-style-type: none"> Dathlu diwylliant a hanes yr ardal yn ein theatrau a'n parciau Hyrwyddo RhCT yn gyrchfan i ymwelwyr, gan gynnwys yr Eisteddfod 	Darparu rhagor o gyfleoedd ar gyfer ein trigolion i gyfathrebu â'r Cyngor a'i gilydd yn Gymraeg	<ul style="list-style-type: none"> Trefnu achlysuron celfyddydol ar gyfer pob rhan o'r gymuned annog talent leol
Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fydeang	<ul style="list-style-type: none"> Rhoi canolfannau trafndiaeth ar waith er mwyn lleihau'r defnydd o geir ac felly wella ansawdd yr aer Cefnogi Mentrau Masnach Deg 	Ein gwaith gyda PONT, sefydliad elusennol a redir gan wirfoddolwyr yn RhCT sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau ym Mbale, Dwyrain Uganda ac sy'n anelu at gefnogi sefydliadau o Uganda sydd â'r potensial i fynd i'r afael â thlodi yn eu trefi a'u pentrefi	<ul style="list-style-type: none"> Symud ein prosesau ailgylchu ac ailddefnyddio yn eu blaenau Symud y Parc Eco ym Mryn Pica yn ei flaen Parhau i ddathlu trigolion sy'n gwneud mwy na'r disgwyl i gadw RhCT yn lân ac yn wyrdd trwy ein gwobrau 'Bro-garwyr Tra Mad'